Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 17eg Ionawr, 2017 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679729<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfed Wyn Edwards | Arweinydd |
| Dyfrig L. Siencyn | Dirprwy Arweinydd |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Adnoddau |
| John Wynn Jones | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Mair Rowlands | Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer, Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb |
| Mandy Williams-Davies | Aelod Cabinet Economi a Chymuned |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION O GYFARFOD A GYNHALIWYD AR RAGFYR 13EG 2016 | | | 4 - 11 |
| 6 | CYNLLUN GWEITHREDU HENEIDDIO'N DDA | Cyng / Cllr W. Gareth Roberts | Ann Pari Williams | 12 - 32 |
| 7 | EFFAITH Y DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 A'R BOLISI CODI TAL AM WASANAETHAU OEDOLION | Cyng/Cllr W. Gareth Roberts | Aled Davies | 33 - 96 |
| 8 | NEWID LLWBR DEWISIOL GWELLIANT FFORDD / MYNEDIAD LLANBEDR | Cyng/Cllr Dafydd Meurig | Dafydd Wyn Williams | 97 - 105 |
| 9 | DARPARIAETH TOILEDAU CYHOEDDUS YNG NGWYNEDD | Cyng/Cllr John Wynn Jones | Gwyn Morris Jones | 106 - 117 |
| 10 | CYNLLUN TROEDFFORDD, FFORDD COETMOR, BETHESDA | Cyng/Cllr. Dafydd Meurig | Dafydd Wyn Williams | 118 - 128 |
| 11 | ADOLYGU DARPARIAETH ADDYSG GYNRADD DALGYLCH BANGOR | Cyng / Cllr. Gareth Thomas | Gareth Richard Jones | 129 - 135 |
| 12 | ADRODDIAD PERFFORMIAD Y DIRPRWY ARWEINYDD | Cyng/Cllr Dyfrig Siencyn | Dilwyn Williams | 136 - 142 |
| 13 | BLAENRAGLEN Y CABINET | Cyng / Cllr. Dyfed Edwards | | 143 - 145 |

# Y CABINET 13/12/16

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Peredur Jenkins, John Wynn Jones, Dafydd Meurig, W. Gareth Roberts, Mair Rowlands, Gareth Thomas, Ioan Thomas a Mandy Williams-Davies

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd L. Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan G. Evans (Swyddog Monitro), Dafydd Gibbard (Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol), Rhion Glyn (Uwch Swyddog Gweithredol), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Rheoleiddio) a Arwyn Thomas (Pennaeth Addysg)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Dyfed Edwards.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Oherwydd natur Eitem 10, datganodd yr holl Aelodau oedd yn bresennol fuddiant personol. Gan nad oedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu, byddai gan yr aelodau yr hawl i gymryd rhan yn y drafodaeth ac i bleidleisio ar y mater.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys.

**4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

**5. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 22AIN O DACHWEDD 2016**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar y 22ain o Dachwedd, 2016, fel rhai cywir.

**6. DYFODOL DARPARIAETH ADDYSG YN NALGYLCH YSGOL Y BERWYN**

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Gareth Thomas.

**PENDERFYNWYD**

Gohirio'r ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad er mwyn ystyried yr ohebiaeth ddiweddaraf a dderbyniwyd gan yr Eglwys yng Nghymru ynghyd a'r farn gyfreithiol a dderbyniwyd hefyd.

Rhoi amser i swyddogion gynnal trafodaethau lleol pellach.

**TRAFODAETH**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Addysg y sefyllfa yn dilyn yr ohebiaeth ddiweddar gyda'r Eglwys Yng Nghymru. Nododd fod y Cabinet wedi penderfynu ar yr 2il o Fehefin 2015 i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn a sefydlu Campws Dysgu 3-19 Cyfrwng Cymraeg gyda statws Gwirfoddol a Reolir, Eglwys yng Nghymru yn ei le. Mae'r cynllun wedi bod yn mynd rhagddo gyda'r effaith eisoes yn cael ei weld yn Y Bala, gyda'r adnoddau diwylliannol a'r cae 3G yn cael eu defnyddio. Pwysleisiwyd mai mater llywodraethu sydd o dan sylw, a bod
y cynllun yn parhau.

Ym Medi 2016 cyfarfu'r Pennaeth Addysg a'r Esgobaeth er mwyn eu diweddaru ar gynnydd y cynllun. Yn fuan wedi'r cyfarfod derbyniwyd llythyr bygythiol gan gynrychiolwyr cyfreithiol yr Esgobaeth oedd yn gwneud dau brif bwynt. Yn gyntaf: *"The Diocese of St Asaph will not be able to consider such a school so promoted as a Church in Wales school."* Ac yn ail: *"For a local authority to force site trustees into a position where their private value is unnecessarily reverted is most improper."* Nododd yr Aelod Cabinet fod y sefyllfa yn parhau i ddatblygu, gyda'r Adran Addysg yn cynnal deialog gyda'r Esgobaeth.

Nododd y Swyddog Monitro ei fod yn hyderus fod y broses gyfreithiol wedi ei dilyn yn briodol. 'Roedd wedi ceisio eglurhad pellach ar rai pwyntiau a nodwyd, a phwysleisiodd bwysigrwydd ystyried y cyngor yma pan fyddai'n cael ei dderbyn.

Sylwadau yn codi:
- Syndod nad oedd ystyriaeth wedi ei roi i Addysg y plant yng ngohebiaeth yr Eglwys, gan mai hynny sy'n ganolog i'r cynllun.
- Rhwystredigaeth fod oedi yn y prosiect a'r buddion sy'n deillio ohono.
- Anghrediniaeth ar y datblygiadau, gan bwysleisio mai mater o lywodraethiant sydd yma, fydd ddim yn arafu'r gwaith adeiladu o gwbl.
- Fod angen rhannu gwybodaeth am y sefyllfa'n lleol.

**7. MATER YN CODI O'R PWYLLGOR CRAFFU - ARBEDION EFFEITHLONRWYDD PELLACH**

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Dafydd Meurig.

**PENDERFYNWYD**

Derbyn y rhaglen o wireddu'r arbedion a drafodwyd yng Nghabinet y Cyngor ar 12 Gorffennaf 2016, gyda £278,000 i'w gwrdd o'r cynlluniau amgen a nodir yn rhan 3.7 - 3.18 o'r adroddiad.

**TRAFODAETH**

Nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau bod yr adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Cabinet o'r blaen, ac wedi bod trwy'r broses Craffu yn y cyfamser. Nododd hefyd fod yma gynllun sy'n diwallu anghenion am arbedion effeithlonrwydd yn yr Adran Rheoleiddio, ond yn gwneud hynny mewn ffordd wahanol i'r ffordd a fwriadwyd yn wreiddiol. Yn wreiddiol 'roedd bwriad i ddod a'r Gwasanaeth Difa Pla i ben,

ond wedi i Craffu alw'r penderfyniad i mewn penderfynwyd ailedrych ar y sefyllfa. Wedi adolygu'r penderfyniad, daethpwyd i'r canlyniad fod modd i'r gwasanaeth gynyddu ei incwm i gyfarch a'r arbedion angenrheidiol.

## 8. CYD-LEOLI GWASANAETHAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dafydd Meurig

**PENDERFYNWYD**

Comisiynu'r Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol i asesu'r portffolio Eiddo mewn lleoliadau penodol ar draws y Sir, gyda'r nod o geisio adnabod cyfleoedd i gyd leoli gwasanaethau er mwyn gallu gwneud defnydd mwy effeithlon o adeiladau'r Cyngor.

**TRAFODAETH**

Nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau fod y Gwasanaeth Eiddo wedi bod yn gweithio ers 2008 ar leihau'r nifer o adeiladau sydd yn eiddo i'r Cyngor. Bu i'r gwaith fynd yn anos wrth i'r portffolio eiddo leihau, felly wrth edrych ar gyfleoedd i wneud y defnydd mwyaf effeithlon o adeiladau'r Cyngor, byddai'r Gwasanaeth Eiddo yn edrych am gyfleoedd i gydleoli gwasanaethau.

Ategodd yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol yr Aelod Cabinet, gan nodi fod y Gwasanaeth Eiddo yn bwriadu cydweithio gyda phartneriaid eraill er mwyn cydleoli gwasanaethau. Ychwanegodd hefyd fod stad y Cyngor 25% yn llai nac yn 2008.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:
- Croesawu'r cydweithio a'r synnwyr cyffredin, ond bod angen gwneud yn siŵr fod y cyd-leoli yn gweithio i'r cymunedau.

## 9. PRYDLESU CYN YSGOL BRON Y FOEL, Y FRON

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dafydd Meurig

**PENDERFYNWYD**

Defnyddio pwerau Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 i brydlesu cyn safle Ysgol Bron y Foel, Y Fron yn uniongyrchol i Canolfan y Fron am lai na rhent y farchnad, er mwyn sicrhau buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

**TRAFODAETH**

Nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau fod pwerau Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 yn caniatáu i'r Cyngor lesu eiddo am lai na phris y farchnad a hepgor y cyfle i waredu'r eiddo a chynhyrchu derbynneb cyfalaf os oedd buddion economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yn cael eu darparu. Nododd fod polisi Ôl-ddefnydd Adeiladau Ysgolion a fabwysiadwyd gan Fwrdd y Cyngor yn 2009 yn rhoi'r cyfle cyntaf i gymunedau sydd wedi cael eu heffeithio gan

gynlluniau trefniadaeth ysgolion i gyflwyno cynllun busnes er mwyn gwneud defnydd cymunedol o'r adeiladau a'u cadw yn rhan o'r gymuned. Gwerth yr adeilad ar y farchnad agored oedd oddeutu £70,000, a chynigwyd y brydles am 99 mlynedd.

Yn mis Hydref 2016, derbyniodd y grŵp grant o £945,000 o arian CAT 2 y Loteri Genedlaethol. 'Roedd yn un o amodau creiddiol y grant yw nad oedd posib ei ddefnyddio i brynu/prydlesu eiddo, a llwyddodd y cais ar y sail y byddai'r Cyngor yn cefnogi'r fenter trwy ddarparu'r adeilad.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Cydnabod fod ad-drefnu ysgolion yn medru bod yn broses boenus i'r cymunedau a effeithir, a'i bod yn bwysig ceisio cadw defnydd cymunedol i'r adeilad.
- Ei fod yn newyddion gwych fod buddsoddiad o'r fath wedi ei ddenu i Wynedd, a llongyfarchiadau i'r grŵp a'u hymrwymiad i'r cynllun.
- Fod pryder am gynaliadwyedd y cynllun busnes, oes yno sicrwydd na fydd yr adeilad yn cael ei ddychwelyd ymhen ychydig flynyddoedd?

Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Eiddo fod y cynllun busnes wedi ei asesu'n drwyadl gan y Gwasanaeth Eiddo, yn ogystal â'r Loteri Genedlaethol yn ystod y broses o ddyfarnu'r grant.

**10. BLAENORIAETHAU CYLLIDEBOL A CHYLLIDEBAU YSGOLION UWCHRADD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Gareth Thomas

**PENDERFYNWYD**

i. Fod y Cabinet yn comisiynu cynllun i'w osod yn ein Cynllun Strategol ar gyfer 2017/18 i asesu ble ddylai'r llinell warchodaeth fod ar gyfer y Sector Uwchradd er mwyn defnyddio'r wybodaeth hwnnw wrth sefydlu cyllideb 2018/19;

ii. Gan dderbyn fod yna drafodaethau wedi cychwyn gyda rhanddeiliaid ar asesu'r broblem, y dylid tanlinellu'r angen i'r Cyngor newydd ystyried canlyniadau'r trafodaethau hynny yn fuan yn oes y Cyngor er mwyn sefydlu datrysiad hir dymor cynaliadwy ar gyfer y sector Uwchradd;

iii. Er mwyn prynu amser i hynny ddigwydd, ein bod yn gofyn i'r Aelod Cabinet dros Adnoddau geisio pontio am ddwy flynedd y £298,990 y mae disgwyl i'r sector Uwchradd ei ddarganfod i'w ariannu o falansau;

iv. Er mwyn osgoi gwastraffu adnoddau drwy ddiswyddo ac ail gyflogi, fod gofyn i'r Aelod cabinet dros Adnoddau hefyd ystyried cynnwys yn ei gyllideb ar gyfer 2017/18 arian pontio i'r ysgolion hynny fyddai'n colli arian oherwydd lleihad yn y niferoedd plant gan ystyried hefyd y defnydd o falansau ysgolion unigol mewn unrhyw gynllun a gynigir.

**TRAFODAETH**

Nododd yr Aelod Cabinet Addysg ei bod yn amlwg ers cryn amser fod angen canfod datrysiad hir dymor cynaliadwy i sefyllfa gyllido addysg Uwchradd yng Ngwynedd a bod gwaith ar droed i wneud hynny. Yn y cyfamser ‘roedd mwy o ysgolion yn anelu am y llinell warchodaeth, chwestiynau yn codi hefyd ynglŷn ag a yw’r llinell warchodaeth honno yn y lle iawn. Roedd yn amserol felly comisiynu cynllun er mwyn ystyried eto lefel y linell warchodaeth ar gyfer y Sector Uwchradd.

Gan fod angen ystyried canlyniadau’r trafodaethau ar ddyfodol y sector Uwchradd byddai angen amser ychwanegol i gyflawni targed arbedion y Sector Uwchradd os am wneud hynny heb waethygu sefyllfa addysg Uwchradd o fewn y sir.

Daeth i’r amlwg hefyd fod y cyfanswm sirol o niferoedd disgyblion ysgolion uwchradd y sir yn disgyn yn 2017/18 ond yn codi wedyn yn y ddwy flynedd ganlynol. Gan fod ariannu ysgolion unigol yn cael ei ddyrannu yn ôl y nifer o ddisgyblion, darbodus felly fyddai pontio’r diffyg fydd yn cael ei achosi gan y gostyngiad yn niferoedd y disgyblion. Golyga hynny ei bod yn bosib i’r ysgolion unigol osgoi diswyddo ac ail benodi staff mewn cyfnod cymharol fyr, gan osgoi costau diswyddo ac aflonyddu ar addysg y disgyblion.

Ychwanegodd fod safonau addysg wedi codi yn raddol ers 2012, ac y byddai cynnal y cyllid yn galluogi’r gwelliant yna barhau.

Sylwadau yn codi o’r drafodaeth:

- Ei bod yn sefyllfa ddyrys pan mae niferoedd disgyblion yn gostwng ac ysgolion yn wynebu colli staff a pheryglu cynnydd mewn safonau.
- Ei bod yn well gwneud penderfyniad cynnar i bontio’r diffyg cyn i’r sefyllfa fynd yn argyfyngus.
- Oes yno le i ysgolion ddefnyddio eu balansau i bontio’r diffyg?

Mewn ymateb nododd y Pennaeth Cyllid fod lefel balansau ysgolion unigol yn mynd i gael ei ystyried wrth ddyrannu’r cyllid pontio, er mwyn dyrannu’r cyllid yn deg. Ychwanegodd fod cost ynghlwm a diswyddo staff, felly’r penderfyniad darbodus fyddai i bontio’r diffyg.

**11. ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET PLANT, POBL IFANC A HAMDDEN**

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Mair Rowlands.

**PENDERFYNWYD**

*Derbyn a nodi’r wybodaeth yn yr adroddiad.*

*Cymeradwyo ail broffilio gwireddu rhan o gynllun arbedion effeithlonrwydd ‘HAM4 - Rhedeg cyfleusterau yn fwy effeithiol’ (cyfanswm o £256,500), o’r flwyddyn ariannol 2017/18 i 2018/19.*

| 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 40,000 | 267,500 | 75,758 | 256,500 | 639,758 |

**TRAFODAETH**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden ei hadroddiad perfformiad. Adroddodd na fyddai grant Teuluoedd yn gyntaf yn cael ei dorri ar gyfer 2017-18. Byddai cyllid ar gael ar gyfer cyfnod trosiannol hyd at Hydref 2017, pan fyddai gwasanaethau yn cael cynnig i gael eu hail-gomisiynu gyda grant am dair neu bedair blynedd. Nododd fod cynnydd cyffredinol yn y mesurau perfformiad, gyda'r nifer o bobl ifanc oedd wedi derbyn achrediadau trwy'r gwasanaeth wedi cynyddu. 'Roedd y gwaith o ail fodelu gwasanaethau ieuenctid wedi dechrau, gyda'r gwaith ymgysylltu gyda'r bobl ifanc yn mynd yn ei flaen.

Tynnodd yr Uned Dechrau'n Deg sylw i'r ffaith nad oedd y mesuryddion perfformiad o reidrwydd y ffordd orau i fesur eu perfformiad, yn benodol BC01, BC02, BC03 a BC04. Bu'r uned yn gweithio ar fesurau newydd fydd yn adlewyrchu eu perfformiad.

'Roedd pryder ynglŷn â mesur SCC024 a SCC025, gyda gwaith yn mynd rhagddo i gyfathrebu pwysigrwydd y Cynllun Addysg Bersonol ymysg ysgolion er mwyn gwella SCC024. Cynyddodd SCC025 oherwydd bod mwy o blant mewn gofal yng Ngwynedd, ac roedd gwaith yn mynd ymlaen i wella cofnodi ymweliadau statudol yng ngwyneb y cynnydd yn y galw.

Adroddodd fod cynlluniau arbedion yn yr adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn cael eu cyflawni yn amserol, ond gan fod cynnydd yn y galw rhagwelwyd gorwariant o £168,000.

Nododd fod holl gynlluniau arbedion 2016/17 yr adran Economi a Chymuned wedi eu gwireddu, ond fod y Gwasanaeth Hamdden wedi cael trafferth canfod yr arbedion pellach yng nghynllun 2017/18. 'Roedd y datrysiad a ganfuwyd yn un heriol a byddai angen mwy o amser i wireddu'r arbedion yn llawn ac osgoi gorwariant wrth drawsffurfio'r gwasanaeth.

**12. ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET ADDYSG**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Gareth Thomas

**PENDERFYNWYD**

*Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.*

*Cymeradwyo'r ffigyrau proffil amgen isod ar gyfer Cynllun P7 Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol:*

| *2016/17* | *2017/18* | *2018/19* | *2019/20* | *Cyfanswm* |
|---|---|---|---|---|
| *26,238* | *98,356* | *436,004* | *247,863* | *808,461* |

**TRAFODAETH**

Adroddodd yr Aelod Cabinet addysg fod perfformiad yr adran Addysg yn gyffredinol dda, yn enwedig yn y sector uwchradd. Fodd bynnag bu perfformiad y sector gynradd wedi bod yn statig, yn enwedig yn y cyfnod sylfaen, ac felly 'roedd amser edrych yn fanylach ar hynny.

Mae canlyniadau CA4 Gwynedd wedi bod y gorau yng Nghymru ers 4 mlynedd bellach ac mae hynny i'w ganmol. Er mwyn parhau gyda'r safonau uchel yma sefydlwyd Bwrdd Ansawdd Sirol er mwyn i'r Awdurdod a GwE gael darlun cyflawno berfformiad y sector uwchradd a chynradd. 'Roedd gweithredu'r model newydd o gefnogi ysgolion hefyd yn dwyn ffrwyth, gyda 89.2% o ysgolion Gwynedd wedi eu categoreiddio yn y dyfarniadau uchaf a dim un o ysgolion Gwynedd mewn categori statudol.

Nododd fod angen cysoni a gwella perfformiad ym mhynciau mathemateg a Saesneg, gyda gwaith wedi dechrau gyda Phrifysgol Bangor er mwyn adnabod darpar athrawon a'u hyfforddi.

Bu rhywfaint o gynnydd wrth ganfod arbedion yn yr adran, ond 'roedd cydweithio gyda Môn i gyflawni arbedion cynllun Trawsffurfio'r Ddarpariaeth Adnoddau Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad wedi achosi llithro yn yr amserlen oherwydd trafodaethau i ymuno mewn partneriaeth ffurfiol. Golyga'r llithriad yma fod angen ail broffilio'r cynllun arbedion.

**13. ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET ADNODDAU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins

**PENDERFYNWYD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Gyrru llythyr i Lywodraeth Cymru yn gofyn iddynt sicrhau y bydd taliadau Lefi Prentisiaeth a wneir yn dod yn ôl i'r Cyngor ar gyfer cyflogi prentisiaid.

**TRAFODAETH**

Adroddodd yr Aelod Cabinet Adnoddau ei fod yn gyffredinol gyfforddus gyda lefelau perfformiad ei bortffolio.

Nododd fod cwmni Vanguard wedi bod i mewn i gynnal hyfforddiant a bod rhaglen datblygu arweinwyr Ffordd Gwynedd ar waith.

'Roedd cynnydd wedi deillio o fabwysiadu'r Strategaeth TG, gan ganolbwyntio ar ddatblygu hunan wasanaeth.

Nododd fod £7.6 miliwn o gynlluniau arbedion effeithlonrwydd yn cael sylw, a golyga hynny fod strategaeth a sefyllfa ariannol y Cyngor tipyn cadarnach.

Byddai'r Cyngor yn gorfod talu Lefi Prentisiaeth i Lywodraeth San Steffan yn y

dyfodol, fydd oddeutu £600,000 o gost ychwanegol. ‘Roedd yn aneglur faint ohono fydd yn cael ei ddychwelyd i Gymru trwy’r Fformiwla Barnett, ac nad oedd y Cynulliad wedi rhannu unrhyw gynlluniau am ei wariant gyda’r Cyngor. Er mwyn ceisio cael eglurder ar y mater awgrymwyd gyrru llythyr i’r Cynulliad i geisio mwy o wybodaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.55 y.h.

**CADEIRYDD**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 17eg Ionawr 2017 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd W. Gareth Roberts |
| **Swyddog Cyswllt:** | Ann Pari Williams |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 682815 Est. 34815 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Cymeradwyo Cynllun Heneiddio'n Dda Gwynedd fel dogfen weithredol ar gyfer hybu gweithio yn ataliol ac yn draws adrannol ym maes Pobl Hŷn, a chyfrannu at yr agenda llesiant. .

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Yn dilyn Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru: “Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon?” sylweddolwyd bod yn rhaid i Gynllun Heneiddio'n Dda Gwynedd adlewyrchu beth oedd cyfraniad gwasanaethau eraill, heblaw'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i'r agenda ataliol heneiddio'n dda.

Mae'r Cynllun yn cyd fynd gyda'r pwyslais ar lesiant yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac yn canolbwyntio ar y cyfrifoldeb corfforaethol i gwrdd â llesiant ein trigolion trwy roi enghreifftiau o ffyrdd mwy dychmygus o ddarparu gwasanaethau. Mae'r Cynllun hefyd yn cyfarch prif themâu Strategaeth Pobl Hŷn Llywodraeth Cymru a phum blaenoriaeth Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae'r Comisiynydd yn disgwyl i bob awdurdod lleol i ddatblygu rhaglen waith a rhoi sêl bendith ffurfiol i'w gweithredu.

### 3 CYFLWYNIAD

Er gwaethaf yr heriadau presennol, mae cyfleon i'r Cyngor edrych ar ystod ein gwasanaethau a chyfrifoldebau a cheisio adnabod y potensial i gyflawni mwy gyda llai. Y nod fyddai uchafu'r budd a'r gwerth drwy wneud y defnydd gorau neu wahanol o'r holl adnoddau presennol. Yn dilyn ymweld â gwahanol Adrannau'r Cyngor gofynnwyd am eu sylwadau ar 3 cwestiwn:

- Pa wasanaethau mae eich Adran yn eu darparu i bobl hŷn?;
- Beth yw'r potensial i ddatblygu gwasanaethau i bobl hŷn i'r dyfodol fel rhan o'r agenda ataliol?;

- A oes gennych gyfleoedd i weithio yn draws adrannol/asiantaethol ym maes pobl hŷn?

Cyflwynir Rhaglen Waith sydd wedi ei seilio ar y sylwadau a yrrwyd ataf ar y cwestiynau uchod.

O ganlyniad, mae'r Cynllun yn nodi ymarfer da sydd wedi eu sefydlu mewn meysydd megis dementia. Mae hefyd yn adrodd ar ddatblygiadau cyffrous , newydd i atal unigrwydd trwy weithgareddau rhwng y cenedlaethau.

Yn gyffredinol, mae'r Cynllun yn ceisio dangos beth yw'r potensial i bob Adran gyfrannu'n bositif i'r agenda Heneiddio'n Dda trwy addasu/ datblygu adnoddau cymdeithasol, amgylcheddol ac ariannol mwy hyblyg i gwrdd ag anghenion ein trigolion hŷn. Mae'r Cynllun yn cwmpasu nifer eang o feysydd ble mae gwasanaethau'r Cyngor yn gallu gwneud gwahaniaeth i lesiant ei phobl hŷn. Gobeithir y bydd y Cynllun yn fodd i symbylu mwy o weithgareddau rhwng y Cyngor a'i bartneriaid allanol ac y gellir adeiladu ar y pwyntiau gweithredu a gynhwysir trwy eu hadolygu a'u datblygu yn flynyddol.

Disgwylir bod y Cyngor yn cyflawni'r canlynol o fewn adnoddau presennol ac yn manteisio ar gyfleon i hyrwyddo cyd-weithio traws adrannol. Yr amcan fydd ceisio hwyluso materion i bobl hyn a sicrhau na fyddwn yn gwneud pethau yn anos.

**ATODIAD 1**: Cynllun Heneiddio'n Dda Gwynedd drafft.

## 4. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

**Prif Weithredwr:**

Yn amlwg, mae rheidrwydd i gyhoeddi'r cynllun hwn. Y peth pwysig felly yw bod cynnwys y cynllun yn gadarnhaol, yn realistig ac yn gyraeddadwy. Nodaf fod yr adroddiad yn datgan bod y cyfan yn cael ei gyflawni o fewn adnoddau presennol y Cyngor ond, diau y bydd y gwaith yn golygu peth ail-flaenoriaethu neu o leiaf ddod a'r elfen heneiddio'n dda i mewn i'r prosesau penderfynu.

**Prif Swyddog Cyllid:**

Nodaf fod paragraff diwethaf yr adroddiad blaen yn nodi: "Disgwylir bod y Cyngor yn cyflawni'r Cynllun Heneiddio'n Dda o fewn adnoddau presennol." Deallaf fod y Cynllun yn adlewyrchu nifer o weithgareddau cyfredol ac yn hybu'r angen i wahanol adrannau a chyrff allanol gyd-weithio. Mae'r awdur wedi'n cadarnhau na fydd cymeradwyo'r cynllun yn golygu ymrwymiadau ariannol ychwanegol, ac rwy'n cefnogi'r argymhelliad

**Swyddog Monitro:**

Dim sylw o ochr priodoldeb.



# Cynllun Heneiddio'n Dda Gwynedd

**Helpu pobl hŷn Gwynedd i fyw bywydau llawn ac annibynnol**



www.gwynedd.llyw.cymru

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Cyflwyniad

**Mae Cynllun Heneiddio'n Dda Gwynedd yn adlewyrchu egwyddorion holl bwysig Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn y flwyddyn gyntaf ers cychwyn ei gweithredu sef:**

- **Llais a rheolaeth i'r rhai sy'n derbyn gwasanaeth**
- **Pwyslais ar waith ataliol ac ymyrraeth gynnar**
- **Gweithio'n amlasiantaethol**
- **Cyd gynhyrchu rhwng pobl hŷn ac asiantaethau gofal**
- **Canolbwyntio ar y cysyniad o lesiant.**

Gweledigaeth y Ddeddf yw uchafu annibyniaeth pobl, cysylltu pobl efo'u cymunedau a lleihau neu oedi dibyniaeth pobl ar ymyrraeth gan ofal cymdeithasol ac iechyd. Bydd y Cynllun yma yn cychwyn gyda llais pobl hŷn y trafodwyd â hwy trwy Fforymau Age Cymru.

Yn dilyn o'r canfyddiadau yma, byddwn yn amlygu sut mae Cyngor Gwynedd yn ymateb i her Llywodraeth Cymru o greu adnoddau cymdeithasol, amgylcheddol ac ariannol addas ar gyfer pobl hŷn, trwy waith gwahanol adrannau. Hefyd, sut mae datblygu ar y gwaith yma i'r dyfodol gyda gwahanol bartneriaid, gan gynnwys pobl hŷn eu hunain.

Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi rhoi her i bob ardal wneud cynnydd ar y meysydd canlynol yn ogystal:

- Creu cymunedau sy'n gyfeillgar i oedran,
- Cymunedau sy'n cefnogi pobl â dementia
- Atal codymau
- Atal unigrwydd
- Cyfleoedd ar gyfer dysgu a chyflogaeth.

Byddwn yn edrych ar y gwaith da sy'n digwydd yn barod ac yn cynnal trafodaeth gyda chi, a gwahanol bartneriaid, ar sut i ddatblygu mwy o wasanaethau yn ein cymunedau, er mwyn sicrhau'r cyfleoedd gorau i bobl Gwynedd wrth iddynt dyfu yn hŷn. Yr elfen hanfodol drwy'r datblygiadau hyn i gyd yw'r gofyn inni gynnig gwasanaethau yn ôl angen iaith ein trigolion yn ôl egwyddor y Fframwaith Strategol "Mwy na Geiriau".Gyda 60% o bobl Gwynedd sydd dros 50 oed yn siaradwyr Cymraeg, mae bod yn rhagweithiol ynglŷn â gwireddu hyn yn holl bwysig.

## Cynnwys


**1** **Llais Pobl Hŷn, sy'n rhoi dadansoddiad o'r hyn y mae pobl hŷn wedi'i ddangos fel y pethau sy'n bwysig iddynt**

**2** **Adnoddau ar gyfer pobl hŷn, lle trafodir y gwahanol fathau o adnoddau sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd llawn:**

i. Adnoddau Cymdeithasol, sy'n cynnwys cynlluniau atal unigrwydd, llyfrgelloedd, a chanolfannau heneddio'n dda.
ii. Adnoddau Amgylcheddol, sy'n cynnwys materion yn ymwneud â tai, cymunedau a thrafnidiaeth.
iii. Adnoddau Ariannol, sy'n ymwneud â materion fel treth cyngor, budd-daliadau, pensiynau ac atal sgamiau.

**3** **Heneiddio'n Iach. Yn ogystal ag atal codymau a chreu cymunedau sy'n cefnogi pobl â dementia, rhoddir pwyslais hefyd ar bwysigrwydd gweithgareddau hamdden fel ffordd o gadw pobl yn iach.**

**4** **Cynllunio tua'r dyfodol**




Tud. 16

# Y cyd destun yng Ngwynedd



**Y newyddion da yw bod poblogaeth Gwynedd yn byw yn hirach ac yn manteisio ar iechyd gwell na'u cyndeidiau wrth edrych ymlaen at gyfnod ymddeol.**

Mae 41% o boblogaeth y Sir dros 50 oed, o gymharu â 39% yng Nghymru ar gyfartaledd. Mae disgwyl y bydd niferoedd yn codi i 52,632 erbyn 2030 - cynnydd o dros 2,000. Yn yr un modd, mae canran uchel o aelwydydd lle nad oes ond un person, a'r person hwnnw dros 50 oed. Mae'r ganran eisoes yn uwch na'r hyn yw yng ngweddill Cymru - 28% o gymharu â 24% - ac mae disgwyl iddo godi i 32% erbyn 2030.

Ar yr un pryd, mae dyheadau pobl hŷn - a dyheadau cymdeithas yn gyffredinol - yn newid. Mae pob arolwg yn dangos bod pobl hŷn yn dymuno aros yn eu cartrefi eu hunain, bod mor annibynnol ag sy'n bosibl a chael hynny ag sy'n bosibl o ddewis. Yn hyn o beth mae Gwynedd yn ffodus fod canrannau uwch o'r bobl hŷn yn mwynhau iechyd da a heb fod yn dioddef cyfyngiadau ar eu bywydau, o'i gymharu â gweddill Cymru.

Mae'n amlwg y bydd oblygiadau i hyn o ran yr angen i ddiwallu anghenion gofal cyfran gynyddol o'r boblogaeth a hynny ar adeg pan fo cyllidebau awdurdodau lleol o dan wasgfa barhaus.

Mae paratoi ar gyfer heneiddio'n dda am fod yn her i bawb ohonom, ac mae gan bawb ohonom ran i'w chwarae wrth geisio'r atebion gorau i'n trigolion hŷn.




# 1 Llais Pobl Hŷn

**Fel y nodwyd eisoes, mae pobl hŷn yn dymuno aros yn eu cartrefi eu hunain, bod mor annibynnol ag sy'n bosibl, a chael cymaint o ddewis ag sy'n bosibl.**

Daeth hyn i'r amlwg mewn sawl arolwg dros y blynyddoedd, a chafodd ei gadarnhau pan aeth Age Cymu ati i holi gwahanol grwpiau o bobl dros 50 oed mewn clybiau cinio, fforymau pobl hŷn, a chanolfannau Byw'n Dda.

Ymhlith y cwestiynau penodol a ofynnwyd, roedd un yn ymwneud â'r hyn sydd ei angen mewn cymunedau er mwyn eu gwneud yn addas i bobl o bob oed allu byw bywyd llawn ynddynt. Y nodweddion pwysicaf yng ngolwg y bobl a holwyd oedd:

- cyfleoedd i gymryd rhan yn y gymdeithas,
- mannau agored a hawdd mynd iddynt,
- dewis o wasanaethau cymorth a gwasanaethau trafnidiaeth.




Gobeithiwn y bydd y penodau a ganlyn yn cynnig atebion i rai o'r blaenoriaethau hyn.

## Beth sy'n digwydd yn barod?

**Mae Cyngor Pobl Hŷn Gwynedd wedi ei sefydlu ers dros ddegawd i roi llais i bobl hŷn o bob cwr o Wynedd. Atgyfnerthir y Cyngor Pobl Hŷn gan fforymau ardal a drefnir gan Age Cymru. Mae'r Cyngor Pobl Hŷn yn croesawu amrediad eang o asiantaethau ato i gynnal trafodaeth ac mae Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn defnyddio y fforwm yma i ymgysylltu ynglŷn â datblygiadau pwysig ym maes heneiddio'n dda.**

## Camau i'w cymryd

1. **Cynllunio rhaglen waith y Cyngor Pobl Hŷn fydd yn cynnwys pwyntiau gweithredu y Rhaglen Heneiddio'n Dda a osodir allan yn y Cynllun hwn. Sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed wrth adolygu a datblygu ar Gynllun Heneiddio'n Dda Gwynedd.**

# 2 Adnoddau ar gyfer pobl hŷn

## i. Adnoddau Cymdeithasol

**Mae sicrhau'r adnoddau cymdeithasol angenrheidiol yn gwbl hanfodol er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r perygl o unigrwydd ymysg trigolion hŷn. Mae gwasanaethau'r Cyngor yn chwarae rhan bwysig wrth geisio gwella adnoddau cymdeithasol y boblogaeth. Mae llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden y Sir eisoes yn gwneud gwaith pwysig. Yn yr un modd, mae Canolfannau Heneiddio'n Dda Age Cymru wedi profi i fod yn llwyddiant mawr.**

### (a) Llyfrgelloedd



Mae llyfrgelloedd y Sir yn gwneud cyfraniad pwysig wrth gynnig gwasanaeth gwybodaeth cynhwysfawr ar bob math o bynciau. Mae hyn yn cynnwys helpu gydag ymgyrchoedd gwybodaeth y llywodraeth sydd wedi eu targedu at bobl hŷn, fel lwfansau gwresogi neu newid i bensiynau. Maen nhw'n ymateb hefyd i lawer iawn o ymholiadau ynghylch cyflyrau meddygol, gyda staff yn cyfeirio'r bobl at adnoddau addas.

Mae Llyfrgell i'r Cartref (gwasanaeth i'r caeth i'w Tai) yn wasanaeth hanfodol i rai unigolion sy'n cael llyfrau wedi eu anfon atynt. Mae'r rhan fwyaf yn cael problemau cysylltiedig ag oedran hŷn ac yn aml ddim yn gallu gadael eu cartrefi oherwydd eu cyflyrau meddygol.



Mae'r llyfrgelloedd hefyd yn cynnig cyfleoedd heb eu hail i bobl hŷn sy'n dymuno dychwelyd at ddysgu ar ôl ymddeol, ac ymysg y meysydd y mae'r galw mwyaf amdanynt mae hyfforddiant mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn cefnogi gwaith yr elusen Citizens Online sydd wedi ymrwymo i wella sgiliau digidol yn y gymdeithas a chynyddu'r niferoedd sy'n gallu manteisio ar wasanaethau cyhoeddus digidol. Mae Hyfforddwr Digidol yr elusen yn gweithio ar draws y Sir, gan gynnal sesiynau hyfforddi sylfaenol mewn llyfrgelloedd ymysg amryw o safleoedd cymunedol eraill.

Ymhlith llwyddiannau'r cynllun, cawn hanes gwraig weddw a oedd wedi cael gliniadur newydd ond heb wybod beth i'w wneud ag ef. O fewn pedair wythnos roedd wedi datblygu o fod yn ansicr sut i'w droi ymlaen i anfon negeseuon e-bost, prynu ar-lein a sefydlu cyfrif Skype i allu cysylltu â pherthynas iddi a oedd yn byw ar gwch.

Yn ogystal â'r cyfle i ddysgu, mae llawer o bobl hŷn hefyd yn gwerthfawrogi llyfrgelloedd fel lleoedd i fynd i gymdeithasu. Dywed person hŷn o ardal Bethesda ei bod yn edrych ymlaen at ei hymweliad wythnosol gan ei fod yn ddigwyddiad cymdeithasol i rywun sy'n byw ar ei phen ei hun, a'i bod wrth ei bodd yn defnyddio cyfleusterau'r llyfrgell i ymchwilio ei hachau yn ogystal ag i fenthyg llyfrau.

**Meddai:**

***"Mae gwneud pethau fel hyn yn cadw fy meddwl yn weithgar, gweithgaredd sydd wedi cael ei brofi i helpu i atal dementia, sy'n fuddiol gan y gallaf fyw yn annibynnol am fwy o amser gobeithio."***

## Camau i'w cymryd

2 **Y gwasanaeth llyfrgelloedd i gydweithio gyda Gwasanaeth Tân, Heddlu Gogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd Lleol ar ymgyrchoedd gwybodaeth sy'n berthnasol i bobl hŷn;**

3 **Hyrwyddo Dewis Cymru fel cyfeirlyfr ar gyfer gwasanaethau llesiant ar gyfer trigolion Gwynedd a staff rheng flaen. Cael pwynt cyswllt Dewis ymhob Adran i hyrwyddo mewnfwydo gwybodaeth am weithgareddau mae'r Cyngor yn eu noddi, ar Dewis.**



## (b) Atal Unigrwydd

**Ymysg yr hyn sydd eisoes yn digwydd, mae gwaith Canolfannau Heneiddio'n Dda Age Cymru, sy'n cynnal gweithgareddau ar draws y cenedlaethau i helpu creu cymunedau sy'n fwy cyfeillgar i bobl hŷn, a chynllun arloesol i atal unigrwydd drwy'r celfyddydau.**

### Canolfannau Heneiddio'n Dda Age Cymru

Nôd y canolfannau hyn yw helpu pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi, a chydweithio â nhw i roi cyfleoedd iddynt gyfrannu at eu cymunedau gan gynnig cyfleoedd gwirfoddoli. Mae dros fil o bobl hŷn eisoes yn cael eu cefnogi gan bum canolfan ym Mlaenau Ffestiniog, Porthmadog, Cricieth, Penrhyndeudraeth a Thremadog. Mae'r canolfannau'n cynnig sesiynau ymarfer corff ac addysg, clybiau cinio, grwpiau llywio gwasanaethau ac mae 15 o wirfoddolwyr wedi eu recriwitio o blith y bobl hŷn sy'n cael eu helpu.

Ymysg y rhai a ddechreuodd fynychu Canolfan Heneiddio'n Dda roedd Mrs A, a oedd yn byw mewn ardal wledig hyd nes i'w gŵr farw. Gan nad oedd yn gallu gyrru, a heb wasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus, aeth i deimlo'n unig a arweiniodd yn ei dro at golli hunan hyder. Gwerthodd ei thŷ ac aeth i fyw at un o'i phlant mewn ardal drefol, lle byddai cyfle iddi gyfarfod pobl newydd a gwneud ffrindiau newydd. Clywodd am y Ganolfan Heneiddio'n Dda leol, ac mae hi bellach yn mynd yno bob wythnos. Yn ogystal â gwneud ffrindiau newydd mae hi wedi dysgu amryw o sgiliau newydd, gan gynnwys chwarae bowls, ac mae hi hefyd yn cyfrannu at gynnal y ganolfan trwy olchi'r llestri yno ar ôl y cyfarfod. Mae'r cyfan yn ei helpu i gadw'n brysur ac wedi bod yn hwb i'w hunan hyder.

### Cymunedau sy'n fwy cyfeillgar i bobl hŷn

Mae enghraifft dda o weithgareddau rhwng y cenedlaethau i'w weld yn Nhudweiliog, lle mae plant yr ysgol gynradd yn helpu paratoi pryd o fwyd i drigolion hŷn yr ardal. Mae'n ddigwyddiad cymdeithasol difyr i'r bobl hŷn, gan ei fod yn rhoi cyfle iddyn nhw ddod i adnabod y plant a dilyn eu datblygiad. Yn yr un modd, mae'r  plant yn cael cyfle i ddysgu llawer am hanes eu hardal.

### Rhaglen deledu "Hen Blant Bach"

Cafodd Canolfan Ddydd Maesincla gyfle arbennig i fod yn rhan o beilot Prosiect "Care Share". Mae'r syniad wedi hannu o'r Unol Daleithiau lle mae cartrefi pobl hŷn wedi eu cyd leoli gyda creche plant bach fel eu bod yn cael cyfle i gael gofal a gwneud gweithgareddau ar y cyd. Daeth plant o Feithrinfa Plant Parciau i'r Ganolfan Ddydd a dywedodd Idwen Roberts, y Rheolwraig, bod yr arbrawf wythnos wedi bod yn llwyddiant mawr ac adlewyrchir hyn yn y rhaglen deledu a ddarlledwyd ar y 28ain o Ragfyr 2016. Cawsant wneud cacenau a chrefftau, cyd ganu a chwarae, a gan bod un o selogion y Ganolfan Ddydd yn gyn aelod, daeth Band Pres Llanrug atynt i rannu yn yr hwyl. Yng nghanol yr asbri, gwnaeth Idwen y pwynt pwysig bod gan gynllun fel hwn botensial anferth i atal unigrwydd sef un o brif amcanion y Canolfanau Dydd.



**Dywedodd:**

***"Doedd gan un ddynes ddim plant, a doedd ganddi ddim hyder efo unrhyw beth i'w wneud â phlant. Roedd hi'n sefyll nôl - doedd hi ddim yn gwybod sut i ymdopi na beth i'w ddweud wrth y plant.***
***"Ond erbyn diwedd yr wythnos roedd hi'n gwneud hetiau hefo nhw, roedden nhw'n eistedd ar ei glin. Roedd o'n grêt. Fe wnaeth hi agor fyny a dod ati hi ei hun. Roedd o'n wych - dw i ddim eisiau hyn i stopio."***

## Camau i'w cymryd

**4** **Ymchwilio i faint o ysgolion sy'n cynnal gweithgareddau ar y cyd  gyda trigolion hŷn eu  cymuned ag edrych ar gyfleon i wneud mwy o hyn.**

**5** **Gwerthuso Cynllun Atal Unigrwydd Canolfan Gerdd William Mathias er mwyn dysgu gwersi/ rhannu arfer da.**


**6** **Adeiladu ar y peilot "Care Share" yng Nghanolfan Ddydd Maesincla**

### Atal unigrwydd drwy'r celfyddydau

Mae'r Uned Gelfyddydau Cymunedol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau celfyddydol ar hyd a lled Gwynedd, gyda rhai ohonynt wedi eu targedu'n benodol ar gyfer pobl hŷn. Ymhlith y prosiectau sydd ar y gweill ar hyn o bryd mae 'Cyfrinachau'r Môr', lle mae henoed ardal Caernarfon yn cael cyfle i greu gwaith creadigol wedi ei ysbrydoli gan eu hatgofion a'u profiadau o'r môr, a 'Cyfeiriadau Newydd', gan Grŵp Therapi Celf Cymunedol Dwyfor, sy'n defnyddio therapi celf fel ffurf o seicotherapi ac sy'n cael ei ddarparu mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.



Mae'r Uned hefyd wedi comisiynu Canolfan Gerdd William Mathias ar gyfer cynllun celfyddydol newydd i weithio gyda phobl hŷn mewn ardaloedd gwledig sy'n teimlo'n unig ac wedi eu hynysu. Fe fydd y prosiect 'Atgofion ar Gân - Cysylltu Cenedlaethau' yn gweithio o fewn dwy gymuned ym Meirionnydd, sef Gellilydan a'r Bala. Er bod y ddwy gymuned yn wahanol iawn, a bod y Bala yn dref wledig brysur, gall trigolion gwledig sy'n symud i drefi yn eu henaint deimlo llawer o unigrwydd.






Rhoddir pwyslais ar bontio'r cenedlaethau gan fod llawer o bobl hŷn yn gweld colli cwmni plant a phobl ifanc. O dan y cynllun yn y ddwy ardal, cynhelir sesiynau cerdd wythnosol i bobl hŷn ddod at ei gilydd i ganu caneuon a fydd yn gyfarwydd iddynt. Ar yr un pryd, bydd plant Ysgol Gynradd Gellilydan ac Ysgol Bro Tryweryn yn dysgu'r un caneuon ac ar ôl y Nadolig fel fydd y plant a'r bobl hŷn yn dod at ei gilydd i ganu.

## ii. Adnoddau Amgylcheddol

**Er mwyn i bobl hŷn allu byw mor annibynnol ag sy'n bosibl ac yn eu cartrefi eu hunain, yn ogystal â'r llety maent yn byw ynddo, mae'n rhaid i'r amgylchedd a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt fod yn addas ar eu cyfer. Dyna pam fod yn rhaid edrych ar anghenion pobl hŷn wrth gynllunio ar gyfer tai ac adeiladau eraill, llwybrau addas a thrafnidiaeth.**



### (a) Llety addas

## Beth sy'n digwydd yn barod?

**Mae ystyriaeth i anghenion pobl hŷn yn cael sylw yn Strategaeth Lletya Pobl Hŷn Gwynedd sy'n nodi bod pobl hŷn eisiau:**

- **Cartref sydd yn hawdd i edrych ar ei ôl**
- **Teimlo'n ddiogel**
- **Mynediad hawdd at gyfleusterau a chludiant**
- **Cymdogaeth dda**
- **Cartrefi sy'n ddeniadol ac yn addas i'r pwrpas**
- **Aros yn eu cartrefi heb orfod mynd i ofal preswyl.**

Mae nifer uchel o breswylwyr Gwynedd yn manteisio ar y gwasanaeth Gofal a Thrwsio sy'n gwneud addasiadau i dai i alluogi pobl hŷn aros yn eu cartrefi yn ddiogel. Mae'r gwasanaeth Teleofal hefyd yn helpu unigolion i aros yn eu cartrefi gyda technoleg yn datblygu yn gyson i wrthsefyll rhwystrau i fyw'n annibynnol. I helpu i gyrraedd at y nôd o leihau yr angen i fynd i ofal preswyl, mae Tai Gofal Ychwanegol wedi eu datblygu ym Mala, Bangor ac un arall i agor ym Mhorthmadog yn 2017.

Mae amrediad o Dai Gwarchod o fewn y Sir gyda'u defnydd yn datblygu fel mae anghenion y preswylwyr yn newid. Ceir engraifft o hyn yn Nhai Gwarchod Hafan Elan Llanrug ble y sefydlodd y cyn warden Glwb Cinio a gynhelir yn eu Ystafell Gymunedol. Mae'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr ac mae croeso i bobl o'r gymuned yn ehangach i ymuno â'r tenantiaid i gymdeithasu yn rheolaidd. Mae Age Cymru yn defnyddio'r Ystafell Gymunedol i gynnal gweithgareddau heneiddio'n dda megis clwb arlunio a cadw'n heini. Yn Nhŷ Gwarchod Morfa Cadfan, Tywyn, fe wnaeth y tenantiaid ennill grant o £10,000 gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd i sefydlu Clwb Garddio i ymestyn mynediad i'w gardd ar ei newydd wedd, i gadeiriau olwyn. Dyma engreifftiau o sut y gellir hyrwyddo llesiant pobl hŷn trwy gyd weithio da rhwng partneriaid.

Mewn ymarferiad ymgysylltu gyda pobl hŷn fe ddaeth yn amlwg nad oeddent yn ymwybodol o'u opsiynau lletya er mwyn gallu cynllunio ar gyfer eu dyfodol.

## Camau i'w cymryd

**7 Sicrhau bod gwybodaeth ynglŷn ag opsiynau llety ee Tai Gwarchod a Tai Gofal Ychwanegol, ar gael i bobl hŷn Gwynedd trwy adolygu a diweddaru'r daflen wybodaeth.**

**8 Cwblhau cofrestr o eiddo sydd wedi ei addasu, er mwyn sicrhau gwell defnydd i gwrdd ag anghenion pobl hŷn.**

### (b) Amgylchedd Addas

**Fe nodir mewn nifer o ddogfennau polisi ac ymchwil bod y gydberthynas rhwng cartrefi a'r amgylchedd y mae unigolyn yn byw ynddo, yn allweddol i safon bywyd yr unigolyn. Mae polisi Cynllunio addas yn greiddiol i hyn ac mae angen ystyried anghenion pobl hŷn i gael mynediad at gyfleusterau megis siopau, rhwydwaith bysiau, llwybrau cerdded a chyfleoedd hamdden, wrth asesu addarwydd ceisiadau cynllunio. Mae'n bwysig bod y gymysgedd o dai sy'n cael eu cymeradwyo yn cynnwys darpariaeth amrywiol ar gyfer pobl o bob oed.**

Gellir ychwanegu at amgylchedd addas trwy ystyried elfennau megis sut mae'r Cyngor yn ymdrin â gwastraff. Cydnabyddir bod Pobl Hŷn ymysg y garfan gyntaf o'r boblogaeth i sylweddoli pwysigrwydd ail gylchu a hwy sydd yn defnyddio canolfanau ail gylchu y Cyngor yn fwyaf rheolaidd.



# Beth sydd yn digwydd yn barod?

**Mae Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn paratoi Canllaw Cynllunio Amodol Math a Chymysgedd Tai i roi arweiniad ar y math o amrywiaeth o dai y bydd eu hangen i ddiwallu anghenion pobl hŷn Gwynedd.**

Wrth ystyried yr amgylchedd yn ehangach, mae gan Adran Priffyrdd y Cyngor gysylltiad holl bwysig gyda'n Cynghorau Cymuned a Thref sy'n chwarae rhan mor allweddol wrth gynnal a chadw llwybrau a mwynderau lleol gan gynnwys troedffyrdd.Yn aml iawn, ein trigolion hŷn sydd fwyaf brwdfrydig wrth arwain ar gadw ein cymunedau i edrych ar ei gorau e.e.mae'r Swyddog Trefi Taclus yn adrodd bod canran uchel o wirfoddolwyr sy'n cynorthwyo i gadw llefydd yn daclus, yn drigolion hŷn.

O safbwynt casglu sbwriel, mae'n anodd i lawer o bobl bregus neu hŷn gludo biniau neu flychau ailgylchu i'r manau casglu arferol ar waelod gerddi neu ben draw strydoedd. Mewn achosion fel hyn, ceir casgliadau drws cefn, lle mae gweithwyr y Cyngor yn gallu dod at y tŷ lle bo angen.

## (c) Trafnidiaeth

Mae llawer o weithgareddau'r Cyngor ym maes trafnidiaeth o fudd uniongyrchol i drigolion hŷn. Mae'r Adran Rheleiddio yn trefnu trafnidiaeth ar gyfer gwasanaethau cysylltiedig ag iechyd i ardaloedd sy'n bell oddi wrth ysbytai, fel Penrhyn Llŷn a De Meirionnydd. Maent yn tendro cludiant tacsi ar gyfer gofal dydd a chanolfannau dydd ar ran yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, ac mae hybu cyfleoedd pobl hŷn a bregus i weithio ac i gymdeithasu yn un o'r meini prawf y maent yn ei ddefnyddio wrth benderfynu pa wasanaethau bws i'w cefnogi. Mae eu Cynllun Gyrwyr Hŷn, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, yn hyrwyddo'r hyfforddiant sydd ar gael yn rhad ac am ddim i yrwyr dros 65 oed, sydd o fudd i'r gyrwyr hŷn a hefyd yn fodd o wella diogelwch cyffredinol ar ein ffyrdd.



## Camau i'w cymryd

9 Cynllunio.Wrth lunio Canllaw Amodol Math a Chymysgedd Tai, mae angen i'r gwasanaeth cynllunio gydweithio â'r Gwasanaeth Tai, y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac eraill i gael tystiolaeth rymus ar gyfer anghenion Llety pobl hŷn, er mwyn ei ddefnyddio i ddangos y galw i adeiladwyr tai.

10 Gwella llwybrau - Er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer pob defnyddiwr, mae angen cynyddu y nifer o giatiau yn lle camfeydd.

11 Casglu gwastaff - Tynhau'r ffordd o drefnu bod staff casglu gwastraff y Cyngor yn cael gwybod yn uniongyrchol am drigolion a fyddai'n gwerthfawrogi casgliad drws cefn.

12 Cludiant - Trafod datblygu cynllun trafnidiaeth ar y cyd rhwng Uned Cludiant Ysbyty Gwynedd a Chyngor Gwynedd ar gyfer cleifion heb fod yn rhai brys, gan ddefnyddio adnoddau'r Cyngor (bysiau mini segur) ac adnoddau grwpiau cludiant cymunedol.

## iii. Adnoddau Ariannol



**Mae pryderon ariannol yn gyffredin ymysg llawer o bobl hŷn. Mae'r mwyafrif yn gorfod byw ar incwm llawer îs ar ôl rhoi'r gorau i weithio, ac mae'r help sydd ar gael mewn budd-daliadau yn aml yn gymhleth i'w ddeall. Mae gan y Cyngor ran bwysig i'w chwarae wrth helpu pobl hŷn i wybod pa help ariannol sydd ar gael iddynt. Hyd yn oed ymhlith y pensiynwyr hynny sy'n weddol dda eu byd yn ariannol, gall y cyfrifoldeb o sicrhau bod popeth yn cael ei dalu mewn pryd roi pwysau arnynt, ac mae angen sicrhau bod pawb ar eu gwyliadwriaeth rhag y twyllwyr sy'n manteisio ar bobl hŷn gyda'u sgamiau.**

### (a) Uned Trethiant y Cyngor

**Yn ogystal â'r cyfrifoldeb am gasglu'r dreth cyngor dyladwy gan drigolion y sir, mae Uned Trethiant y Cyngor yn cyflawni amryw o swyddogaethau sy'n berthnasol i bobl hŷn a phobl fregus.**

- **Mae wedi bod yn flaengar wrth geisio rhoi'r cymorth a'r gefnogaeth gywir i'r rheini sy'n cael trafferth i dalu eu biliau, ac mae'n gyfrifol am weinyddu'r Cymorth Treth Cyngor i bawb sy'n cymhwyso.**
- **Mae'n gyfrifol hefyd am weinyddu budd-daliadau tai, ac er y bydd y budd-dal hwn yn trosglwyddo i fod yn rhan o'r Credyd Cynhwysol, nid oes cynlluniau pendant ar hyn o bryd i dynnu'r gwaith gweinyddol oddi wrth gynghorau.**

Wrth i'r rhaglen ddiwygio budd-daliadau lles barhau i ddatblygu, bydd y Gwasanaeth Budd-daliadau'n dal i gynnig cyngor i bobl hŷn ar y budd-daliadau a'r cyngor sydd ar gael iddynt.

Fel rhan o Strategaeth Gwrth dlodi y Cyngor , mae'r Adran Economi wedi datblygu Cynllun Capasiti Ariannol ar y cyd gyda Cyngor ar Bopeth. Mae'n cefnogi unigolion gyda ymholiadau megis lleihau dyled, rheoli dyled a mynediad at fudd-daliadau.

### (b) Atal sgamiau

**Er bod deddfwriaeth helaeth yn erbyn twyllwyr, mae pobl fel masnachwyr digroeso sy'n gwerthu o ddrws i ddrws a benthycwyr arian anghyfreithlon yn peri llawer o broblemau a phryder i bobl hŷn a bregus.**



## Beth sy'n digwydd yn barod?

**Mae'r Cyngor eisoes yn gweithio mewn partneriaeth â'r Heddlu a Diogelwch Cymunedol ac Asiantaethau eraill fel Age Cymru, Carers' Outreach a Dementia Friendly i roi gwybodaeth ar sut i adnabod masnachwyr anghyfreithlon sy'n targedu defnyddwyr bregus. Maent wedi darparu pecynnau i drigolion, sy'n cynnwys sticeri 'dim galwyr digroeso' i'w dangos ar ddrysau neu ffenestri. Mae'r Uned Safonau Masnach yn ymateb i unrhyw gwynion ac yn ymchwilio iddynt.**

Yn ogystal â'r twyllwyr o ddrws i ddrws, mae angen i bobl hŷn fod ar eu gwyliadwriaeth hefyd rhag sgamiau ffôn, drwy'r post ac ar-lein. Mae'r Uned Safonau Masnach yn aelod o Dîm Sgamiau Safonau Masnach Cenedlaethol ac yn derbyn cymorth a gwybodaeth am sgamiau ac yn eu hanfon ymlaen i drigolion. Maent yn cysylltu â dioddefwyr er mwyn ceisio sicrhau na fydd yr un peth yn digwydd eto. Maent hefyd yn helpu pobl atal 'galwadau niwsans' rhag tarfu arnynt.

## Camau i'w cymryd

**13 Yr Uned Safonau Masnach i ledaenu'r rhybuddion am sgamiau a chynnig gwybodaeth am eu hatal i staff gofal y Cyngor.**

## (c) Cyfleoedd ar gyfer dysgu a gwaith cyflogedig

**Mae'n bwysig sicrhau bod pobl hŷn yn cael cyfleoedd i ddysgu ac i weithio, boed hynny yn gyflogedig neu'n wirfoddol. Mae'r cyfleoedd dysgu yn werthfawr ynddynt eu hunain gan eu bod yn cadw'r meddwl yn effro ac yn helpu osgoi unigrwydd. Gall dysgu sgiliau newydd agor drysau i bobl hŷn gymryd rhan mewn gweithgareddau a theimlo eu bod yn cyfrannu i'w cymuned ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r gymdeithas ehangach hefyd ar ei hennill trwy elwa ar brofiad pobl hŷn.**

# Beth sy'n digwydd yn barod?

**Mae'r Cyngor yn ceisio hyrwyddo'r ddarpariaeth sydd ar gael yn y sir, ac yn ceisio adnabod cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael gyda chynghorau cymuned a thref, busnesau a'r trydydd sector. Mae mannau megis Neuadd Dwyfor ym Mhwllheli a Storiel ym Mangor yn manteisio yn fawr ar hyn.**

Yn ogystal â gwaith gwirfoddol, mae angen sicrhau hefyd fod pobl hŷn yn cael cyfleoedd i gynyddu eu incwm trwy waith cyflogedig.

Mae'r Cynllun OPUS yn cychwyn yng Ngwynedd yn Ionawr 2017 . Bydd yn cefnogi pobl hŷn i gael mynediad at gyfleoedd gwirfoddoli ac yn cynnig nifer o weithgareddau hyfforddiant i ddatblygu sgiliau gwaith. Gellir cael mynediad at gymhwyster yn ogystal, fuasai'n galluogi'r unigolyn i ymgeisio am waith cyflogedig. Un o egwyddorion craidd y Cynllun Opus yw eu nod i deilwrio gweithgareddau ar gyfer anghenion yr unigolyn.

Gall hyrwyddo gweithio hyblyg fod yn gymorth i weithwyr hŷn, fel sydd eisoes yn digwydd gyda gweithlu gofal y Cyngor. Mae gweithiwr cyflogedig hynaf y Cyngor yn 84 oed ac yn gwneud cyfraniad pwysig yn ei waith yng Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy.





## Camau i'w cymryd

**14 Marchnata y Cynllun Opus yn eang drwy'r Cyngor, ac yn ehangach, fel bod pobl hŷn yn manteisio cymaint a phob grŵp oedran arall o'r Cynllun.**

# 3 Heneiddio'n Iach

**Mae cynnal a gwella iechyd trigolion hŷn Gwynedd am fod yn gwbl hanfodol i lwyddiant unrhyw gynlluniau i'w cadw mor annibynnol ag sy'n bosibl yn eu cartrefi eu hunain. Mae'n sicr mai cyflwr iechyd yw'r un elfen sy'n dylanwadu fwyaf ar ansawdd bywyd pobl hŷn ac ar eu rhyddid i fyw eu bywydau fel y mynnont. Mae unrhyw fuddsoddi cyhoeddus a fydd yn arwain at well canlyniadau iechyd hefyd yn sicr o dalu ar ei ganfed mewn arbedion sylweddol mewn gofal cymdeithasol a chostau eraill cysylltiedig.**

## (a) Cadw'r corff a'r meddwl yn iach

**Mae llawer o ddatblygiadau arloesol eisoes ar waith yn hyn o beth, yn ein canolfannau hamdden, gyda'r cynllun DementiaGO ac wrth greu cymunedau dementia-gyfeillgar.**

### Canolfannau Hamdden

Mae'r canolfannau hamdden yn darparu sesiynau ar draws y Sir i bobl hŷn Gwynedd, gan gynnwys nofio am ddim i'r rheiny dros 60 a dosbarthiadau penodol i'r rheiny dros 50. Mae nifer o staff y canolfannau wedi eu cymhwyso i weithio gyda unigolion hŷn, ac i addasu gweithgareddau er mwyn cyfarfod a anghenion ein cwsmeriaid hŷn.

Mae nifer o bobl hŷn Gwynedd yn cael eu cyfeirio gan feddygon/staff iechyd proffesiynol, i'r Cynllun Cyfeirio i Ymarfer, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, ond yn cael ei redeg yn lleol gan staff Cymunedau Iach. Mae'r staff wedi eu cymhwyso i lefel uchel, er mwyn gallu darparu dosbarthiadau penodol i bobl hŷn, fel atal codymau.



### Cynllun Dementia GO

Mae'r Gwasanaeth Hamdden yn gyfrifol hefyd am redeg cynllun arloesol DementiaGo, sef cynllun sy'n anelu i wneud gwahaniaeth corfforol a meddyliol i'r rheiny sy'n byw gyda Dementia (cyfnodau cynnar yr afiechyd), a'r rheiny sy'n gofalu amdanynt. Ar hyn o bryd, mae'r cynllun yn rhedeg mewn pump o ganolfannau gyda'r gobaith o ehangu yn y dyfodol. Mae wedi ei ddatblygu fel bod cyfranogwyr yn cymryd rhan mewn gweithgaredd egniol am awr, mewn canolfan hamdden, ac wedyn yn cymdeithasu dros baned.

Caiff unigolion eu hannog i ddod ynghyd i rannu eu profiadau ac i gymryd rhan mewn sesiynau ymarfer corff mewn amgylchedd cymdeithasol. Mae 380 o unigolion sy'n byw gyda dementia wedi elwa o'r sesiynau dros gyfnod o chwe mis, gyda 90% yn adrodd eu bod wedi gwneud lles i'w hiechyd a chryfder corfforol. Dywed 90 o aelodau staff canolfannau byw'n iach hefyd fod ganddynt well dealltwriaeth o'r cyflwr ar ôl derbyn hyfforddiant.

Dechreuodd Barbara fynd i ddosbarth DementiaGO Tywyn gyda'i diweddar ŵr Doug, a oedd yn dioddef o dementia, yn 2014. Er i Doug farw ym mis Mawrth eleni, mae Barbara yn dal i fynd i'r dosbarth yn rheolaidd yn defnyddio'i phrofiad fel gofalwraig i helpu cefnogi a symbylu eraill yn y dosbarth.

Mae Barbara yn heini iawn ac yn cerdded yn rheolaidd yn ogystal â gofalu am ei gardd fawr. Ers cychwyn ar y sesiynau ymarfer dair blynedd yn ôl mae hi'n teimlo'n llawer cryfach, yn gallu cerdded yn gyflymach ac yn teimlo gwaith garddio'n dod yn haws iddi.



Mae Colin a Gwen Hilton o Trefor yn mynd i'r dosbarth DementiaGo yng Nghanolfan Hamdden Dwyfor ym Mhwllheli ers mis Mawrth eleni. Mae Colin yn dioddef o dementia a chlefyd Parkinson, a Gwen yw ei ofalwr. Dywed y ddau fod y sesiynau ymarfer yn gwneud lles iddynt ac yn codi eu hysbryd. Mae'r asesiadau o Colin yn dangos gwelliant yn ei symudiadau, a fydd yn help gyda'i fywyd o dydd i ddydd ac yn lleihau'r risg o godymau.



## Cymunedau dementia-gyfeillgar

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Gymdeithas Alzheimer i roi hyfforddiant i gymaint o bobl, busnesau a grwpiau ag sy'n bosibl i helpu pobl â dementia. O dan y cynllun hwn, gall pobl dderbyn sesiwn gwybodaeth codi ymwybyddiaeth 'Ffrind Dementia' a gall tref neu bentref ennill statws 'Dementia Gyfeillgar' drwy gyrraedd cerrig milltir penodol.

Porthmadog yw'r ardal gyntaf yng Ngwynedd i ennill statws gweithio tuag at 'Gymuned Dementia Gyfeillgar' ac mae cymunedau eraill, megis Bontnewydd, yn gweithio'n galed i ddilyn esiampl y dref yn Eifionydd.

Mae Emma Quaeck, sy'n gweithio i gynllun Gwynedd Iach y Cyngor, wedi chwarae rhan allweddol wrth yrru'r ymgyrch ym Mhorthmadog, trwy ymweld â llawer o fusnesau, banciau a darparwyr gwasanaethau i ddysgu staff sut y gallan nhw helpu pobl sydd â dementia.

"Trwy siarad efo busnesau a sefydliadau eraill rydan ni'n mynd i'r afael â'r teimladau o gywilydd sy'n gysylltiedig â'r cyflwr a'u helpu nhw i ddarparu'r math iawn o wasanaeth, fel y gall pobl gadw eu hannibyniaeth a'u hurddas," meddai Emma.

Un o'r bobl sydd wedi ymuno â'r cynllun Dementia Gyfeillgar yw'r postmon lleol, Bleddyn Williams. Mae'r achos yn agos iawn at ei galon oherwydd i'w fam ddioddef o'r cyflwr

***Meddai:***

***"Dw i'n meddwl ei fod yn syniad da i ni'r postmyn ymuno â'r cynllun, gan ein bod ni'n gweld pobl bob dydd fel y gallwn ni gadw llygad ar y rheini a all fod angen help ychwanegol."***
***"Dw i bellach yn Eiriolwr Dementia fel rhan o'r cynllun, ac wedi bod yn hyfforddi rhai o fy ffrindiau i ddod yn Gyfeillion Dementia, fel eu bod nhw'n gwybod beth mae'r cyflwr yn ei olygu a sut y gallan nhw helpu."***

Daeth dwsinau o bobl leol at ei gilydd yn ddiweddar yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn i gymryd rhan mewn cystadleuaeth Boccia. Nod y sesiwn oedd codi ymwybyddiaeth o dementia a hefyd o bwysigrwydd cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a chadw'n iach a heini.

Rydym yn ffodus bod gennym Ganolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia ar ein stepan drws ym Mhrifysgol Bangor. Mae'r Ganolfan yn adnabyddus yn rhyngwladol am ei ymchwil o ansawdd uchel i ddatblygu a gwerthuso ymyriadau seicogymdeithasol creadigol ar gyfer pobl â dementia a'u gofalwyr ac ar gyfer astudiaethau ar les a gwydnwch yn ddiweddarach mewn bywyd. Maent yn arwain y ffordd drwy ddod a pobl sy'n byw gyda dementia, eu gofalwyr, pobl broffesiynol ac ymchwilwyr at ei gilydd yn lleol gyda'r nod o rannu gwybodaeth ac ysbrydoliaeth i greu cymunedau mwy gwybodus a chynhwysol a gwella gofal a chefnogaeth dementia yng Ngogledd Cymru.









## Camau i'w cymryd

**15** **Ystyried cyfleoedd i gyllido mwy o Ddosbarthiadau DementiaGo yn y Sir**

**16** **Cynnig hyfforddiant Cyfeillion Dementia i staff ar draws Adrannau Cyngor Gwynedd.**

## (b) Atal codymau

**Mae'r Cyngor, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a phartneriaid o'r trydydd sector gan gynnwys cymdeithasau tai yn cydweithio i helpu pobl hŷn i leihau eu risg o gael codwm. Y nod yw integreiddio atal codymau i raglenni iechyd a gofal cymdeithasol eraill ar gyfer pobl hŷn fel rhan o waith ehangach heneiddio'n dda.**

Defnyddir dull safonol o asesu risg o gwympo ac mae pecyn gwybodaeth ar sut i atal codymau yn y cartref yn cael ei ddosbarthu'n helaeth. Mae adnabod y risg yn ddigon cynnar yn holl bwysig er mwyn trefnu ymyriadau ataliol.

Rhan bwysig o'r gwaith yw dosbarthiadau ymarfer corff ysgafn sy'n helpu pobl i gryfhau'n gorfforol ac felly mae eu symudiadau'n fwy heini ac yn fwy tebygol o allu osgoi cwympo. Caiff gweithwyr proffesiynol hefyd eu hannog i gyfeirio unigolion i ymarfer.



Mae Gwasanaeth Atal Codymau Arfon wedi bod ar waith ers mis Ebrill 2015 ac mae'n dal i esblygu. Mae pobl dros 65 oed sydd wedi syrthio neu sydd mewn perygl o syrthio yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru, meddygon, ysbytai a'r gwasanaethau cymdeithasol neu gall pobl hunan-gyfeirio ato. Gan ddibynnu ar eu cyflwr, mae'r cleifion yn derbyn rhaglen ymarferion 12 wythnos yn y cartref, am 12 wythnos yn Ysbyty Eryri, neu raglen 32 wythnos yng nghanolfannau hamdden Porthmadog, Caernarfon a Bangor. Bydd y gwasanaeth yn cael ei gynnig yn Abermaw yn fuan yn 2017.

Ymhlith y cleifion sydd wedi cael eu helpu gan y gwasanaeth mae dyn 88 oed sydd wedi cwblhau'r rhaglen ymarfer 12 wythnos yn Ysbyty Eryri. Cyn cychwyn ar y rhaglen roedd yn syrthio tua unwaith y mis, ac roedd ganddo ofn parhaus o syrthio ac yn symud ar bulpud yn y tŷ yn unig. Mae ganddo bellach yr hyder i gerdded gyda ffon y tu allan a heb unrhyw help yn y tŷ, ac nid yw wedi syrthio o gwbl yn y tri mis diwethaf.

## Camau i'w cymryd

**17** **Ymestyn y dosbarthiadau Atal Codymau i Feirionnydd gan gychwyn gyda Abermaw yn Chwefror 2017 ac wedyn Dolgellau.**

**18** **Hyfforddiant uwch i staff Canolfanau Hamdden mewn addasu ymarferiadau i uchafu annibynniaeth corfforol pobl hŷn fel eu bod yn cael yr hyder i ymarfer yn gyson.**

# 4 Edrych tua'r dyfodol

**Wrth drafod y ffordd y mae'r Cyngor yn mynd ati i ddiwallu anghenion pobl hŷn, rydym wedi tynnu sylw at enghreifftiau o arferion da sydd eisoes ar waith, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer y dyfodol.**

Rhaid pwysleisio, fodd bynnag, mai dim ond megis dechrau y mae'r gwaith o ymateb i'r her anferthol sydd o'n blaenau. Daw'n fwyfwy amlwg na all unrhyw adran o'r Cyngor gyflawni'r gwaith ar ei phen ei hun. Mae'n dasg i'r Cyngor cyfan, gan fod cynnal a datblygu'r gefnogaeth angenrheidiol i bobl hŷn am ddibynnu ar gynnal gwead cymdeithas ac ar gynnal y diwylliant hwnnw o ofalu am ei gilydd sydd wedi bod yn rhan mor annatod o'n cymunedau ar hyd y blynyddoedd. Mae'r gwaith yn ymwneud â chynllunio, datblygu'r economi ac addysg yn ogystal â gwasanaethau cymdeithasol a gofal.

Yn yr un modd, ni all y Cyngor chwaith ddatblygu'r cyfundrefnau gofal angenrheidiol ar ei ben ei hun. Mae'n amlwg y bydd rôl allweddol, ac efallai rôl gynyddol, gan amrywiol fudiadau yn y trydydd sector, a lawn cyn bwysiced, gan y cyhoedd yn ehangach hefyd.

Rhoddir pwyslais cynyddol y dyddiau hyn ar gyd-gynhyrchu, lle mae defnyddwyr gwasanaethau'n chwarae rhan lawnach yn y gwaith o'u trefnu a'u datblygu. Mae datblygu gwahanol ffyrdd o gydgynhyrchu yn sicr o fod yn flaenoriaeth allweddol yn y dyfodol. Bydd hyn yn golygu rhan gynyddol i'r Cyngor ei chwarae fel symbylydd a chydgysylltydd a fydd yn gallu annog cydweithredu effeithiol rhwng gwahanol fudiadau a sectorau er mwyn cyflawni'r nod.

Wrth inni barhau i ddatblygu Cynllun Heneiddio'n Dda Gwynedd dylid cadw mewn cof hefyd y bydd yn rhaid iddo gael ei addasu'n barhaus. Yn union fel mae anghenion trigolion hŷn yn wahanol heddiw i'r hyn oeddent flynyddoedd yn ôl, bydd angen bod yr un mor hyblyg a pharod i addasu wrth baratoi ar gyfer anghenion y dyfodol.

Mae'r cynnydd mewn disgwyliad oes yn mynd law yn llaw â chynnydd cyfatebol mewn disgwyliadau pobl yn eu blynyddoedd hŷn. Yr her i bawb ohonom fydd gweithio gyda'n gilydd i geisio'r gorau i bobl Gwynedd, heddiw ac yn y dyfodol.



# Cynllun Gweithredu

| | Nôd | Gweithred | Swyddog/grwp cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Cynllunio Rhaglen Waith y Cyngor Pobl Hŷn er mwyn ymgysylltu ar y Cynllun Gweithredu yma** | Hwyluso grŵp tasg rhwng aelodau Cyngor Pobl Hŷn ac Age Cymru | Rheolydd Llesiant | Erbyn 31 Mawrth 2017 |
| 2 | **Hyrwyddo ymgyrchoedd penodol sydd wedi eu anelu i roi cymorth i bobl hŷn** | Cyd weithio rhwng y Gwasanaeth Tân,Heddlu Gogledd Cymru ,y Bwrdd Iechyd a Llyfrgelloedd Gwynedd | Prif Lyfrgellydd Gwynedd | Parhaus |
| 3 | **Gwella gwybodaeth trigolion Gwynedd am wasanaethau Llesiant sydd ar gael yn lleol trwy Dewis Cymru** | Adnabod Pencampwr Dewis ym mhob Adran o'r Cyngor | Rheolydd Llesiant ac aelodau grŵp gweithredu Dewis | Erbyn 31 Mawrth 2017 |
| 4 | **Codi y nifer o ysgolion sy'n cael cyswllt gyda trigolion hŷn eu cymunedau** | Cynnal gwaith ymchwil i beth sy'n digwydd yn barod a beth fuasai'n bosibl i'w ddatblygu | Rheolydd Llesiant a Penaethiaid ysgolion | Erbyn Mawrth 2018 |
| 5 | **Hybu cynlluniau atal unigrwydd** | Gwerthuso Cynllun Canolfan Gerdd William Mathias ym Meirionnydd | Rheolwr Amgueddfeydd a'r Celfyddydau a'r Rheolydd Llesiant | Ebrill 2017 |
| 6 | **Adeladu ar y peilot "Hen blant bach" yng Nghanolfan Ddydd Maesincla** | Cynnal cyfarfod agored i bartion sydd a diddordeb i ehangu ar y Cynllun | Rheolwr Canolfan Ddydd Maesincla a'r Rheolydd Llesiant | Erbyn Mawrth 2017 |
| 7 | **Sicrhau bod gwybodaeth ynglŷn ag opsiynau Llety ar gael i bobl hŷn** | Diweddaru y pamffled gwybodaeth | Partneriaeth Tai | Medi 2017 |
| 8 | **Gwell defnydd o dai wedi eu addasu ar gyfer pobl hŷn** | Cwblhau cofrestr o eiddo sydd wedi eu addasu er mwyn matsio yn well. | Tîm Opsiynau Tai | Parhaus |
| 9 | **Cynyddu y nifer o dai newydd sy'n addas i bobl hŷn** | Llunio Canllaw Amodol sydd a sail tystiolaeth gadarn am y galw ar gyfer llety i bobl hŷn | Adran Cynllunio ar y cyd gyda Adran Oedolion a Thai | Medi 2017 |
| 10 | **Gwneud llwybrau cyhoeddus yn fwy hylaw i bobl hŷn** | Cynyddu y nifer o giatiau yn lle camfeydd | Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd | Parhaus |
| 11 | **Helpu pobl hŷn bregus i gael gwared o'u gwastraff** | Galluogi gofalwyr i drefnu casgliadau drws cefn yn rhwyddach | Uwch Reolwr Gwastraff a Rheolydd Llesiant | Erbyn Mawrth 2017 |
| 12 | **Cynyddu opsiynau ar gyfer cludo achosion sydd ddim yn frys i Ysbyty Gwynedd** | Datblygu Cynllun Trafnidiaeth gan ddefnyddio adnoddau sydd ar gael | Uned Cludiant Cyngor Gwynedd ac Ysbyty Gwynedd | Medi 2017 |
| 13 | **Lledaenu'r neges am y perygl o sgamiau** | Rhannu gwybodaeth rhwng staff Safonau Masnach a staff Gofal Cymdeithasol | Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd a Rheolydd Llesiant | Erbyn Medi 2017 |
| 14 | **Gwella cyfleoedd i bobl hŷn wirfoddoli, derbyn hyfforddiant a chael cyflogaeth** | Sicrhau bod pobl hŷn yn manteisio yn llawn ar y Cynllun Opus trwy ei farchnata yn eang | Rheolwr Strategol Opus | Ionawr 2017 ymlaen |
| 15 | **Cynyddu y nifer o Gynlluniau Dementia Go ar draws y sir** | Ymchwilio i bosibiliadau ariannu hyn | Uwch Reolwr Cymunedau Iach | Medi 2017 |
| 16 | **Codi ymwybyddiaeth staff Cyngor Gwynedd o Dementia** | Datblygu ar y rhaglen hyfforddiant corfforaethol yn y maes yma | Swyddog Datblygu Gweithredol (CG) a'r Rheolydd Llesiant | Ebrill 2017 - Mawrth 2018 |
| 17 | **Arfogi mwy o bobl hŷn rhag cael codymau** | Ymestyn y nifer o ddosbarthiadau i Feirionnydd | Cydgysylltydd Cynllun Cyfeirio i Ymarfer | Yn ystod 2017 |
| 18 | **Staff Canolfan Hamdden yn rhagweithiol wrth helpu pobl hŷn i aros yn heini** | Trefnu Hyfforddiant i staff canolfanau Hamdden mewn addasu ymarferiadau i uchafu annibynniaeth corfforol pobl hŷn | Cydgysylltydd y Cynllun Cyfeirio i Ymarfer | 2017-18 |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **17 Ionawr 2017** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Roberts** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Nia Davies** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 685631** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adolygu'r Polisi Codi Tâl am wasanaethau gofal dibreswyl** |

**1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

I addasu'r polisi codi tâl ar sail y cynigion a ymgynghorwyd arnynt ac sydd wedi eu cyflwyno yn Atodiad CH.

**2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

Ar 15 Mawrth 2016 penderfynodd y Cabinet fabwysiadu Polisi Codi Tâl dros dro. Yn ogystal, penderfynwyd y dylai'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ymgynghori ar newidiadau pellach i'r Polisi, gyda'r bwriad o sefydlu Polisi newydd fydd yn adlewyrchu gofynion a chyfleon sydd yn codi o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**3 CYFLWYNIAD**

1. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod canllawiau newydd ar y ffordd mae Awdurdodau Lleol yn cael codi ffi am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.

2. Wrth ymateb i ofynion y Ddeddf, mae Cyngor Gwynedd wedi paratoi cyfres o argymhellion yn ymwneud â'r ffordd bydd yn codi ffioedd ar unigolion sydd yn derbyn Gwasanaeth Gofal Dibreswyl.

3. Cydnabyddir y gallai'r argymhellion i newid y Polisi yng nghyd-destun y Ddeddf effeithio nifer o bobl. Wrth edrych ar yr opsiynau sy'n agored i'r Cyngor, ac yn unol â gofynion y Ddeddf, aethpwyd allan i ymgynghori ar y newidiadau posib er mwyn clywed barn y bobl, yn enwedig y rhai a fyddai'n cael eu heffeithio a rhoi'r cyfle iddynt gyflwyno sylwadau ar y cynigion.

4. Credir bod yr ymgynghoriad wedi cynorthwyo i greu darlun gwerthfawr o farn trigolion Gwynedd ar y cynigion. Darlun sydd yn gosod rhan bwysig o'r cyd-destun wrth gyflwyno'r argymhellion i Gabinet Cyngor Gwynedd am benderfyniad terfynol. Mae'r adroddiad yn dadansoddi canlyniadau'r ymgynghoriad.

5. Agorwyd y cyfnod ymgynghori o'r 14eg o Hydref hyd at 11eg o Dachwedd 2016.

6. Fe osodwyd holiadur digidol ar dudalen "Dweud eich dweud", sef safle ymgynghoriadau ar wefan y Cyngor, er mwyn casglu barn y cyhoedd.

7. Dosbarthwyd holiaduron papur drwy'r post i 2,112 o ddefnyddwyr gwasanaeth dibreswyl yn uniongyrchol, yn ogystal â dosbarthu oddeutu 650 o lythyrau drwy'r post i ddefnyddwyr gwasanaeth preswyl yn eu cyfeirio at y wefan. Paratowyd fersiynau hawdd i'w darllen yn ogystal.

8. Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo trwy'r dudalen "Dweud eich dweud", a hefyd trwy gyfryngau cymdeithasol y Cyngor, sef Facebook a Thrydar.

9. Derbyniwyd cyfanswm o 520 o ymatebion drwy'r post, drwy'r holiaduron ar-lein a hefyd drwy'r e-bost. Roedd 347 o'r rheini yn ymatebion cyflawn, hynny yw, bod pob cwestiwn ar y trywydd cwestiynau wedi eu hateb (heb gynnwys cwestiwn 10 ac 11, sydd yn gofyn am sylwadau). A gyda 173 yn rhai anghyflawn, hynny yw, bod rhai ond nid yr holl o'r cwestiynau ar y trywydd cwestiynau, wedi eu hateb.

10. Mae Atodiad A yn crynhoi'r newidiadau y gwnaeth y Cyngor ymgynghori arnynt.

11. Mae Atodiad B yn cyflwyno sefyllfa Cyngor Gwynedd o'i gymharu ag awdurdodau eraill Gogledd Cymru.

12. Mae Atodiad C yn cyflwyno dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

13. Mae Atodiad CH yn cyflwyno'r Polisi Codi Tal diwygiedig.

14. Ers 6 Ebrill 2016 mae'r fframwaith ar gyfer asesiadau ariannol a chodi tâl o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi dod i rym. O ganlyniad, rhaid i Awdurdodau Lleol ddewis a ydynt am ymarfer, neu beidio, eu disgresiwn o dan y Ddeddf i godi tâl am wasanaethau gofal. Mae'r Ddeddf wedi

disodli'r fframwaith blaenorol a ddefnyddir gan Awdurdodau Lleol i godi tâl gan ei adael yn fater o ddisgresiwn i'r Cynghorau Lleol.

15. Mae'r Cyngor yn wynebu gostyngiad parhaus yn yr arian mae'n ei dderbyn gan y Llywodraeth i gynnal gwasanaethau lleol. Mae hyn yn golygu nad oes dewis ond edrych ar y ffordd y mae'r Cyngor yn cynnig gwasanaethau ac ystyried y defnydd priodol o ddisgresiwn caniataëdig i greu incwm er mwyn gallu cynnal gwasanaethau gofal rheng-flaen gwirioneddol allweddol sydd a'u ffocws ar yr unigolion mwyaf bregus yn ein cymunedau.

16. Oherwydd maint y toriadau a wynebir nid yw'n bosib gwarchod ffioedd gofal yn gyfan gwbl o'r newidiadau gan y byddai hynny yn golygu toriadau dyfnach i wasanaethau eraill o fewn y maes gwasanaethau cymdeithasol yn ehangach. Byddai cyflwyno newidiadau i ffioedd gofal dibreswyl yn gymorth i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau i'r dyfodol, ac yn wir, mae'r hyn sydd dan ystyriaeth yma yng Ngwynedd eisoes yn cael ei weithredu gan nifer o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

17. Mae'n bwysig nodi nad yw'r addasiadau a gynigir i'r Polisi yn golygu unrhyw newid i'r gwasanaethau statudol y bydd unigolion bregus yn ei dderbyn gan y Cyngor. Yr hyn sy'n cael ei gynnig ydi gwneud yn siŵr fod ffioedd gofal dibreswyl yn seiliedig ar allu pobl i dalu.

18. Y nod ydi sicrhau fod y gwasanaeth mor gynaliadwy â phosib yn y cyfnod anodd o doriadau cynyddol mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

19. Fel rhan o'r broses i adolygu'r Polisi Codi Tal cafodd yr angen i gynnal asesiad cydraddoldeb ei gydnabod ac mae'r asesiad wedi ei gynnwys fel Atodiad D.

**4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

20. Dyma grynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

- O'r ymatebion a dderbyniwyd, cwblhawyd y rhan helaeth ohonynt gan y 'Defnyddwyr Gwasanaeth' eu hunain sef (60.6%).
- O'r 520 ymatebion, roedd 58.3% (303) yn dweud eu bod yn cytuno y dylai'r bobl hynny sydd yn gallu fforddio i dalu am wasanaethau gofal oedolion gyfrannu tuag at y gost o'i gofal cymdeithasol yn unol â'r asesiad ariannol. Nid oedd 21.7% (113) yn cytuno â hyn. Roedd y gweddill wedi nodi nad oeddynt yn gwybod os yn cytuno a'i peidio neu heb ymateb o gwbl.

- Y gwasanaeth y mae'r ymatebwyr gyda'r mwyaf o gyswllt gydag o, yw'r gwasanaeth 'Gofal Cartref' sef 60.2% (313). Gyda 'Teleofal', 16% (83) a 'Gwasanaethau Cefnogi Pobl' 10.2% (53) yn dilyn.
- O'r 500 a nododd eu bod yn derbyn gwasanaethau, roedd 28.2% (141) yn nodi nad oedd Cyngor Gwynedd yn codi tâl arnynt, gyda 62.8% (314) yn nodi eu bod eisoes yn cyfrannu at gost y gwasanaethau maent yn derbyn.
- O'r 500 a nododd eu bod yn derbyn gwasanaethau, roedd 13% (65) yn nodi y byddent yn ystyried dod a'r gwasanaeth i ben os byddai gorfodaeth i gyfrannu'n ariannol amdano. Nododd 54.6% (273) na fyddent yn dod â'u gwasanaeth i ben a'u bod yn fodlon cyfrannu'n ariannol.
- O'r ymatebion a dderbyniwyd roedd 64.0% (333) yn nodi eu bod yn deall pam fod y Cyngor yn cynnig argymhellion fydd yn golygu y bydd pobl yn cyfrannu'r hyn gallent ei fforddio talu tuag at eu gwasanaethau gofal. Nododd 18.7% (97) nad oeddent yn cytuno a doedd 14.4% (75) ddim yn gwybod un ffordd neu'r llall.
- Dim ond 12.9% (67) nododd eu bod yn cytuno gyda'r cynnig i godi llog ar ddefnyddwyr gwasanaeth oedd yn dewis ymrwymo i Gytundebau Taliadau Gohiriedig. Nododd 46.2% (240) nad oeddent yn cytuno, tra roedd 31.9% (166) yn nodi nad oeddent yn gwybod un ffordd neu'r llall.
- Dim ond 20.8% (108) nododd eu bod yn cytuno gyda'r cynnig i godi ffioedd gweinyddol ar ddefnyddwyr gwasanaeth oedd yn dewis ymrwymo i Gytundebau Taliadau Gohiriedig. Nododd 42.9% (223) nad oeddent yn cytuno, tra roedd 29.0% (151) yn nodi nad oeddent yn gwybod un ffordd neu'r llall.
- O'r ymatebion a dderbyniwyd nododd 37.3% (194) nad oeddent yn siŵr os byddai'r newidiadau arfaethedig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt. Nododd 45.2% (235) eu bod yn meddwl y byddai'r newidiadau yn effeithio rhyw gymaint arnynt, tra nododd 13.7% (71) nad oeddent yn credu y byddai'r newidiadau yn eu heffeithio o gwbl.

21. Roedd y 2 gwestiwn olaf o'r holiadur yn gofyn am sylwadau pellach ynghyd ag awgrymiadau gan y defnyddiwr gwasanaeth am ffyrdd eraill y gall yr Adran wneud arbedion ariannol os nad oeddent yn cytuno gyda'r argymhellion arfaethedig.

    Y prif themâu a gododd o'r awgrymiadau oedd:

- Lleihau nifer/cyflogau rheolwyr y Cyngor.
- Lleihau nifer staff gweinyddol/gwella prosesau gweinyddol.
- Lleihau costau aelodau sirol.

Y prif themâu a gododd o'r cynnig i wneud sylwadau pellach:

- Wedi talu trethi/cynilo trwy bywyd a ddim yn gytûn gyda'r argymhellion.
- Y newidiadau ddim yn hollol glir o ran effaith personol arnynt.
- Methu dygymod heb y lefel yma o ofal, ond poeni am wynebu costau uwch.

Canfyddiadau/argymhellion

22. Mae'r dadansoddiad yn dangos bod dros hanner, sef 58.3% o rheiny ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cytuno y dylai'r bobl hynny sydd yn gallu fforddio i dalu am wasanaeth gofal oedolion gyfrannu tuag at y gost o'i gofal cymdeithasol. Dim ond canran isel iawn o'r bobl a ymatebodd, sef 13%, dywedodd y byddent yn dod a'u gwasanaeth i ben petaent yn gorfod cyfrannu yn ariannol tuag ato mewn cymhariaeth a 54.6% a fyddai yn dewis peidio. Mae'n bwysig nodi er y posibilrwydd o gynnydd mewn ffioedd i unigolion yn ddibynnol ar eu sefyllfa ariannol, ni fyddai'r un person yn cyfrannu mwy na'r uchafswm tâl wythnosol sydd wedi ei osod gan lywodraeth Cymru ac sydd yn £60 eleni.

23. Er bod nifer wedi nodi yn y sylwadau nad oeddynt yn hollol siŵr sut y byddai'r newidiadau yn effeithio eu sefyllfa unigol hwy, ar y cyfan mae'r ymatebion tuag at y newidiadau wedi bod yn gymharol gadarnhaol. Byddai'r asesiadau blynyddol yn cynnig gwybodaeth fanwl ar gyfraniadau ac effaith y polisi ar bob defnyddiwr gwasanaeth. Fel ag sydd yn digwydd ar hyn o bryd, byddai'r Cyngor yn parhau i gynnig cymorth uniongyrchol i unigolion hawlio'r holl fudd-daliadau dyledus fel rhan o'r gwaith i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth sydd yn derbyn gwasanaethau gofal.

24. Mae enghreifftiau darluniadol o effaith y newidiadau ar y defnyddwyr gwasanaeth wedi eu paratoi. Mae y 'pen pictures' yma wedi eu cynnwys fel Atodiad Dd i'r adroddiad hwn.

25. O ganlyniad i hyn, argymhellir bod y Cabinet yn mabwysiadu 'r Polisi Codi Tâl newydd, Atodiad Ch. Mae'r Polisi yma wedi ei seilio ar y newidiadau sydd wedi eu hamlinellu yn Atodiad A.

**5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

26. Os bydd y Cabinet yn mabwysiadu 'r Polisi Codi Tâl newydd yna bwriedir ei gael yn weithredol o 1af Ebrill 2017. Bydd yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn sicrhau bod ail asesiadau ariannol yn cael eu gwneud yn amserol fel bod pob un a effeithir yn ymwybodol o'r newidiadau mor fuan ag y bod modd.

27. Bydd mabwysiadu'r Polisi Codi Tâl yn galluogi'r Cyngor i godi tâl yn unol â'r rheoliadau a chodau ymarfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Bydd yr incwm ychwanegol yn cyfarfod a chynlluniau arbedion yr Adran ac yn atal toriadau dyfnach mewn gwasanaethau gofal llinell flaen allweddol.

28. Golygai cynnal ailasesiad ar gyfer holl ddefnyddwyr sydd yn derbyn gwasanaeth di-breswyl a'u hysbysu o unrhyw newidiadau i'w cyfraniad. Bydd ailasesiad fel arfer yn cymryd lle bob mis Ebrill pan fydd newidiadau i ffioedd a chyfraniadau budd-daliadau yn cael eu cyhoeddi. Bydd y gwaith yma fel arfer yn cymryd hyd at 8 wythnos i'w gwblhau.

## 6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### Barn y swyddogion statudol

**Y Prif Weithredwr:**
Fel y nodais yn fy sylwadau ar yr adroddiad i'r Cabinet ym mis Mawrth, roedd ymgynghori ymhellach i'r cynigion i newid y polisi yn bwysig iawn. Mae'r ymgynghoriad hynny bellach wedi ei gwblhau a'r brif neges yw bod pobl o blaid yr egwyddor bod yn rhai sydd yn medru talu am wasanaethau yn gwneud hynny. Yn amlwg, mae effaith arwyddocaol yn sgil hynny, yn arbennig mewn rhai achosion, fel y gwelir yn Atodiad Dd.
Fodd bynnag, y cyd-destun ehangach ar gyfer hyn oll yw na all y Cyngor gynnal ei wasanaethau heb gael trefn codi tâl digonol y mae modd ei amddiffyn a'i gyfiawnhau. Yn amlwg, mae'r cynigion sydd gerbron yn ceisio gwneud hynny.

**Y Swyddog Monitro:**
Nodir bod y Cyngor wedi ymdrin â phroses ymgynghori o ran Polisi Codi Tal newydd, yn unol â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r adroddiad yn cloriannu'r ymatebion, a nodir bod atodiad C yn crynhoi'r ymatebion. Mae asesiad cydraddoldeb hefyd wedi ei ymgymryd fel rhan o'r broses. Mae gofyn i'r Cabinet gloriannu effaith y newid arfaethedig yn erbyn y buddion a nodir yn yr adroddiad wrth ddod i benderfyniad. Byddaf yn gallu rhoi arweiniad pellach yn y cyfarfod pe bu angen. Dim sylwadau pellach o ochr priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi grym dewisol i awdurdodau lleol godi mwy o dâl ar gleientiaid, a chodi tâl gwahanol. O ganlyniad, mae'r adroddiad gerbron yn cynnig

newid y ffordd mae rhai lwfansau yn cael eu hystyried wrth weithio allan asesiadau talu a hynny ar sail gallu unigolion i dalu.
Cadarnhaf bydd mabwysiadu'r Polisi Codi Tâl yn cynhaeafu incwm ychwanegol i'r Cyngor; incwm fydd yn cyfrannu at gynllun arbedion yr Adran Oedolion: 'OED 16 – Codi incwm mewn meysydd lle nad ydym yn gwneud hynny, er bod yr hawl gennym'. Mae'r Cyngor llawn (Mawrth 2015) eisoes wedi cefnogi'r cynllun arbedion yma mewn egwyddor, ac yn Atodiad Ch cyflwynir y manylion diweddaraf.
Os bydd y Polisi Codi Tâl yma'n cael ei gymeradwyo, disgwylir bydd yr incwm ychwanegol yn gwireddu balans y cynllun arbedion erbyn 2017/18. Pe bai aelodau ddim am gymeradwyo'r Polisi Codi Tâl, yna byddai angen cynnig arbediad amgen yn ei le a gallai hynny arwain at effaith andwyol ar rai gwasanaethau i drigolion Gwynedd.

| | Sefyllfa Bresennol | Canllawiau Newydd Llywodraeth Cymru | Argymhelliad |
|---|---|---|---|
| **Lwfans Gweini/Elfen Gofal Lwfans Byw I'r Anabl** | Yn y polisi presennol mae'r gwahaniaeth rhwng y raddfa ganol ag uwch (sef yr elfen sydd yn daladwy ar gyfer gofal nos) o'r budd-daliadau hyn yn cael ei ddiystyru mewn asesiadau gofal dibreswyl. | Mae'r Ddeddf newydd yn caniatáu awdurdodau lleol ddefnyddio disgresiwn. | Mabwysiadu'r canllawiau newydd yn unol â Thaliad Annibyniaeth Personol (PIP) (nid yw TAP/PIP yn cynnwys yr elfen gofal nos) a pheidio â'i ddiystyru yn llawn mewn asesiadau dibreswyl o hyn ymlaen. Diben y Lwfans Gweini / Elfen Gofal Lwfans Byw i'r Anabl yw cynorthwyo bobol i brynu gofal. |
| **Ffioedd Unffurf (Flat Rate Charges)** | Codi Tâl am y gwasanaeth Teleofal ar gyfer cleientiaid categori 3 a 4 yn unig<br><br>Nid yw wedi bod yn arferiad codi tâl ar gleientiaid categori 1 a 2. | Ffioedd unffurf yn cael eu caniatáu gan y Ddeddf ar gyfer gofal a chefnogaeth lefel isel a chost isel. Mae hefyd yn cael ei ganiatáu fel modd o godi tâl am wasanaethau a chefnogaeth ataliol. | Disodli'r hen bolisi oedd yn categoreiddio cleientiaid a mabwysiadu trefn lle mae'r gwasanaeth Teleofal (pecyn sylfaenol) yn cael ei adnabod fel gwasanaethau ataliol ac o ganlyniad bydd ffi unffurf yn perthyn iddo. Bydd disgwyl i pawb sydd yn ei dderbyn dalu'r ffi safonol heb ystyriaeth i'w modd ariannol na'r uchafswm tâl wythnosol. Dylid nodi bod gwaith ar wahan ar y gweill i sicrhau bod y ffioedd a osodir yn adlewyrchu gwir gost darparu gwasanaethau.<br><br>Codi Ffi unffurf ar gyfer darparu a gosod mân offer (handrails ayb) |
| **Isafswm Incwm Gofal di-breswyl** | Mae'r Polisi presennol yn rhoi isafswm incwm uwch i ddefnyddwyr gwasanaeth sydd o dan oed pensiwn mewn asesiadau di-breswyl, yn hytrach nag isafswm incwm sydd wedi ei gyfrifo yn defnyddio eu gwir hawl i Gymhorthdal Incwm a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. | Mae'r Ddeddf newydd yn caniatáu i awdurdodau lleol ddefnyddio disgresiwn. | Gosod isafswm incwm sydd wedi ei gyfrifo yn defnyddio eu gwir hawl i Gymhorthdal Incwm a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Yn gyffredinol mae'r isafswm incwm ar gyfer defnyddwyr oed gwaith o'i gymharu â'r un ar gyfer oed pensiwn yn is. Mae hyn o ganlyniad i'r ffaith bod eu hawl sylfaenol i fudd-dal yn is. E.e<br><br>Mae gan pensiynwr isafswm incwm o £225.62 (£155.60 + 45%).<br><br>Mae gan pobl oed gwaith isafswm incwm o £148.12 ( £102.15 + 45%)<br><br>Mae rhaid i'r defnyddwyr gwasanaeth gael yr incwm yma yn weddill cyn y gallwn godi ffi am wasanaethau.. Lle mae unigolion yn medru hawlio taliadau premiwm ychwanegol mae'r isafswm incwm yn uwch. |
| **Credyd Pensiwn Cynilion** | Yn y polisi presennol mae Pensiwn Credyd Cynilion yn cael ei ddiystyru yn llawn mewn asesiadau di-breswyl | Mae'r Ddeddf newydd yn caniatau i awdurdodau lleol ddefnyddio disgresiwn | Mabwysiadau'r canllawiau newydd a'i ddiystyru yn rhannol yn unig mewn asesiadau di-breswyl, gan gysoni gyda'r drefn ar gyfer preswyl o hyn ymlaen. (sef diystyru £5.75 i unigolion a £8.60 fesul cwpl). |
| **Cynllun Lleoli Oedolion** | Nid yw'r polisi presennol yn cynnwys codi tâl am y gwasanaethau hyn. | Mae'r Ddeddf newydd yn caniatau i awdurdodau lleol ddefnyddio disgresiwn. | Asesu defnyddwyr gwasanaeth a chodi tâl am y gwasanaethau hyn. |
| **Taliadau Gohiriedig** | Gosod tâl ar dai drwy'r Gofrestr Dir | Mae'n ofynnol cael contractau ar gyfer Taliadau Gohiriedig. Mae'r gofynion a chanllawiau ynglŷn â thaliadau gohiriedig wedi eu hamlinellu yn Atodiad D o Gôd Ymarfer Llywodraeth Cymru | Codi llog ar yr holl gytundebau Taliadau gohiriedig ar y raddfa uchaf a ganiateir yn y rheoliadau. Mae hyn yn 0.15% uwchlaw'r 'gyfradd berthnasol' (relevant rate). Y gyfradd berthnasol yw 'cyfradd giltiau'r farchnad' a gyhoeddir yn yr adroddiad mwyaf diweddar gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Bydd y gyfradd berthnasol yn cael ei diweddaru bob 6 mis ar y 1af o Ionawr a 1af o Orffennaf. 2.15% yw ar hyn o bryd.<br>Bydd llog yn daladwy o ddiwrnod cyntaf y cytundeb ar yr holl symiau sy'n |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ddyledus, gan gynnwys unrhyw log sydd heb ei dalu neu ffioedd sydd wedi hel yn ystod cyfnod y cytundeb. Bydd llog ond yn peidio â chronni pan fydd y ddyled wedi ei dalu'n llawn.<br>Codi ffioedd gweinyddu ar gyfer sefydlu cytundeb taliadau gohiriedig Bydd hyn yn talu am y costau gweinyddol, cyfreithiol a phrisio sydd yn cael ei greu yn ystod sefydlu'r cytundeb. Gall ffioedd pellach gael eu codi yn ystod oes y cytundebau os bydd yn angenrheidiol ail-brisio.<br><br>Ffi gweinyddu - £175+ VAT + Treuliau |
| **Gwyliau Blynyddol** | Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn caniatáu 'cyfnod gwyliau' di-dâl am hyd at 3 wythnos i gleientiaid sydd yn derbyn gofal mewn cartrefi preswyl a nyrsio. | Mae'r Ddeddf newydd yn caniatáu awdurdodau lleol ddefnyddio disgresiwn. | Gan mai arferiad dan yr hen bolisi yn unig oedd hwn mae'n fwriad ymgynghori i beidio â'i gynnwys yn y Polisi Codi Tâl newydd. |

| **Argymhellion ar gyfer y Polisi Codi Tâl** | **Gwynedd** | **Môn** | **Conwy** | **Dinbych** | **Fflint** | **Wrecsam** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lwfans Gweini/Elfen Gofal Lwfans Byw i'r Anabl – peidio a'i ddiystyru yn llawn mewn asesiadau gofal di-breswyl | Argymhelliad i weithredu yn dilyn ymgynghoriad | Ymgynghori | Bwriad i weithredu | Bwriad i weithredu | Ymgynghori | Ymgynghori |
| Ffioedd Unffurf – codi tâl i bawb am y gwasanaethau hyn | Argymhelliad i weithredu yn dilyn ymgynghoriad | Ymgynghori | Ymgynghori | Ymgynghori | Ymgynghori | Ymgynghori |
| Isafswm incwm gofal di-breswyl – gosod isafswm incwm sydd wedi ei gyfrifo yn defnyddio gwir hawl pobl oed gwaith i Cymhorthdal Incwm a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. | Argymhelliad i weithredu yn dilyn ymgynghoriad | Eisoes yn weithredol | Eisoes yn weithredol | Eisoes yn weithredol | Eisoes yn weithredol | Eisoes yn weithredol |
| Credyd Pensiwn Cynilo – diystyru yn rhannol yn unig mewn asesiadau di-breswyl | Argymhelliad i weithredu yn dilyn ymgynghoriad | Ymgynghori | Bwriad i weithredu | Bwriad i weithredu | Ymgynghori | Ymgynghori |
| Cynllun Lleoli Oedolion – codi ffi ar y defnyddwyr gwasanaeth | Argymhelliad i weithredu yn dilyn ymgynghoriad | Eisoes yn weithredol | Eisoes yn weithredol | Eisoes yn weithredol | Eisoes yn weithredol | Eisoes yn weithredol |
| Taliadau Gohiriedig – Codi llog ar gytundebau Taliadau Gohiriedig | Argymhelliad i weithredu yn dilyn ymgynghoriad | Ymgynghori | Bwriad i weithredu | Bwriad i weithredu | Ymgynghori | Ymgynghori |
| Gwyliau Blynyddol – peidio a'i gynnwys yn y Polisi newydd | Argymhelliad i weithredu yn dilyn ymgynghoriad | Eisoes yn weithredol | Eisoes yn weithredol | Eisoes yn weithredol | Eisoes yn weithredol | Eisoes yn weithredol |

Atodiad C

# Ymgynghoriad adolygu ffioedd Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion

**Dyddiad Cyflwyno:** 2016-11-18



YMCHWIL a DADANSODDEG
www.gwynedd.llyw.cymru/ymchwil

**Awduron:** Tryfan Williams a Lowri Wyn Francis, Tîm Ymchwil a Dadansoddeg



YMCHWIL a DADANSODDEG
www.gwynedd.llyw.cymru/ymchwil

# Cynnwys

| | Tudalen |
|---|---|


Cyflwyniad 3
Methodoleg 4
Ymatebion i'r holiaduron 5
Atodiad 1


# Rhestr tablau

| | Tudalen |
|---|---|


Tabl 001 5
Tabl 002 6
Tabl 003 6
Tabl 004 7
Tabl 005 7
Tabl 006 8
Tabl 007 9
Tabl 008 10
Tabl 009 10
Tabl 010 11
Tabl 011 12
Tabl 012 13


# Rhestr graffiau

| | Tudalen |
|---|---|


Graff 001 5
Graff 002 8
Graff 003 8
Graff 004 9
Graff 005 10
Graff 006 11
Graff 007 12

# 1. Cyflwyniad

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod canllawiau newydd ar y ffordd mae Awdurdodau Lleol yn cael codi ffi am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.

Wrth ymateb i ofynion y Ddeddf, mae Cyngor Gwynedd wedi paratoi cyfres o argymhellion yn ymwneud â'r ffordd bydd yn codi ffioedd ar unigolion sydd yn derbyn Gwasanaeth Gofal Di-breswyl.

Cydnabyddir y gallai'r argymhellion hyn effeithio nifer helaeth o pobl. Dyna pam bu Cyngor Gwynedd yn awyddus i ymgynghori ar y cynigion er mwyn clywed barn y bobl, a rhoi'r cyfle iddynt gyflwyno eu sylwadau.

Bydd yr ymgynghoriad yma yn cynorthwyo i greu darlun o farn trigolion Gwynedd ar y cynigion, cyn cael eu cyflwyno i Gabinet Cyngor Gwynedd am benderfyniad pellach. Mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi canlyniadau'r ymgynghoriad.

# 2. Methodoleg

Er mwyn canfod barn trigolion Gwynedd ar adolygu ffioedd Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion, bu'r ymgynghoriad ddefnyddio holiadur fel ei ddull casglu. (Gweler Atodiad 1)

Agorwyd y cyfnod ymgynghori o'r 14eg o Hydref hyd at 11eg o Dachwedd 2016.

Fe osodwyd holiadur digidol ar dudalen 'Dweud eich dweud', sef safle ymgynghoriadau ar wefan y Cyngor, er mwyn casglu barn y cyhoedd cyffredinol.

Dosbarthwyd holiaduron papur drwy'r post i 2,112 o ddefnyddwyr gwasanaeth dibreswyl yn uniongyrchol, yn ogystal â dosbarthu oddeutu 600 o lythyrau drwy'r post i ddefnyddwyr gwasanaeth preswyl yn eu cyfeirio at y wefan. Paratowyd fersiynau hawdd i'w darllen yn ogystal.

Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo trwy'r dudalen 'Dweud eich dweud', a hefyd trwy gyfryngau cymdeithasol y Cyngor, sef Facebook a Thrydar.

Derbyniwyd ymatebion drwy'r post, drwy'r holiaduron ar-lein a hefyd drwy e-bost.



YMCHWIL a DADANSODDEG
www.gwynedd.llyw.cymru/ymchwil

# 3. Ymatebion i'r holiaduron


Bydd y rhan yma o'r adroddiad yn dadansoddi ymatebion i'r holiaduron.

## 3.01 Sut derbyniwyd ymatebion?

Derbyniwyd cyfanswm o 520 o ymatebion. Gyda 347 o'r rheiny yn ymatebion cyflawn, hynny yw, bod pob cwestiwn ar y trywydd cwestiynau wedi eu hateb (heb gynnwys cwestiwn 10 ac 11, sydd yn gofyn am sylwadau). A gyda 173 yn rhai anghyflawn, hynny yw bod rhai ond nid yr holl o'r cwestiynau ar y trywydd cwestiynau, wedi eu hateb.

Dengys yn *Graff001* rhaniad ffurf ateb yr holiaduron. Gwelir fod y nifer helaeth, sef 96.3% (Nifer=501) o'r ymatebion wedi cyrraedd ar bapur, sef yn uniongyrchol o ganlyniad i swp-lythyru defnyddwyr gwasanaeth cyfredol. Tra bod niferoedd ateb ar-lein, 3.7% (N=19) yn isel iawn o gymharu.

*Graff001*




## 3.02 Cwestiwn 1. Ar ran pwy ydych chi'n cwblhau'r holiadur?

Yn naturiol gyda 96.3% o'r ymatebion yn cyrraedd o'r swp-lythyru, ceir nifer uchel iawn o 'ddefnyddwyr gwasanaeth' yn cwblhau'r holiadur, 60.6% (N=315). A chan ychwanegu ymatebion gan 'aelod o deulu neu ffrind i berson sy'n derbyn gwasanaeth', sef 28.5% (N=148), ceir nifer sylweddol o'r ymatebion o'r garfan yma, 89% (N=463).

Mae'r niferoedd gweddilliol sydd wedi llenwi'r holiadur yn isel iawn i gymharu, gyda'r uchaf o'r rhain yn nodi eu hunain fel 'Gofalwyr' 2.5% (N=13), gweler *Tabl001*.

*Tabl001*

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dim ateb | 36 | 6.9% |
| Defnyddiwr gwasanaeth | 315 | 60.6% |
| Aelod o deulu neu ffrind i berson sy'n derbyn gwasanaeth | 148 | 28.5% |
| Gofalwr | 13 | 2.5% |
| Aelod o asiantaeth, grwpiau lleol, cymdeithasau a.y.b | 3 | 0.6% |
| Arall | 5 | 1.0% |
| **Cyfanswm** | 520 | 100% |

Yn arferol byddai'n arfer da cynnig dehongliad o'r ymatebion yn y cwestiynau dilynol fesul y carfannau yng nghwestiwn 1, gan fod barn yn gallu cael ei lywio yn ddibynnol ar ba garfan sydd yn ymateb. Ond ni welwyd gwahaniaethau digon ystadegol sylweddol rhwng y carfannau uchod i adrodd arnynt yn yr adroddiad hwn.

## 3.03 Cwestiwn 2. Ydych chi'n cytuno dylai'r bobl hynny sydd yn gallu fforddio i dalu am wasanaeth gofal oedolion gyfrannu tuag at y gost o'i gofal cymdeithasol yn unol â'r asesiad ariannol?

O'r 520 ymatebion, bu 58.3% (N=303) ddweud eu bod yn cytuno y dylai'r bobl hynny sydd yn gallu fforddio i dalu am wasanaeth gofal oedolion gyfrannu tuag at y gost o'i gofal cymdeithasol yn unol â'r asesiad ariannol. Doedd 21.7% (N=113) ddim yn cytuno.

Gwelir o *Tabl002* nad oedd 4% (N=21) wedi ateb y cwestiwn, a bod 16% (N=83) wedi nodi nad oeddynt yn gwybod os yn cytuno ai peidio.

*Tabl002*

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dim ateb | 21 | 4.0% |
| Ydw | 303 | 58.3% |
| Nac ydw | 113 | 21.7% |
| Ddim yn gwybod | 83 | 16.0% |
| **Cyfanswm** | 520 | 100% |

## 3.04 Cwestiwn 3. Nodwch pa wasanaeth rydych chi, neu'r person ydych yn ymateb ar eu rhan, neu'r person rydych yn gofalu amdanynt, yn cael cyswllt mwyaf â?

Y gwasanaeth y mae'r ymatebwyr gyda'r mwyaf o gyswllt gydag o, ac o dipyn mwy na'r gweddill yw 'Gofal Cartref' 60.2% (N=313). Gyda 'Teleofal', 16% (N=83) a 'Gwasanaethau Cefnogi Pobl', 10.2% (N=53) yn dilyn. Gweler yr holl ymatebion yn *Nhabl003*.

*Tabl003*

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dim ateb | 14 | 2.7% |
| Gofal Cartref | 313 | 60.2% |
| Gofal Preswyl | 10 | 1.9% |
| Gofal Nyrsio | 7 | 1.3% |
| Gwasanaethau Cefnogi Pobl | 53 | 10.2% |
| Teleofal | 83 | 16.0% |
| Arall | 20 | 3.8% |
| Dim yn derbyn gwasanaeth | 20 | 3.8% |
| **Cyfanswm** | 520 | 100% |

I'r rhai a nododd 'Arall', sef 3.8% (N=20) rhoddwyd y cynnig i nodi'r gwasanaeth, gweler dadansoddiad pellach o'r rhain isod yn *Tabl004*.

*Tabl004*

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| *Dim ateb* | 6 | 30% |
| *6 week after hospital home care* | 1 | 5% |
| *Age concern/galw Cymru* | 1 | 5% |
| *Alarm Button* | 1 | 5% |
| *Brecwast a cinio yn cael ei baratoi* | 1 | 5% |
| *Day centre* | 1 | 5% |
| *Direct Payments* | 2 | 10% |
| *Emergency response alarm connected to telephone* | 1 | 5% |
| *Gofal* | 1 | 5% |
| *Maesincla Day Care* | 1 | 5% |
| *My full time care is done by my wife* | 1 | 5% |
| *Other domicilary* | 1 | 5% |
| *Respite* | 1 | 5% |
| *Teleofal a gofal cartref dros dro* | 1 | 5% |
| **Cyfanswm** | 20 | 100% |

Os yn ymateb fel sawl sydd 'ddim yn derbyn gwasanaeth', bu'r trywydd cwestiynau yn eu cyfeirio ymlaen i gwestiwn 6, ac felly ni fydd 3.8% (N=20) yn gynwysedig yn ffigyrau cwestiwn 4 na 5.


## 3.05 Cwestiwn 4. Ar hyn o bryd ydy Cyngor Gwynedd yn codi tâl arnoch chi am y gwasanaethau gofal oedolion rydych yn ei dderbyn?

O'r 500 a nododd eu bod yn derbyn gwasanaethau yng nghwestiwn 3, bu 28.2% (N=141) nodi nad oedd Cyngor Gwynedd yn codi tâl arnynt, gyda 62.8% (N=314) yn nodi eu bod yn talu. Gweler *Tabl005* a *Graff002* am ddadansoddiad o'r holl ymatebion.

*Tabl005*

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dim ateb | 22 | 4.4% |
| Ydi | 314 | 62.8% |
| Nac ydi | 141 | 28.2% |
| Ddim yn gwybod | 23 | 4.6% |
| **Cyfanswm** | 500 | 100% |

*Graff002*





## 3.06 Cwestiwn 5. Fyddech chi'n ystyried dod a'ch gwasanaeth i ben petaech yn gorfod cyfrannu'n ariannol tuag at dalu amdano?

O'r 500 a nododd eu bod yn derbyn gwasanaethau yng nghwestiwn 3, bu 13% (N=65) nodi y byddent yn ystyried dod â'r gwasanaeth i ben os byddai gorfodaeth i gyfrannu'n ariannol tuag at dalu amdano. Nododd 54.6% (N=273) y byddent yn fodlon peidio dod â'u gwasanaeth i ben a chyfrannu'n ariannol. Gweler *Tabl006* a *Graff003* am ddadansoddiad o'r holl ymatebion.

*Tabl006*

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dim ateb | 59 | 11.8% |
| Byddwn | 65 | 13% |
| Na fyddwn | 273 | 54.6% |
| Ddim yn gwybod | 103 | 20.6% |
| **Cyfanswm** | 500 | 100% |

*Graff003*






YMCHWIL a DADANSODDEG
www.gwynedd.llyw.cymru/ymchwil

## 3.07 Cwestiwn 6. Ydych chi'n cytuno â'r datganiad canlynol? 'Rwyf yn deall pam fod Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd yn cynnig polisi codi tâl newydd fydd yn golygu y bydd pobl yn cyfrannu'n ariannol yr hyn y gallent ei fforddio talu tuag at eu gofal'.


Daw'r 3.8% (N=20) yn ôl i'r trywydd cwestiynau yma, felly mae'r holl ymatebwyr (N=520) yn gallu ymateb o'r cwestiwn yma hyd ddiwedd yr holiadur.

Bu 64.0% (N=333) nodi eu bod yn cytuno gyda'r datganiad, tra bu 18.7% (N=97) nodi nad oeddent yn cytuno gyda'r datganiad. Doedd 14.4% (N=75) ddim yn gwybod un ffordd na'r llall. Gweler *Tabl007* a *Graff004* am ddadansoddiad o'r holl ymatebion.

*Tabl007*

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dim ateb | 15 | 2.9% |
| Ydw | 333 | 64.0% |
| Nac ydw | 97 | 18.7% |
| Ddim yn gwybod | 75 | 14.4% |
| **Cyfanswm** | 520 | 100% |

*Graff004*




## 3.08 Cwestiwn 7. Ar gyfer y bobl hynny sy'n bodloni'r meini prawf ac yn dewis ymrwymo i Gytundeb Taliadau Gohiriedig i dalu am eu gofal, ydych chi'n cytuno â'r cynnig i godi ffioedd gweinyddol i dalu am y costau a gronnir wrth sefydlu a chynnal y cytundeb?


Dim ond 20.8% (N=108) nododd eu bod yn cytuno gyda'r cynnig i godi'r ffioedd gweinyddol, tra bu 42.9% (N=223) nodi nad oeddent yn cytuno gyda'r datganiad.

Cafwyd canran uchel, 29.0% (N=151) yn nodi nad oeddent yn gwybod un ffordd na'r llall. Gweler *Tabl008* a *Graff005* am ddadansoddiad o'r holl ymatebion.

*Tabl008*

| | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Dim ateb | 38 | 7.3% |
| Ydw | 108 | 20.8% |
| Nac ydw | 223 | 42.9% |
| Ddim yn gwybod | 151 | 29.0% |
| **Cyfanswm** | 520 | 100% |

*Graff005*




## 3.09 Cwestiwn 8. Ar gyfer y bobl hynny sy'n bodloni'r meini prawf ac yn dewis ymrwymo i Gytundeb Taliadau Gohiriedig i dalu am eu gofal, ydych chi'n cytuno â'r cynnig i godi llog yn unol â chanllawiau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (h.y. o gychwyn y cytundeb pan mae'r costau yn dechrau cael eu gohirio)?

Dim ond 12.9% (N=67) nododd eu bod yn cytuno gyda'r cynnig i godi llog. Tra bu 46.2% (N=240) nodi nad oeddent yn cytuno gyda'r datganiad.


Cafwyd canran uchel eto, sef 31.9% (N=166) yn nodi nad oeddent yn gwybod un ffordd na'r llall, a all awgrymu nad yw'r ymatebwyr wedi deall y cwestiwn a/neu'r cyd-destun. Gweler *Tabl009* a *Graff006* am ddadansoddiad o'r holl ymatebion.

*Tabl009*

| | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Dim ateb | 47 | 9.0% |
| Ydw | 67 | 12.9% |
| Nac ydw | 240 | 46.2% |
| Ddim yn gwybod | 166 | 31.9% |
| **Cyfanswm** | 520 | 100% |


YMCHWIL a DADANSODDEG
www.gwynedd.llyw.cymru/ymchwil

*Graff006*




## 3.10 Cwestiwn 9. Ydych chi'n meddwl y bydd y newidiadau a gynigir i'r polisi codi tâl yn effeithio arnoch chi?

Yr ymateb a gafodd y canran uchaf yng nghwestiwn 9 oedd 37.3% (N=194) yn nodi nad oeddent yn siŵr os byddai'r newidiadau yn eu heffeithio.

Gall hyn unwaith eto awgrymu nad yw'r ymatebwyr wedi deall y cwestiwn a/neu'r cyd-destun. Neu fel awgrymir yn un o sylwadau yng nghwestiwn 11 nes ymlaen yn yr adroddiad, fod ymatebwyr yn chael hi'n anodd deall y newid i'w sefyllfa unigol nhw –

***"This leaflet and questionnaire are not helpful.  It does not illustrate how individiuals are affected"***


Os cyfunwn y tri ymateb sydd yn nodi fod ymatebwyr yn meddwl y byddai'r newidiadau yn ei heffeithio nhw o gwbl (Ydw – llawer, Ydw – ychydig, Ydw - ychydig iawn) cawn 45.2% (N=235). Bu 13.7% (N=71) nodi nad oeddent yn credu y byddai'r newidiadau yn eu heffeithio o gwbl.

Gweler *Tabl010* a *Graff007* am ddadansoddiad o'r holl ymatebion.

*Tabl010*

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dim ateb | 20 | 3.8% |
| Ydw - llawer | 89 | 17.1% |
| Ydw - ychydig | 125 | 24.0% |
| Ydw - ychydig iawn | 21 | 4.0% |
| Nac ydw - dim o gwbwl | 71 | 13.7% |
| Ddim yn siŵr | 194 | 37.3% |
| **Cyfanswm** | 520 | 100% |

*Graff007*




## 3.11 Cwestiwn 10. Os nad ydych yn cytuno gyda'r newidiadau i'r polisi codi tâl gallwch chi awgrymu unrhyw ffyrdd eraill gall Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant y Cyngor wneud arbedion ariannol?

Dyma'r prif themâu a gododd yn yr awgrymiadau o ffyrdd eraill i wneud arbedion:

*Tabl011*

| Thema | Nifer |
|---|---:|
| Lleihau nifer/cyflogau rheolwyr y Cyngor | 19 |
| Lleihau nifer staff gweinyddol/gwella proses gweinyddol | 15 |
| Lleihau costau aelodau sirol | 11 |
| Briff yr aelodau yw hyn, nid ni! | 6 |
| Gwella effeithlonrwydd ffordd o weithio ar draws y Cyngor | 4 |
| Lleihau nifer staff segur | 3 |
| Codi treth Cyngor | 3 |
| Lleihau gwariant ar ymgynghorwyr/ arolygwyr allanol | 2 |
| Defnyddio gofalwyr gwirfoddol / teulu | 2 |
| Gwella amseroedd a threfniadau trafeilio gofal | 1 |
| Defnyddio incwm arall e.e. treth car | 1 |
| Dylai rhai sy'n ymweld â chartrefi preswyl am y diwrnod talu ffi ddyddiol | 1 |

Dyma ddetholiad o'r sylwadau i roi blas o'r hyn a nodwyd gan yr ymatebwyr:

*". . . less people in administration"*

*"'It is NOT the responsibility of self funders to suggest strategies to help local authorities to be more efficient in their budgeting for Care for the Elderly."*

***"Reduce salaries payed to executives and other overpaid members of staff"***

***". . .  gwario 'arian wrth gefn' a chodi'r Dreth Cyngor ar y bandiau uwch a eiddo."***

### 3.12 Cwestiwn 11. Unrhyw sylwadau eraill y hoffech eu nodi?

Dyma'r prif themâu a gododd o'r cynnig i wneud sylwadau pellach:

*Tabl012*

| Thema | Nifer |
|---|---|
| Wedi talu trethi/ cynilo trwy bywyd a ddim yn gytûn | 38 |
| Y newidiadau ddim yn glir / costau ddim yn glir i achosion | 25 |
| Methu dygymod heb y lefel yma o ofal, ond poeni am gost uwch | 17 |
| Angen golwg agosach ar y bobl sydd ddim wedi cyfrannu/ cynilo a ddim yn helpu eu hunain/ cyfrannu | 7 |
| Blaenoriaethu gofal dros wasanaethau eraill sydd yn llai pwysig ("non-urgent") | 4 |
| Hapus gydag ffi weinyddol | 4 |
| Ymgynghoriad yn wastraff amser ac adnodd gan fod penderfyniad wedi ei wneud eisoes | 2 |
| Talu digon yn barod | 2 |
| Dylai asesiadau gael eu gwneud ar sail enillion bywyd, nid asesiad o sefyllfa asedau cyfredol | 1 |
| Dylai fod gofal fod yn rhan o'r BIC, ac felly am ddim i bawb | 1 |
| Angen buddsoddi mwy yn y gwasanaeth gofalwyr | 1 |

Dyma ddetholiad o'r sylwadau i roi blas o'r hyn a nodwyd gan yr ymatebwyr:

***"'Dwi'n teimlo'n gryf fod pobl sydd wedi cynilo'n ddarbodus ar hyd eu hoes yn cael eu cosbi'n drwm petai asesiad ariannol tra bo eraill sydd heb gynilo yn cael mantais"***

***"'Difficult to comment as no financial figures given in this questionnaire!"***

***" . . . mae rhai pobl wedi dewis peidio gweithio a ddim wedi cynilo.  Pobl fel hyn sydd yn cael mwy na neb"***

## Paratowyd yr adroddiad yma gan

**Tîm Ymchwil a Dadansoddeg**
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol
Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

E-bost: ymchwil@gwynedd.llyw.cymru
Ffôn: 01286 679619
www.gwynedd.llyw.cymru/ymchwil

**Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**

# Polisi Codi Tâl Gwasanaethau Gofal a Chefnogaeth Oedolion

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Teitl:** | Polisi Codi Tâl Gwasanaethau Gofal Oedolion | | | |
| **Ffurf:** | Polisi | ☑ | Canllaw | ☐ |
| | Gweithdrefn | ☐ | Protocol | ☐ |
| | Arall ☐ Nodwch yma ................................ | | | |
| **Lefel y Polisi:** | Adran | ☐ | Gwasanaeth | ☑ |
| | Tîm / Uned | ☐ | Partneriaeth / Amlasiantaethol | ☐ |
| | Arall ☐ Nodwch yma ....................... | | | |
| **Statws:** | Polisi Newydd | ☑ | Adolygiad Polisi | ☐ |
| | | | Dyddiad y fersiwn ddiweddaraf: | 2016 |
| **Cyfeirnod y Ddogfen:** | | | | |
| **Cynulleidfa:** | Staff a Swyddogion yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Defnyddwyr Gwasanaeth. | | | |
| **Awdur:** | Aled Davies, Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. | | | |
| **Dyddiad y drafft cyntaf:** | | | | |
| **Cyfnod Ymgynghori:**<br>**Ymgynghori a:** | | | | |
| **Cymeradwyo gan:**<br>**Dyddiad Cymeradwyo:** | | | | |
| **Dyddiad Adolygu:** | | | | |

| Cynnwys | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad a Chefndir | 3. |
| 2 | Pwrpas y Polisi | 3. |
| 3 | Ar Bwy Mae’r Polisi yn Cael Effaith | 4. |
| 4 | Gwasanaethau a Godir Tâl Amdanynt, a’r Rhai Na Chodir Tâl Amdanynt | 4. |
| 5. | Ffioedd Unffurf | 5. |
| 6 | Triniaeth Cyfalaf | 5. |
| 7 | Triniaeth Incwm | 6. |
| 8 | Isafswm Incwm | 8. |
| 9 | Uchafswm Ffi Wythnosol am Wasanaethau | 10. |
| 10 | Dull Pennu Ffi | 11. |
| 11 | Yr Asesiad Ariannol | 11. |
| 12 | Asesu Defnyddwyr Gwasanaeth Fel Pobl Sengl neu Gyplau (Gofal Dibreswyl) | 12. |
| 13 | Treuliau a Chostau (Gofal Dibreswyl) | 13. |
| 14 | Cytundebau Taliadau Gohiriedig (Gofal Preswyl a Dibreswyl) | 14. |
| 15 | Taliadau Ychwanegol (Gofal Preswyl a Nyrsio yn Unig) | 15. |
| 16 | Adfer Dyledion ac Amddifadiad Asedau | 16. |
| 17 | Adolygiadau a Chwynion | 16. |
| 18 | Y Gronfa Byw yn Annibynnol | 19. |
| | Atodiad 1- Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru | 20. |
| | Atodiad 2- Ffioedd a Manylion Ariannol | 21. |
| | Atodiad 3- Cyfrifiadau’r Isafswm Incwm ar Gyfer Gofal Dibreswyl | 25. |

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

Cyflwyniad

Ar 6 Ebrill 2016 daeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym. Mae'r 'Ddeddf' yn rhoi'r hawl i Awdurdodau Lleol yng Nghymru i godi tâl am wasanaethau gofal. Pan mae Awdurdodau Lleol yn penderfynu codi tâl mae'n rhaid iddynt wneud hyn yn unol â'r rheoliadau a'r cod ymarfer a osodir gan y 'Ddeddf'.

Rheoliadau

Y rheoliadau mewn perthynas ag asesiadau ariannol a chodi tâl yw:

- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety) (Cymru) 2015.
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015.
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Ariannol) (Cymru) 2015.
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Gohiriedig) (Cymru) 2015.
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Adolygu Penderfyniadau a Dyfarniadau Codi Ffi) (Cymru) 2015.

Codau Ymarfer

Y Cod Ymarfer mewn perthynas ag asesiadau ariannol a chodi tâl yw:

- Cod Ymarfer Rhan 4 a 5 (Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol).

## 2. Pwrpas y Polisi Hwn

Mae pwrpas y polisi hwn fel a ganlyn:

- Cadarnhau fod Cyngor Gwynedd yn mynd i godi tâl am wasanaethau gofal preswyl/ nyrsio a dibreswyl.
- Cadarnhau fod Cyngor Gwynedd yn mabwysiadu'r gofynion a osodir yn y rheoliadau a'r cod ymarfer fel polisi Cyngor Gwynedd.
- Lle mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer yn caniatáu i Gyngor Gwynedd ddefnyddio disgresiwn, er enghraifft, i osod rheolau codi tâl sydd yn fwy hael na gofynion isaf y rheoliadau. Os na nodi'r i'r gwrthwyneb yn y polisi hwn bydd Cyngor Gwynedd pob amser yn mabwysiadu gofynion isaf y rheoliadau. Ymhellach, os bydd Llywodraeth Cymru o bryd i'w gilydd yn penderfynu newid eu gofynion isaf, mae'n bolisi Cyngor Gwynedd i adlewyrchu'r newidiadau hyn pob tro. Mae'r canlynol yn ddwy enghraifft o ofynion sydd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan Lywodraeth Cymru:

    - 'Terfynau Cyfalaf' ar gyfer gofal preswyl a dibreswyl.
    - 'Isafswm Incwm' ar gyfer gofal preswyl a dibreswyl.

## 3. Ar Bwy Mae'r Polisi hwn yn Cael Effaith?

Mae'r polisi hwn yn cael effaith ar Oedolion sydd yn derbyn gofal a chymorth gan Gyngor Gwynedd. Maent yn cynnwys darpar Ddefnyddwyr Gwasanaeth a'r rhai presennol, eu gofalwyr, teuluoedd a'u cynrychiolwyr. Mae'r polisi hefyd yn berthnasol i'r staff oddi fewn i'r Adran sydd a disgwyliant arnynt i gydymffurfio a'r polisi.

## 4. Gwasanaethau a Godir Tâl Amdanynt, a'r Rhai Na Chodir Tâl Amdanynt

Mae'r rhan hwn yn rhestru'r gwahanol wasanaethau gofal a chefnogaeth a ddarperir gan Gyngor Gwynedd. Mae'n dangos pa wasanaethau fydd y Cyngor yn codi tâl amdanynt, a pha rai fydd yn cael eu darparu yn ddigost i'r defnyddwyr gwasanaeth. Noder y gall yr isod newid.

### 4.1 Gwasanaethau sydd yn rhaid eu darparu yn ddigost yn unol â'r rheoliadau.

- Trafnidiaeth i Wasanaethau Dydd pan mae angen darparu trafnidiaeth fel rhan o becyn i gwrdd ag anghenion y person.
- Gwasanaeth ôl ofal a ddarperir o dan adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl *1983*.
- Gwasanaethau a ddarperir i ddioddefwyr y clefyd Creuzfeldt Jacob.
- Gwasanaethau Canolraddol.
- Gwasanaethau Gofal Galluogi.

### 4.2 Gwasanaethau a ddarperir yn ddigost o ganlyniad i bolisi Cyngor Gwynedd

- Gofal Dydd
- Ail ofalwr (i roi cymorth i'r gofalwr cyntaf gyda dyletswyddau megis codi a symud y Defnyddiwr Gwasanaeth ac i gynnal iechyd a diogelwch y Gofalwr cyntaf)
- Gwasanaethau Gofalwyr a ddarperir dan Adran 2 Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000
- Galluogi
- Gwasanaethau Cefnogi Pobl

### 4.3 Gwasanaethau y caniateir codi tâl amdanynt

- Gofal Preswyl a Nyrsio a ddarperir mewn cartref gofal. Mae'n cynnwys gofal Parhaol, Dros Dro ac Ysbaid.
- Gwasanaethau Gofal Cartref wedi'u prynu'n uniongyrchol gan yr Awdurdod. Mae'n cynnwys gofal personol, a all, mewn rhai achosion, gynnwys gweithgareddau cymdeithasol a hamdden sy'n anelu at alluogi'r person i fyw gartref.
- Gwasanaethau Gofal Cartref sy'n cael eu darparu yn ystod oriau'r nos.
- Gwasanaethau Teleofal*.
- Cynllun Lleoli Oedolion
- Llety â Chymorth.
- Taliadau Uniongyrchol, os na ddarperir i dalu am wasanaeth sydd yn ddigost.

- Prydau a Lluniaeth a ddarperir mewn Canolfannau Gofal Dydd*.

* Gweler 5: 'Ffioedd Unffurf'

4.4 Mae Atodiad '2' yn cynnwys rhestr gyflawn o'r ffioedd safonol cyfredol a godir gan Gyngor Gwynedd oddi fewn i Sir Gwynedd. Gall gwasanaethau gofal a chefnogaeth arbenigol, ansafonol ac all-sirol olygu ffioedd safonol gwahanol. Mewn rhai achosion ni fydd yn bosib trefnu gofal addas ar y ffi safonol. Bydd defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hysbysu o gost lawn eu gofal ar yr amser y bydd yn cael ei drefnu.

4.5 Yn arferol bydd gofal preswyl/ nyrsio sydd yn cael ei archebu mewn lleoliadau all-sirol yn cael eu harchebu ar y raddfa safonol sydd yn cael ei osod gan yr Awdurdod Lleol yn yr ardal yn lle mae'r cartref wedi cael ei leoli.

## 5. Ffioedd Unffurf

5.1 Mae ffioedd unffurf yn cael eu caniatáu gan y Ddeddf ar gyfer gofal a chefnogaeth lefel isel, a chost isel. Mae hefyd yn cael ei ganiatáu fel modd i godi tâl am wasanaethau a chefnogaeth ataliol.

5.2 Mae ffioedd unffurf yn daladwy gan bob un sydd yn derbyn y gwasanaethau hyn. Ni fydd Cyngor Gwynedd yn cynnig prawf modd i'r rhai sydd yn derbyn y gwasanaethau hyn. Os bydd prawf modd yn cael ei gwblhau mewn perthynas â gwasanaethau taladwy eraill sydd yn cael eu derbyn, bydd y ffioedd unffurf hefyd yn daladwy, yn ychwanegol at unrhyw uchafswm tâl wythnosol sydd yn cael ei osod. Mae'r ffioedd unffurf hefyd yn daladwy pan fo derbynnydd y gofal yn cael eu hasesu i dalu dim byd am wasanaethau eraill sydd yn cael eu derbyn ganddynt.

5.3 Yn ystod y broses o gyfrifo prawf modd bydd y swm sydd yn cael ei dalu fel ffi unffurf yn cael ei gynnwys fel costau a ganiateir wrth gyfrifo 'isafswm incwm' y derbynnydd. Effaith hyn fydd i gynyddu swm yr arian y bydd defnyddwyr gwasanaeth yn gallu eu cadw cyn iddynt orfod talu am wasanaethau eraill.

## 6. Triniaeth Cyfalaf

6.1 Mae Atodiad 'A' Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru yn cynnwys canllawiau manwl ar sut i drin cyfalaf. Mae copi o'r cod Ymarfer wedi cael ei atodi i'r polisi hwn yn Atodiad '1'. Mae Cyngor Gwynedd ym mabwysiadau fel polisi, y canllawiau yn y Cod Ymarfer.

6.2 Bydd holl gynilion a chyfalaf y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei gymryd i ystyriaeth mewn asesiadau codi tâl ar gyfer gwasanaethau preswyl/ nyrsio a dibreswyl, ac eithrio'r holl gyfalaf ac eiddo sydd yn rhaid ei ddiystyrir yn unol a manylion y cod ymarfer.

6.3 Yr unig wahaniaeth rhwng y ffordd mae cyfalaf yn cael ei drin ar gyfer gofal preswyl/ nyrsio a dibreswyl yw, bod gwerth yr eiddo a feddiannir gan y defnyddiwr gwasanaeth fel eu prif neu unig gartref yn cael ei ddiystyru o'r prawf modd ar gyfer gofal dibreswyl.

6.4 Mae perchnogaeth cynilion a chyfalaf uwchlaw i'r terfyn cyfalaf (Atodiad '2') sydd yn cael ei osod gan Lywodraeth Cymru, yn golygu y bydd defnyddiwr gwasanaeth yn talu'r raddfa safonol lawn am eu gofal mewn cartref preswyl/ nyrsio. Yn achos gofal dibreswyl, bydd yn arwain at ddefnyddiwr gwasanaeth yn talu'r raddfa safonol lawn ar gyfer yr holl wasanaethau dibreswyl maent yn ei dderbyn hyd at yr uchafswm tâl wythnosol sydd yn cael ei osod gan Lywodraeth Cymru.

6.5 Os oes gan ddefnyddiwr gwasanaeth llai o gyfalaf na'r terfyn cyfalaf, bydd eu cyfraniad tuag at gost eu gofal yn seiliedig ar faint maent yn gallu fforddio i dalu. Mae hyn yn cael ei bennu gan brawf modd.

## 7. Triniaeth Incwm

7.1 Mae Atodiad 'A' Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru yn cynnwys canllawiau manwl ar sut i drin incwm. Mae copi o'r cod Ymarfer wedi cael ei atodi i'r polisi hwn yn Atodiad '1'. Mae Cyngor Gwynedd ym mabwysiadau fel polisi, y canllawiau yn y Cod Ymarfer.

7.2 Bydd holl incwm y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei gymryd i ystyriaeth mewn asesiadau codi tâl ar gyfer gwasanaethau preswyl/ nyrsio a dibreswyl, ac eithrio'r holl incwm sydd yn rhaid ei ddiystyrir yn unol a manylion y cod ymarfer.

7.3 <u>Incwm Sydd Rhaid ei Ddiystyru</u>

- Enillion- o gyflogaeth yn unol â'r diffiniad yn y rheoliadau a'r cod ymarfer;
- Taliadau Uniongyrchol;
- Taliadau Incwm Gwarantedig a wneir i Gyn-filwyr o dan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog;
- Elfen symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl ac Elfen symudedd Taliadau Annibyniaeth Bersonol;
- Credyd Treth Gwaith;
- Incwm o Flwydd-dal pan fydd wedi cael ei brynu gyda benthyciad sydd wedi'i sicrhau ar brif gartref neu unig gartref y person; neu, dyfarndal am ddewrder megis Blwydd-dal Croes Fictoria neu Flwydd-dal Croes Siôr. Gweler y Cod Ymarfer am fanylion pellach.
- Yswiriant Diogelu morgais. Gweler y Cod Ymarfer am fanylion pellach.
- Taliadau Annibyniaeth ac Atodiad Symudedd y Lluoedd Arfog;
- Taliadau Cymhorthdal Cynnal Plant a Budd-dal Plant;
- Credyd Treth Plant;
- Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor lle mae hyn yn cynnwys taliad i'r person;
- Bonws Nadolig;
- Cynnydd oherwydd dibyniaeth a delir gyda budd-daliadau penodol;
- Ymddiriedolaeth Ddewisol;
- Dyfarndaliadau oherwydd Dewrder;
- Lwfans Gwarcheidwad;
- Incwm sydd wedi'i rewi dramor;
- Incwm mewn da;
- Taliadau Nadolig i Bensiynwyr;
- Ymddiriedolaeth anaf personol, gan gynnwys y rhai a weinyddir gan Lys;

- Budd-dal adsefydlu;
- Taliadau'r Gronfa Gymdeithasol (gan gynnwys taliadau tanwydd gaeaf);
- Taliadau arbennig i wragedd gweddw a gŵyr gweddw rhyfel;
- Unrhyw daliadau a dderbynnir fel deiliad Croes Fictoria, Croes Siôr neu fedalau cyfatebol;
- Unrhyw grantiau neu fenthyciadau a delir at ddibenion addysg;
- Taliadau a wneir mewn perthynas â hyfforddiant ar gyfer cyflogaeth;
- Unrhyw daliad o'r canlynol:
  - Ymddiriedolaeth Macfarlane;
  - Ymddiriedolaeth Macfarlane (Taliadau Arbennig);
  - Ymddiriedolaeth Macfarlane (Taliad Arbennig) (Rhif 2);
  - Sefydliad Caxton;
  - Y Gronfa (taliadau i bobl nad ydynt yn hemoffiligion sydd wedi'u heintio â HIV);
  - Ymddiriedolaeth Eileen;
  - MFET Cyfyngedig;
  - Cronfa Byw'n Annibynnol (2006);
  - Unrhyw swm a delir o dan neu gan Gynllun Byw'n Annibynnol Cymru;
  - Cronfa Skipton;
  - Cronfa Elusennol Cymorth Ffrwydradau Llundain.

- Taliadau elusennol a gwirfoddol. Gweler y Cod Ymarfer am fanylion pellach.
- Budd-dal Tai
- Pensiwn Gwragedd Gweddw a Gŵyr Gweddw Rhyfel, goroeswyr Taliadau Incwm Gwarantedig o Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog, pensiwn Anaf Rhyfel i Sifiliaid a thaliadau i ddioddefwyr erledigaeth Sosialaidd Genedlaethol (a delir o dan gyfraith yr Almaen neu Awstria).
- Pensiwn Anabledd Rhyfel.

7.4 <u>Incwm a Ddiystyrir yn Rhannol</u>

- Y Swm a ddiystyrir o gredyd cynilion yn unol â’r ffigwr a osodir gan Lywodraeth Cymru.

7.5 <u>Incwm sydd i’w Ystyried yn ei Gyfanrwydd</u>

- Lwfans Gweini, gan gynnwys Lwfans Gweini Cyson a Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol; (Ar y raddfa uchaf sy’n cael ei dalu).
- Lwfans Profedigaeth;
- Lwfans Gofalwr;
- Lwfans Byw i'r Anabl (Ar y raddfa uchaf sy’n cael ei dalu).
- Cymhorthdal Incwm;
- Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol neu fudd-daliadau cyfatebol;
- Lwfans Ceisio Gwaith;
- Lwfans Mamolaeth;
- Credyd Pensiwn;
- Taliad Annibyniaeth Bersonol (elfen Byw Dyddiol ar y raddfa uchaf sy’n cael ei dalu);

- Pensiwn y Wladwriaeth;
- Credyd Cynhwysol;
- Pensiwn Preifat/ galwedigaethol/ Blwydd-dal.

Dylai unrhyw incwm sydd ddim wedi cael ei restru yn 7.3, 7.4 a 7.5 uchod gael ei gymryd i ystyriaeth yn ei gyfanrwydd.

7.6 Incwm Tybiannol

Gall defnyddwyr gwasanaeth gael eu trin fel bod yn derbyn Incwm Tybiannol mewn rhai achosion. Gall hyn fod o ganlyniad eu bod a hawl i hawlio incwm nad yw hyd yn hyn wedi cael ei hawlio, neu eu bod yn fwriadol amddifadu eu hunain o incwm er mwyn osgoi talu am ofal. Bydd Cyngor Gwynedd yn cymryd ystyriaeth o incwm tybiannol yn unol â'r canllawiau a osodir yn y cod ymarfer.

## 8. Isafswm Incwm

Wrth gynnal asesiad ariannol mae'n rhaid i Awdurdod Lleol adael defnyddiwr gwasanaeth gydag 'Isafswm Incwm'. Mae gwahanol 'Isafswm Incwm' yn cael ei osod ar gyfer gwasanaethau gofal preswyl/nyrsio a dibreswyl.

8.1 Gofal Preswyl/ Nyrsio

Mae'r isafswm incwm ar gyfer gwasanaethau preswyl/ nyrsio yn cael ei osod gan Lywodraeth Cymru. Mae'n swm ariannol penodol, mae manylion y swm wedi ei nodi yn Atodiad '2'.

Polisi lleol Cyngor Gwynedd yw defnyddio'r isafswm incwm sydd yn cael ei osod gan Lywodraeth Cymru fel ei isafswm incwm safonol. Nid yw hyn yn rhwystro defnyddwyr gwasanaeth rhag gofyn am gynnydd i'r isafswm incwm mewn rhai amgylchiadau. Bydd pob cais a dderbynnir i gynyddu'r isafswm incwm safonol yn cael ei drin yn unol â'r canllawiau a ddarperir yng nghod ymarfer Llywodraeth Cymru.

8.2 Gofal Dibreswyl

Mae'r isafswm incwm ar gyfer gofal dibreswyl yn cael ei gyfrifo yn unol â fformiwla a osodir gan Lywodraeth Cymru yn y rheoliadau. Yn hytrach na bod yn swm ariannol penodol, mae'r isafswm incwm ar gyfer gofal dibreswyl yn cael ei seilio ar hawl unigol sylfaenol pob defnyddiwr gwasanaeth i fudd-dal. Mae manylion llawn sut i gyfrifo isafswm incwm ar gyfer gofal dibreswyl yn cael ei osod yn y cod ymarfer. Mae enghraifft syml fel a ganlyn:

**Hawl Sylfaenol i Fudd-dal + 35% + 10% = Isafswm Incwm**

Polisi Cyngor Gwynedd yw i roi ffigwr 'Isafswm Incwm' i bob defnyddiwr gwasanaeth yn seiliedig ar eu hawl sylfaenol unigol i fudd-dal.

8.3 Hawl Sylfaenol

Mae'r hawl sylfaenol i fudd-dal yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn:

- Cymhorthdal Incwm: y lwfans personol ac unrhyw bremiwm y mae gan y Defnyddiwr Gwasanaeth hawl iddo, ond dim o anghenraid i gynnwys y Premiwm Anabledd Difrifol (SDP), a phan fo Defnyddiwr Gwasanaeth yn ofalwr, yn cynnwys unrhyw bremiwm gofalwr y mae'r person hwnnw'n ei dderbyn.

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth: y lwfans personol ac unrhyw bremiwm a chydran y mae gan y Defnyddiwr Gwasanaeth hawl iddo, ond dim o anghenraid i gynnwys yr SDP, a phan fo Defnyddiwr Gwasanaeth yn ofalwr, yn cynnwys unrhyw bremiwm gofalwr y mae'r person hwnnw'n ei dderbyn.

- Credyd Gwarant: y lwfans personol ac unrhyw swm ychwanegol y mae gan y Defnyddiwr Gwasanaeth hawl iddo, ond dim o anghenraid i gynnwys y swm ychwanegol a roddir am anabledd difrifol, a phan fo Defnyddiwr Gwasanaeth yn ofalwr, yn cynnwys unrhyw bremiwm gofalwr y mae'r person hwnnw'n ei dderbyn.

Yn gyffredinol, ond dim ym mhob achlysur, mae'r isafswm incwm ar gyfer defnyddwyr oed gwaith o'i gymharu â'r un ar gyfer oed pensiwn yn is. Mae hyn o ganlyniad i'r ffaith bod eu hawl sylfaenol i fudd-dal yn is. Mae Atodiad '3' yn cynnwys manylion y ffordd i gyfrifo'r isafswm incwm ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth o bob oedran.

8.4 Byffer

Mae isafswm lleiaf y buffer yn cael ei osod gan Lywodraeth Cymru ar 35% o hawl sylfaenol y defnyddwyr gwasanaeth i fudd-dal. Polisi Cyngor Gwynedd yw defnyddio'r isafswm byffer sydd yn ofynnol yn y rheoliadau.

8.5 Gwariant sy'n Ymwneud ag Anableddau

Mae'r isafswm sydd yn rhaid ei ganiatáu ar gyfer gwariant sydd yn ymwneud ag anableddau wedi cael ei osod gan Lywodraeth Cymru ar 10% o hawl sylfaenol i fudd-dal. Polisi Cyngor Gwynedd yw defnyddio pob amser yr isafswm sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Nid yw hyn yn rhwystr i ddefnyddwyr gwasanaeth rhag gwneud cais i adolygu eu ffioedd os yr ydynt o'r farn bod ei gwariant sy'n ymwneud ag anableddau yn uwch na'r 10% safonol a ganiateir fel diystyriaeth ar ei gyfer.

## 9. Uchafswm Ffi Wythnosol

9.1 Gofal Preswyl/ Nyrsio Mewn Cartref Gofal

Does yna ddim uchafswm ffi wythnosol ar gyfer gofal preswyl/ nyrsio. Mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn rhwym i dalu'r gost lawn am eu gofal. Os yw'r defnyddiwr gwasanaeth angen cymorth ariannol gan Gyngor Gwynedd i gwrdd â chost eu gofal mae'n ofynnol arnynt i ofyn am asesiad o'u modd ariannol. Bydd prawf modd yn cadarnhau lefel y cyfraniad sydd ei angen gan y defnyddiwr. Gall hyn fod yn gost lawn y gofal neu lai.

Fel sy'n ofynnol yn y rheoliadau a'r cod ymarfer. Bydd y cyfraniad ar gyfer yr wyth wythnos gyntaf o arhosiad dros dro neu ysbaid mewn cartref gofal yn cael ei asesu yn unol â'r rheolau ar gyfer gofal dibreswyl. O ganlyniad bydd yr uchafswm ffi wythnosol sy'n berthnasol ofal dibreswyl yn cael eu defnyddio.

9.2 Gofal Dibreswyl

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod uchafswm ffi wythnosol ar gyfer gwasanaethau gofal dibreswyl. Dylid cyfeirio at adran 7 y cod ymarfer (Atodid 1 o'r polisi hwn). Mae'r uchafswm ffi wythnosol wedi ei nodi yn Atodiad '2' o'r polisi hwn.

Polisi Cyngor Gwynedd yw defnyddio'r uchafswm ffi wythnosol a osodir gan Lywodraeth Cymru. Bydd yr uchafswm ffi wythnosol hwn yn berthnasol i bob un sy'n derbyn gwasanaethau gofal dibreswyl, gydag eithrio'r unigolion sydd o ganlyniad i'w profion modd wedi derbyn uchafswm ffi wythnosol lai yn seiliedig ar yr hyn y maent yn gallu ei fforddio.

## 10. Dull Pennu Ffi

10.1 Gofal Preswyl/ Nyrsio

Ar gyfer gofal preswyl/ nyrsio, bydd cyfraniad y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei gadarnhau un a'i cyn i'r gofal ddechrau, neu ar y cyfle cyntaf bosib yn dilyn dechreuad y lleoliad. Mae'r holl gyfraniadau ar gyfer gofal preswyl/ nyrsio yn daladwy o'r dyddiad cyntaf mae'r gofal yn cael ei ddarparu.

Bydd unrhyw newidiadau canlynol i gyfraniad y defnyddiwr yn cael ei gyfathrebu mewn ysgrifen, neu mewn ffurf arall sydd wedi cael ei gytuno. Bydd unrhyw newidiadau i gyfraniad y defnyddiwr yn dilyn yr asesiad cychwynnol yn weithredol o ddyddiad yr hysbysiad,

Wrth ddod a lleoliad preswyl/ nyrsio i derfyn, mae'n angenrheidiol i'r defnyddwyr gwasanaeth dalu cyfnod rhybudd.

Pan fydd defnyddiwr gwasanaeth yn absennol o'r cartref gofal mae eu cyfraniad yn parhau i fod yn daladwy. Gall cyfradd lai bod yn daladwy, gweler Atodiad '2' am fanylion.

10.2 Gofal Dibreswyl

I gyfrifo faint sydd angen i Ddefnyddiwr Gwasanaeth dalu am Wasanaeth neu gyfuniad o Wasanaethau mewn wythnos (bydd wythnos yn cael ei chyfrifo o Ddydd Llun hyd at y Dydd Sul canlynol), bydd Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel a ganlyn:

a) Adnabod yr holl Wasanaethau taladwy y bydd y Defnyddiwr Gwasanaeth yn eu derbyn pob wythnos. Os nad yw hyn yn bosib, bydd y ffi yn seiliedig ar gynllun gofal penodol yr unigolyn. Ni fydd Defnyddiwr Gwasanaeth yn gorfod talu mwy na'r hyn a nodir yn y pecyn gofal, oni bai eu bod yn gwybod am unrhyw newid cyn i'r anfoneb gael ei hanfon allan.
b) Defnyddio'r Ffi Safonol berthnasol ar gyfer pob Gwasanaeth. (E.e. £14.35 yr awr ar gyfer Gofal Cartref).
c) Adio'r holl Ffioedd Safonol am y gwasanaethau a ddarperir i gael cyfanswm y ffi am yr wythnos
d) Defnyddio'r Uchafswm Ffi wythnosol (efallai nad yw hyn yn berthnasol os yw'r cyfanswm wythnosol yn llai na'r uchafswm), ac os ydyw'n is:
e) Defnyddio Uchafswm Ffi Wythnosol y Defnyddiwr Gwasanaeth yn unol ag Asesiad Modd y Defnyddiwr Gwasanaeth (os gofynnir am un).

Mae'r holl gyfraniadau ar gyfer gofal dibreswyl yn daladwy o'r dyddiad cyntaf mae'r gofal yn cael ei ddarparu. Bydd cyfraniad y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei gadarnhau un ai cyn dechrau'r gofal, neu, cyn gynted a bod modd yn dilyn dechrau'r gofal. Bydd unrhyw newidiadau canlynol i gyfraniad y defnyddiwr yn cael ei gyfathrebu mewn ysgrifen, neu mewn ffurf arall sydd wedi cael ei gytuno. Bydd unrhyw newidiadau i gyfraniad y defnyddiwr yn dilyn yr asesiad cychwynnol yn weithredol o ddyddiad yr hysbysiad,

## 11. Yr Asesiad Ariannol

11.1 Bydd yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth sydd yn derbyn gwasanaethau a godir tâl amdanynt , ac eithrio'r defnyddwyr sydd yn derbyn gwasanaethau a godi'r taliadau unffurf amdanynt, yn derbyn hysbysiad bod ganddynt yr hawl i ofyn am gymorth ariannol gan Gyngor Gwynedd i dalu am eu gofal. Gall defnyddiwr gwasanaeth wneud cais trwy gwblhau ffurflen gais am asesiad ariannol.

Rhoddir 15 diwrnod gwaith i ddefnyddwyr gwasanaeth gwblhau a dychwelyd y ffurflen asesu ariannol. Os na fydd y ffurflen wedi cael ei dychwelyd oddi fewn i'r amserlen yma bydd Cyngor Gwynedd yn cymryd nad yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn dymuno gwneud cais am gymorth ariannol gan y Cyngor. Bydd anfoneb am y gost wythnosol lawn yn cael ei anfon i'r defnyddiwr gwasanaeth.

Mae defnyddwyr gwasanaeth yn rhwym i dalu am eu gofal o'r diwrnod cyntaf maent yn ei dderbyn. Cyn bod unrhyw ffi yn cael ei godi bydd Cyngor Gwynedd yn anfon datganiad i'r defnyddiwr gwasanaeth yn manylu faint sydd yn ddisgwyliedig iddynt dalu a sut mae'r swm wedi cael ei gyfrifo. O bryd i'w gilydd bydd y swm sy'n daladwy yn newid, gall hyn fod oherwydd:

- Newid i'r math o ofal sy'n cael ei ddarparu
- Newid i fodd y defnyddiwr gwasanaeth (asesiad ariannol)
- Newid i'r gost i'r Cyngor o ddarparu'r gofal.

Bydd unrhyw newid i'r swm sydd i'w dalu yn cael ei gyfathrebu i'r defnyddiwr gwasanaeth trwy ddatganiad. Bydd y newid yn weithredol o ddyddiad y datganiad.

11.2 Mae gan ddefnyddwyr gwasanaeth yr hawl i ofyn am asesiad o'u modd ariannol ar unrhyw adeg, hyd yn oed os nad ydynt wedi gofyn am asesiad yn y gorffennol.

Nid yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhwym i ôl ddyddio unrhyw asesiad ariannol sydd wedi cael ei geisio yn hwyr os nad oes cais wedi cael ei dderbyn yn flaenorol. Bydd y defnyddiwr gwasanaeth yn parhau i fod yn rhwym i dalu unrhyw swm sydd yn ddyledus rhwng dyddiad yr asesiad ariannol gwreiddiol a dyddiad yr asesiad ariannol newydd.

## 12. Asesu Defnyddwyr Gwasanaeth fel Person Sengl neu fel rhan o Gwpl (Gofal Dibreswyl)

12.1 Hyd nes y gofynnir yn wahanol gan y Defnyddiwr Gwasanaeth, bydd Cyngor Gwynedd yn asesu gallu'r Defnyddiwr Gwasanaeth i dalu yn seiliedig ar ei fodd ei hun, ac yn anwybyddu unrhyw Incwm, cynilion neu gyfalaf a delir neu a dderbynnir yn enw'r partner yn unig.

Os yw'r Defnyddiwr Gwasanaeth yn gofyn, gall y partner gyflwyno ei holl fanylion ariannol yn ogystal â'r Defnyddiwr Gwasanaeth. Gellir wedyn cwblhau asesiad modd ar gyfer y ddau fel cwpl.

12.2 <u>Asesiad Unigol</u>

Mewn amgylchiadau pan fo'r Defnyddiwr Gwasanaeth yn gofyn am asesiad unigol, bydd yr asesiad yn ystyried yr hyn a ganlyn:

- 100% o'r holl incwm a dderbynnir yn enw'r Defnyddiwr Gwasanaeth yn unig
- 50% o Gyfalaf / Cynilion a ddelir ar y cyd
- 100% o'r cyfalaf a ddelir yn enw'r Defnyddiwr Gwasanaeth yn unig.

12.3 Asesiad Cwpl

Wrth gyfrifo asesiad cwpwl, bydd yr Incwm a Ddiystyrir yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio'r hawl sylfaenol perthnasol i Fudd-daliadau i gyplau ac ychwanegu 45%. (Gweler Atodiad 3)

Nid yw'n bosibl darparu cyngor i Ddefnyddiwr Gwasanaeth cyn cynnal Prawf Modd. Er enghraifft, a fyddai'n debygol o fod yn well allan drwy gael ei asesu fel person unigol, neu fel cwpl. Fodd bynnag, pan fo canlyniad yr asesiad yn hysbys, dylid defnyddio'r asesiad sydd fwyaf ffafriol i'r Defnyddiwr Gwasanaeth.

12.4 Beth os yw'r ddau bartner yn Ddefnyddwyr Gwasanaeth

Pan fo'r ddau bartner yn Ddefnyddwyr Gwasanaeth, bydd ganddynt yr hawl i gael eu hasesu fel unigolion neu fel cwpl.

Os defnyddir asesiad cwpl, dylai'r ffi fod yn berthnasol i'r Defnyddiwr Gwasanaeth sy'n derbyn y lefel uchaf o ofal yn gyntaf.

Os nad yw'r lefel o Wasanaeth y mae'r defnyddiwr cyntaf yn ei dderbyn yn ddigonol mewn termau ariannol i gyrraedd yr Uchafswm Ffi Wythnosol am Wasanaeth i'r cwpl, yna dylid trosglwyddo gweddill y ffi i'r ail Ddefnyddiwr Gwasanaeth.

Enghraifft: Os yw'r Terfyn a bennir i'r cwpl gan yr Asesiad Modd yn £60 yr wythnos a bod y gwasanaeth taladwy y mae'r Defnyddiwr Gwasanaeth cyntaf yn ei dderbyn cyfwerth â ffi o £30, yna gellir codi hyd at £30 yr wythnos ar yr ail ddefnyddiwr gwasanaeth am y gofal y mae'n ei dderbyn.

Bydd y terfyn cyfalaf yn cael ei ddyblu wrth asesu cwpl. Os yw cynilion neu gyfalaf y mae'r cwpl yn berchen arnynt ar y cyd yn uwch na'r lefel hon, byddent yn gorfod talu'r gyfradd safonol lawn am y Gwasanaeth maent yn ei dderbyn hyd at Uchafswm Rhesymol y Ffi Wythnosol a osodir gan Lywodraeth Cymru.

Er dibenion asesu cwpl pan fo'r ddau yn derbyn gofal, bydd yr Uchafswm Ffi Wythnosol yn berthnasol i bob Defnyddiwr Gwasanaeth yn unigol.

13. **Treuliau a Chostau (Gofal Dibreswyl)**

13.1 Mewn rhai amgylchiadau bydd rhaid ystyried Treuliau a Chostau wrth gynnal asesiad prawf modd. Pan mae Defnyddiwr Gwasanaeth yn ysgwyddo'r costau hyn, bydd 'Lefel Isafswm Incwm' yn cael ei gynyddu gan swm wythnosol cyfatebol. Bydd hyn yn caniatáu i'r Defnyddiwr Gwasanaeth gadw arian digonol ar gyfer talu'r treuliau hyn cyn iddynt gychwyn talu am eu gofal.

Mae’r treuliau a chostau isod yn cael eu cymryd i ystyriaeth ar gyfer asesiad prawf modd Gwasanaethau Dibreswyl.

- Taliadau Morgais
- Taliadau Rhent (net Budd-dal Tai)
- Treth Cyngor (net gostyngiadau Treth Cyngor)
- Yswiriant – cartref yn benodol (adeiladau a chynnwys), ac yswiriant amddiffyn morgais.

Bydd yn ofynnol i’r defnyddiwr gwasanaeth gyflwyno tystiolaeth ddogfennol i brofi bod yr holl dreuliau a’r costau yn daladwy, ac yn ddyledus i’r dyfodol cyn y gellir eu cyfrif mewn asesiad prawf modd. Ni fydd yn bosib ôl ddyddio unrhyw newidiadau i asesiadau ariannol os na fydd yr wybodaeth angenrheidiol wedi ei gyflwyno ar gyfer yr asesiad ariannol cychwynnol.

13.2 Bydd unrhyw dreuliau neu gostau sydd yn cael ei ysgwyddo gan Ddefnyddiwr Gwasanaeth sydd yn byw ei hun yn cael ei ystyried yn llawn. Os yw’r Defnyddiwr Gwasanaeth yn byw gyda phartner neu oedolion eraill dros 18 oed ac sydd ddim mewn addysg llawn amser, bydd unrhyw gostau a threuliau yn cael eu haneru neu rannu’n gyfran gyfartal i adlewyrchu cyfraniad pob oedolyn preswyl tuag at gost y cartref.

**(Gofal Preswyl a Nyrsio)**

13.3 Yn arferol ni ddylid caniatáu cynnydd i lefel Isafswm Incwm defnyddiwr gwasanaeth sy’n derbyn gofal preswyl neu nyrsio parhaol er mwyn talu am dreuliau a chostau. Dylid trin unrhyw gais o’r math yma ar ei sail unigol. Mae Atodiad B o’r Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru yn rhestru rhai enghreifftiau o amgylchiadau lle all Awdurdodau Lleol gysidro cynyddu’r swm Isafswm Incwm. Mae copi o’r cod ymarfer ynghlwm i’r polisi hwn yn Atodiad 1.

## 14. Cytundebau Taliadau Gohiriedig (Gofal Preswyl/Nyrsio)

14.1 Yn dilyn y 12 wythnos gyntaf o ofal preswyl/nyrsio parhaol mae gwerth prif neu unig gartref y Defnyddiwr Gwasanaeth yn cael ei gynnwys fel cyfalaf yn eu hasesiad ariannol/ prawf modd. Fel arfer, bydd hyn yn golygu bod eu cyfalaf yn uwch na’r terfyn cyfalaf, ac o ganlyniad byddent yn cael eu hasesu i dalu’r gost yn llawn tuag at eu gofal. Os nad oes ganddynt unrhyw asedau neu fodd arall o dalu’r gost yn llawn ar y pwynt yma, byddent yn gymwys i ofyn i Gyngor Gwynedd am ohirio talu cyfran o’u ffioedd gofal gan ddefnyddio eu heiddo fel gwarant. Mae’r trefniant yma yn cael ei gyfeirio ato fel cytundeb taliadau gohiriedig. Mae gohirio taliadau yn gymorth i’r Defnyddiwr Gwasanaeth oedi’r angen i werthu eu cartref mewn cyfnod sydd yn anodd a heriol iddynt hwy a’u teuluoedd wrth iddynt bontio i ofal preswyl.

14.2 Fel rhan o’i bolisi bydd Cyngor Gwynedd yn mabwysiadu'r gofynion a’r canllawiau ynglŷn â thaliadau gohiriedig a amlinellir yn Atodiad ‘D’ o God Ymarfer Llywodraeth Cymru. (Atodiad 1 o’r polisi hwn).

14.3 Bydd Cyngor Gwynedd yn codi llog ar yr holl gytundebau taliadau gohiriedig ar y raddfa uchaf a ganiateir yn y rheoliadau. Mae hyn yn 0.15% uwchlaw'r 'gyfradd berthnasol'. Y gyfradd berthnasol yw 'cyfradd giltiau'r farchnad' a gyhoeddir yn yr adroddiad mwyaf diweddar gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Bydd y gyfradd berthnasol yn cael ei diweddaru bob 6 mis ar y 1af o Ionawr a'r 1af o Orffennaf.

14.4 Mae'r llog yn daladwy o ddiwrnod cyntaf y cytundeb ar yr holl symiau sy'n ddyledus, gan gynnwys unrhyw log neu ffioedd sydd wedi cael codi mewn perthynas â'r cytundeb. Dim ond ar ôl i'r ddyled gael ei thalu yn ei chyfanrwydd y bydd llog yn peidio cronni ymhellach.

14.5 Bydd Cyngor Gwynedd yn codi ffioedd am weinyddu'r broses o drefnu cytundeb taliadau gohiriedig. Bydd hyn yn talu am gostau gweinyddol, cyfreithiol a phrisio mewn perthynas â threfnu'r cytundeb. Gall ffioedd pellach gael eu codi yn ystod oes y cytundeb os bydd angen ail brisio'r eiddo. Mae manylion y ffioedd sy'n cael eu codi wedi eu cynnwys yn Atodiad 2.

## 15 Taliadau Trydydd Parti - Costau Ychwanegol (Gofal Preswyl/Nyrsio yn unig)

15.1 Ni fydd Cyngor Gwynedd fel arfer yn contractio gyda'r cartrefi gofal nad ydynt yn derbyn ffi safonol Cyngor Gwynedd am y math o ofal a gomisiynwyd. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau lle mae'r Defnyddiwr Gwasanaeth yn mynegi dymuniad i fyw mewn cartref gofal sy'n codi mwy na ffi safonol Cyngor Gwynedd, mae'n bosib gwneud trefniant os oes trydydd parti yn barod i dalu'r gost ychwanegol.

Y Gost Ychwanegol yw'r gwahaniaeth rhwng y swm mae Cyngor Gwynedd yn ei dalu a chost y cartref gofal a ddewiswyd.

15.2 Mae Atodiad 'C' o ganllawiau Llywodraeth Cymru (Atodiad 1 o'r polisi yma) yn amlinellu'r gofynion a osodir ar yw Awdurdod wrth ddelio â chostau ychwanegol.

15.3 Bydd Cyngor Gwynedd yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw drydydd parti lunio contract ffurfiol gyda'r Cyngor cyn i unrhyw leoliad sydd angen cost ychwanegol gael ei gytuno. Bydd yn ofynnol i'r trydydd parti gyflwyno tystiolaeth eu bod yn gallu cynnal taliadau'r gost ychwanegol yn ystod cyfnod y lleoliad.

15.4 Bydd Cyngor Gwynedd yn talu'r gost lawn i'r cartref gofal. Bydd y trydydd parti yn gwneud ad-daliad i Gyngor Gwynedd ar dderbyn anfoneb gyfnodol gyfwerth a'r swm a gytunwyd.

15.5 Bydd Cyngor Gwynedd yn caniatáu i'r Defnyddiwr Gwasanaeth dalu'r costau ychwanegol eu hunain:

- pan eu bod yn destun diystyriaeth eiddo 12 wythnos,
- pan fyddant yn ymrwymo i gontract taliadau gohiriedig.

15.6 Ni fydd gohirio taliadau o'r gost ychwanegol yn cael ei ganiatáu mewn amgylchiadau lle mae'r ecwiti sydd ar gael yn yr eiddo sydd yn cael ei ddefnyddio fel gwarant yn gyfyngedig. Felly, bydd Cyngor Gwynedd yn asesu cynaliadwyedd pob cais unigol i ohirio cost ychwanegol. Os tybir nad oes digon o ecwiti yn yr eiddo er mwyn galluogi'r defnyddiwr gwasanaeth i dalu'r gost lawn drwy gydol eu lleoliad, bydd cais i ohirio'r gost ychwanegol yn cael ei wrthod.

15.7 Os yw'r trydydd parti yn peidio â thalu'r gost ychwanegol y maent wedi cytuno i'w dalu, byddant yn parhau i fod yn atebol am y gost hon. Gall Cyngor Gwynedd gymryd camau cyfreithiol i adennill y gost. Yn ogystal, efallai bydd rhaid i'r Cyngor wneud trefniadau eraill i gwrdd ag anghenion y Defnyddiwr Gwasanaeth mewn cartref gofal arall sydd ddim yn codi costau ychwanegol.

## 16. Adennill Dyledion ac Amddifadedd Asedau

Mae Atodiad 'F' o'r Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru (copi - Atodiad 1 o'r polisi hwn) yn nodi'r gofynion a osodir ar Awdurdodau Lleol wrth ddelio â dyled ac amddifadedd asedau. Bydd Cyngor Gwynedd yn ystyried peidio â thalu'r cyfraniad a aseswyd i dalu, neu amddifadedd o asedau er mwyn osgoi talu fel mater difrifol. Pan fydd yr holl opsiynau eraill a ddisgrifir yn y codau ymarfer wedi methu a sicrhau'r taliadau, bydd Cyngor Gwynedd yn gweithredu i adennill y ddyled drwy'r llysoedd sifil.

## 17. Adolygiadau a Chwynion

Gall unrhyw Ddefnyddiwr Gwasanaeth neu dderbynnydd Taliadau Uniongyrchol gyflwyno cais am adolygiad o'u tâl. Gall adolygiad o'r tâl gynnwys ystod eang o sefyllfaoedd sy'n amrywio o Ddefnyddiwr Gwasanaeth yn gofyn am adolygiad syml o gyfrifiad mathemategol eu hasesiad tâl neu anfoneb fisol, i Ddefnyddiwr Gwasanaeth yn gofyn am ystyriaeth o gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anableddau gael ei gynnwys yn eu hasesiad tâl.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu manylion y broses y dylai Awdurdodau Lleol ei ddilyn wrth ymdrin ag adolygiadau o daliadau yn Atodiad E o'r Cod Ymarfer (Atodiad 1 o'r polisi yma). Bydd Cyngor Gwynedd yn dilyn yr holl ofynion fel y nodir yn y Cod Ymarfer.

Dylai pob cais am adolygiad o daliadau gael eu cyfeirio at yr Uned Incwm a Lles. Bydd yr Adain hon yn rheoli a chydlynu'r ymateb i bob adolygiad tâl ar ran y Gwasanaethau Oedolion. Bydd Defnyddiwr Gwasanaeth yn cael eu darparu gydag enw a rhif cyswllt y swyddog sydd yn delio gyda'u hadolygiad.

Gall yr Uned Incwm a Lles ddatrys nifer o adolygiadau yn gyflym e.e. camgymeriadau mathemategol mewn cyfrifiadau. Gall rhai adolygiadau gymryd mwy o amser os bydd angen gwybodaeth bellach gan ddarparwyr gwasanaethau neu gydlynwyr gofal ynglŷn â lefel y gwasanaethau sydd wedi eu comisiynu a'u darparu.

Bydd pob cais am adolygiad na ellir ei ddatrys er boddhad y defnyddiwr gwasanaeth, wrth gydymffurfio â'r polisi codi tâl, yn cael ei gyfeirio at Bennaeth yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant neu eu cynrychiolydd penodedig.

Os nad yw defnyddiwr gwasanaeth yn fodlon gyda'r ymateb a dderbyniwyd i'w cais am adolygiad mae ganddynt yr hawl i gyflwyno cwyn swyddogol i'r Adran a bydd y drefn gwynion swyddogol yn cael ei ddilyn ym mhob achos. Mae gwybodaeth ynghylch sut y gall defnyddiwr gwasanaeth wneud cwyn ffurfiol ar gael yn y daflen: Gwrando, Ymateb, Gwella: Sut i gyflwyno Cwynion, Sylwadau a Chanmoliaeth am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol.

Ym mhob achos dylai'r defnyddiwr gwasanaeth nodi'n glir y sail y mae'n ceisio am adolygiad. Gall cais am adolygiad gael ei wneud ar lafar neu'n ysgrifenedig a'i gyflwyno ar unrhyw adeg yn dilyn derbyn datganiad o'r tâl.

Gall y Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant wrthod cais am adolygiad os yw'n teimlo nad oes newid digonol wedi bod yn amgylchiadau'r defnyddiwr gwasanaeth yn dilyn cais blaenorol am adolygiad. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd datganiad yn cael ei anfon i'r defnyddiwr gwasanaeth yn nodi bod yr Adran ddim yn fodlon ystyried eu cais am adolygiad oherwydd nad yw wedi datgan unrhyw newidiadau ac amgylchiadau ychwanegol.

Gall y defnyddiwr gwasanaeth neu gynrychiolydd sydd yn gweithredu ar ran y defnyddiwr gwasanaeth gyflwyno cais am adolygiad.

Dylai penderfyniad ynglŷn â'r adolygiad gael ei ddarparu i'r defnyddiwr gwasanaeth o fewn 5 diwrnod gwaith o dderbyn y cais os yw'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant mewn sefyllfa i allu gwneud hynny. Os na fydd hyn yn bosib yna bydd yr Uned Incwm a Lles yn anfon datganiad allan o fewn 5 diwrnod yn nodi:

a) Y dyddiad cafodd y cais ei dderbyn.
b) Natur y cais.
c) Hawliau'r defnyddiwr gwasanaeth i apwyntio cynrychiolydd.
d) Sut mae'r gwasanaeth am gynnal yr adolygiad.
e) Nad oes angen i'r defnyddiwr gwasanaeth dalu tâl yn ystod cyfnod yr adolygiad.
f) Bydd y gwasanaeth yn disgwyl taliad o unrhyw dâl a gronnwyd yn ystod cyfnod yr adolygiad os daw'n daladwy o ganlyniad i'r adolygiad.
g) Os yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn derbyn Taliadau uniongyrchol, bydd y gwasanaeth yn gwneud taliadau gros yn ystod y cyfnod adolygiad.
h) Pa wybodaeth ychwanegol mae'r adran angen ar gyfer gwneud penderfyniad, a'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth hyn (15 diwrnod gwaith).
i) Gall y Defnyddiwr Gwasanaeth wneud cais am ymweliad cartref er mwyn derbyn cymorth i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol.
j) Yr angen i gysylltu â'r Uned Incwm a Lles i drefnu ymweliad cartref.
k) Enw a rhif cyswllt y swyddog o fewn yr Uned Incwm a Lles a fydd yn delio â'r adolygiad.
l) Manylion cyswllt unrhyw sefydliad y gallai estyn cymorth i'r defnyddiwr gwasanaeth yn ystod y cyfnod adolygiad. Bydd yr wybodaeth yma ar gael yn y daflen Talu am Wasanaethau Gofal.

Bydd unrhyw gais gan y defnyddiwr gwasanaeth am estyniad amser ar gyfer darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol yn cael ei ganiatáu os yn rhesymol. Bydd yr Adran yn cadarnhau'r estyniad i'r terfyn amser gwreiddiol yn ysgrifenedig.

Os yw cais am estyniad amser yn cael ei wrthod gan yr Adran, bydd hyn, ynghyd a rheswm dros y penderfyniad, yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig.

Os na fydd yr Adran yn derbyn ymateb neu gais am estyniad amser i'w gais am ragor o wybodaeth erbyn y terfyn amser a osodwyd, bydd yr Uned Incwm a Lles yn ystyried bod y cais am adolygiad wedi ei dynnu'n ôl. Bydd llythyr yn cael ei anfon i'r defnyddiwr gwasanaeth yn cadarnhau hyn a bod y tâl a osodwyd yn awr yn daladwy, ynghyd a manylion y swm a gronnwyd yn ystod cyfnod yr adolygiad a'r dyddiad erbyn pryd mae'r Adran yn disgwyl y taliad.

Gall defnyddiwr gwasanaeth dynnu ei gais am adolygiad yn ôl ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod adolygiad. Gall wneud hyn ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Unwaith y bydd yr Adran wedi derbyn gwybodaeth a dogfennaeth ddigonol i gynnal yr adolygiad bydd yn cymryd 10 diwrnod gwaith i:

a) Gwneud penderfyniad ar yr adolygiad a chymryd y camau sy'n angenrheidiol i'w weithredu.
b) Anfon datganiad i'r defnyddiwr gwasanaeth ac unrhyw gynrychiolydd yn datgan y penderfyniad, y rhesymau dros y penderfyniad a'u hawl i gyflwyno cwyn ffurfiol o dan Weithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2005
c) Os yw tâl y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei ddiwygio o ganlyniad i'r adolygiad, dylai dderbyn datganiad yn esbonio'r penderfyniad a'r canlyniadau.
d) Datganiad o daliadau

Os nad yw'r Adran yn gallu ymateb i'r cais am adolygiad o fewn y terfyn amser (10 diwrnod gwaith), dylid anfon datganiad i'r defnyddiwr gwasanaeth yn nodi hyn, ynghyd a'r rhesymau a'r dyddiad erbyn pryd fydd y penderfyniad yn cael ei ddarparu.

Os nad yw'r Adran yn gallu darparu penderfyniad erbyn y terfyn amser, nid yw'n bosib codi tâl am wasanaeth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod amser rhwng y terfyn amser a'r dyddiad mae'r penderfyniad yn cael ei ddarparu.

## 17.1 Taliadau, Ad-daliad neu Gyfraniad yn ystod ac ar ôl y Cyfnod Adolygu

Os yw defnyddiwr gwasanaeth yn cyflwyno cais am adolygiad, gallant ddewis i beidio talu'r tâl, ad-daliad neu gyfraniad yn ystod y cyfnod adolygiad neu'r rhan sydd yn destun yr adolygiad, ond bydd y swm sydd heb ei dalu yn cronni.

Os yw defnyddiwr gwasanaeth yn dewis peidio â thalu yn ystod y cyfnod adolygiad, dylent hysbysu'r Uned Incwm a Lles unai ar lafar neu'n ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod gwaith.

Mewn perthynas â Thaliadau Uniongyrchol, os yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn penderfynu peidio â thalu eu cyfraniad yn ystod y cyfnod adolygu cyfan, mae'n ofynnol i'r gwasanaeth dalu taliadau gros i'r defnyddiwr gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Unwaith bydd y cyfnod adolygu wedi dod i ben, gall y Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant adennill unrhyw swm dyledus sydd wedi ei gronni yn ystod cyfnod yr adolygiad. Gellir adennill swm y tâl, ad-daliad neu gyfraniad a gronnwyd, yn dilyn yr hyn mae'r Gwasanaeth wedi penderfynu sydd yn gywir yn dilyn yr adolygiad.

Os yw'r Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant yn penderfynu bod y tâl neu'r cyfraniad sy'n daladwy gan y defnyddiwr gwasanaeth yn **is** na'r hyn a osodwyd yn flaenorol, mae'n ofynnol i'r gwasanaeth dalu'r gwahaniaeth rhwng y swm sydd yn daladwy â'r swm, os o gwbl, sydd eisoes wedi ei dalu gan y defnyddiwr gwasanaeth o fewn 10 diwrnod o wneud y penderfyniad.

Os yw'r Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant yn penderfynu bod y tâl neu'r cyfraniad sy'n daladwy gan y defnyddiwr gwasanaeth yn **uwch** na'r hyn a osodwyd yn flaenorol, gall y gwasanaeth adennill y gwahaniaeth rhwng swm y tâl neu gyfraniad y dylai fod yn daladwy â'r swm, os o gwbl, sydd eisoes wedi ei dalu gan y defnyddiwr gwasanaeth.

Mae'n ofynnol bod y gwasanaeth yn rhoi sylw i amgylchiadau ariannol personol y defnyddiwr gwasanaeth os am geisio adennill swm dyledus. Dylent fod yn fodlon na fydd adferiad o'r swm yn achosi caledi ariannol i'r defnyddiwr gwasanaeth. Os yw'r gwasanaeth yn teimlo byddai adennill y gost yn achosi caledi ariannol yna dylid cynnig yr opsiwn o dalu'r swm yn ôl mewn rhandaliadau.

18. **Y Gronfa Byw'n Annibynnol**

Mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynu gosod y swm o £9 yr wythnos fel yr Uchafswm Tâl Rhesymol Wythnosol i ddefnyddwyr gwasanaeth sydd yn derbyn cefnogaeth gan y GBA. Mae'r lefel yma yn fwy hael na'r gofynion sy'n cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rheswm tu ôl i hyn yn hanesyddol ac yn adlewyrchu'r ffaith bod y Gronfa erbyn hyn wedi ei rewi ac o ganlyniad ni ellir gwneud newidiadau i gyfraniadau'r cleientiaid presennol.

Dylai'r broses os asesu prawf modd i ddefnyddwyr gwasanaeth sydd yn derbyn cefnogaeth gan y GBA fod yn union yr un fath a'r broses ar gyfer yr holl ddefnyddwyr eraill.

## Atodiad 1- Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru

Atodiad 1- Cod
Ymarfer Llywodraeth

# Atodiad 2- Ffioedd a Manylion Ariannol

| **Tabl Ffioedd Gwasanaethau Preswyl a Nyrsio – *Residential & Nursing Care Fees Table 2016/17*** | |
|---|---|
| **Ffi Safonol Cartrefi Preswyl Cyngor Gwynedd**<br>*Standard Fee Gwynedd Council Care Homes* | £581.28 yr wythnos/<br>per week |
| | |
| **Cartrefi Gofal Preifat ac Anibynnol/ *Private and Independent Sector Care Homes*** | |
| **Categori gofal/ *Category of Care*** | |
| Preswyl (yn cynnwys dibyniaeth uchel)<br>*Residential (including high dependency)* | £483.46 yr wythnos/<br>*per week* |
| Preswyl – dementia/EMI<br>*Residential – dementia/EMI* | £532.07 yr wythnos/<br>*per week* |
| Nyrsio<br>*Nursing* | £546.27* yr wythnos/<br>*per week* |
| Nyrsio – dementia/EMI<br>*Nursing – dementia/EMI* | £573.58* yr wythnos/<br>*per week* |
| * Dim yn cynnwys cyfraniad y Bwrdd Iechyd/ *Not including the Health Board Contribution.* | |

## Atodiad 2- Ffioedd a Manylion Ariannol (Parhad)

**Tabl Ffioedd Gwasanaethau Dibreswyl- 2016/17**

***Non Residential Fees Table- 2016/17***

| **Math o Wasanaeth/ *Type of Service*** | ***2016/17*** |
|---|---|
| Gofal Cartref/ *Home Care* | **£16.00*** yr awr/*per hour* |
| Gofal Cartref- Oriau Nos/ *Home Care- Night Time Hours* | **£16.00*** yr awr/*per hour* |
| Llety gyda Chymorth/ *Assisted Living Accommodation* | **£16.00*** yr awr/*per hour* |
| Taliadau Uniongyrchol/ *Direct Payments* | **£11.35** yr awr/*per hour* |
| Teleofal Pecyn Sylfaenol/ *Telecare Basic Package* | **£3.30** yr wythnos/ *per week* |
| Cynllun Lleoli Oedolion/ *Adult Placement Scheme* | |
| Band 1/ *Band 1* | **£280.00** yr wythnos/ *per week* |
| Band 2/ *Band 2* | **£370.00** yr wythnos/ *per week* |
| Band 3/ *Band 3* | **£450.00** yr wythnos/ *per week* |
| Cynhaliaeth mewn Gofal Dydd/ *Sustenance at Day Care Centres* | **£4.20** y dydd/*per day* |

- * Mewn amgylchiadau prin bydd y Cyngor yn gallu negodi contractau rhatach gyda darparwyr gofal. Os bydd cost y gofal yn rhatach na £14.35 yr awr bydd y defnyddiwr gwasanaeth yn talu’r raddfa ratach.
- ** In some rare circumstances the Council may be able to negotiate cheaper contracts with care providers. If the cost of the care is cheaper than £14.35 per hour the service user will be charged at the cheaper rate.*

## Atodiad 2- Ffioedd a Manylion Ariannol (Parhad)

| **Manylion Ariannol Eraill/ *Other financial Details 2016/ 17*** | |
|---|---|
| Terfyn Cyfalaf/ *Capital Limit* | £24,000.00 |
| Isafswm Incwm Preswyl a Nyrsio/ *Residential & Nursing Minimum Income Amount* | £26.50 |
| Diystyriaeth Credyd Cynilion/ *Savings Credit Disregard* | £5.75 yr wythnos sengl/ *per week single*<br>£8.60 yr wythnos cwpl/ *per week couple* |
| | |
| **Taliadau Gohiriedig/ *Deferred Charges*** | |
| Cyfradd Llog/ *Interest Rate* | 0.15% uwchlaw i gyfradd 'giltiau'r farchnad'/ *above the 'market gilts' rate* |
| Ffioedd Cyfreithiol/ *Legal Fees* | I'w bennu/ *To be determined* |
| Ffi Prisiad Eiddo/ *Property Valuation Fees* | I'w bennu/ *To be determined* |
| Ffi Weinyddol/ *Administrative charge* | I'w bennu/ *To be determined* |
| | |
| **Cyfnodau Rhybudd dod a chytundeb i ben, Cartrefi Gofal/ *Notice Periods for terminating contracts, Care Homes*** | |
| Cyfnod rhybudd safonol- *Standard notice period* | 7 Diwrnod - ffi lawn/<br>*7 Days at full charge* |
| Cyfnod rhybudd cyfnod ysbaid/ *notice period respite* | Ffi lawn yn daladwy i'r diwrnod olaf a drefnwyd os nad oes cytundeb i dalu llai/ *Full charge to the last day of the arrangement unless there is agreement to pay less.* |
| Cyfnod rhybudd mynediad mewn argyfwng/ N*otice period for emergency admission* | Dim/ *None* |
| Ffi yn ystod absenoldeb/ *charge during absence* | 2 wythnos ar y gyfradd wythnosol lawn, wedyn 2 wythnos ar 80% |

| | |
|---|---|
| | o'r gyfradd lawn. Bydd y cytundeb yn terfynu ar ôl hyn os nad oes trefniant yn cael ei wneud i gadw'r ystafell. Os oes trefniant pellach bydd 80% o'r gyfradd lawn yn daladwy. / *2 weeks at the full weekly rate, followed by 2 weeks at 80% of the full rate. Following this the contract will terminate unless an agreement is made to keep the room. If a further agreement is made the rate of 80% is payable.* |

## Atodiad 3- Cyfrifiad yr Isafswm Incwm ar gyfer Gofal Dibreswyl

Atodiad3-CyfrifiadIsafswmIncwm

# ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB LLAWN

## 1) AWDUR (ON) YR ASESIAD

Nia Davies ar ran Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant

## 2) PARTNERIAID

Pwy yw eich partneriaid wrth gychwyn neu newid y polisi / cynllun / arfer? Bydd angen eu cynnwys wrth wneud yr asesiad yma.

Budd- ddeiliaid
Cynghorau ar draws Gogledd Cymru
Defnyddwyr Gwasanaeth gan gynnwys Darpar Ddefnyddwyr
Cynrychiolwyr Defnyddwyr Gwasanaeth
Gofalwyr
Aelodau Etholedig

## 3) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD

25 Ionawr 2016

## 4) DYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD

31 Mawrth 2017

## 5) NOD AC AMCANION Y POLISI / CYNLLUN / ARFER

Nodwch pam fod angen y polisi / cynllun / arfer. Nodwch beth mae'r Awdurdod yn gobeithio ei gyflawni drwyddo

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi y dewis i Gyngor Gwynedd i ymarfer disgreswin wrth godi tâl am wasanaethau gofal sydd yn cael ei ddarparu. O ganlyniad mae'r Cyngor eisoes wedi gorfod sefydlu Polisi Codi Tâl er mwyn eu galluogi i barhau i godi tâl am wasanaethau oedd yn destyn ffioedd cyn dyfodiad y Ddeddf. Mae'r polisi a sefydlwyd yn cadarnhau bod y Cyngor yn mabwysiadu'r gofynion a osodir yn y rheoliadau a'r côd ymarfer fel polisi.

Mae'r Polisi newydd wedi ei baratoi yng nghydestyn y cyfleon sydd yn codi o'r Ddeddf mewn perthynas â chodi tâl am wasanaethau gofal preswyl a di-breswyl. Côd ymarfer sydd yn gysylltiedig a'r Ddeddf yn caniatau i'r Cyngor ddefnyddio disgresiwn wrth godi tâl neu beidio ac mae y cynigion yn adlewyrchu hynny.

## 6) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD

Ydych chi wedi ymgysylltu am y newid yn y polisi / cynllun / arfer? Beth oedd y canlyniad? Cofiwch fod hi'n ofyn statudol i ymgysylltu gyda phobl sy'n mynd i gael eu heffeithio.

Agorwyd y cyfnod ymgynghori o'r 14eg o Hydref hyd at 11eg o Dachwedd 2016. Fe osodwyd holiadur digidol ar dudalen " Dweud eich Dweud", sef y safle ymgynghoriadau ar wefan y Cyngor, er mwyn casglu barn y cyhoedd.

Dosbarthwyd holiaduron papur drwy'r post i 2,112 o ddefnyddwyr gwasanaeth di-breswyl yn uniongyrchol. Yn ogystal dosbarthwyd oddeutu 600 o lythyrau drwy'r post i ddefnyddwyr gwasanaeth preswyl yn eu hysbysu o newidiadau y gallai eu heffeithio petai'r Cyngor yn penderfynu mabwysiadau'r argymhellion arfaethedig. Roedd y llythyr yn ogystal yn eu cyfeirio at y wefan ac yn cynnwys rhif ffôn cyswllt petaent yn dymuno rhagor o wybodaeth neu os oeddynt yn dymuno derbyn copi o'r holiadur er mwyn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Y rheswm dros beidio ag anfon yr holiaduron at ddefnyddwyr gwasanaeth preswyl oedd oherwydd bod rhan fwyaf, ar wahân i un, o'r argymhellion arfaethedig yn effeithio defnyddwyr gwasanaethau gofal di-breswyl neu ddarpar ddefnyddwyr gwasanaeth preswyl yn unig. Y teimlad oedd y byddai eu llwytho gyda gwybodaeth nad oedd yn berthnasol iddynt o bosib yn creu dryswch a byddai'n decach i'w gyflwyno yn y ffordd yma.

Paratowyd fersiynau hawdd i'w darllen yn ogystal ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a derbyniwyd cais gan 4 o ddefnyddiwr gwasanaeth am y fersiwn yma.

Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo trwy'r dudalen "Dweud eich dewud", a hefyd trwy gyfryngau cymdeithasol y Cyngor megis Facebook a Thrydar. Rhoddwyd datganiad i'r wasg yn ogystal er mwyn codi ymwybyddiaeth am yr ymgynghoriad.

Derbyniwyd cyfanswm o 520 o ymatebion drwy'r post a drwy'r holiaduron ar-lein. Roedd 347 o'r rheini yn ymatebion cyflawn, hynny yw, bod pob cwestiwn ar y trywydd cwestiynau wedi eu hateb (heb gynnwys cwestiwn 10 ac 11, sydd yn gofyn am sylwadau). A gyda 173 yn rhai anghyflawn, hynny yw, bod rhai ond nid y cyfan o'r cwestiynau ar y trywydd cwestiynau, wedi eu hateb.

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad:

- O'r ymatebion a dderbyniwyd, cwblhawyd y rhan helaeth ohonynt gan y 'Defnyddwyr Gwasanaeth' eu hunain sef (60.6%).
- O'r 520 ymatebion, roedd 58.3% (303) yn dweud eu bod yn cytuno y dylai'r bobl hynny sydd yn gallu fforddio i dalu am wasanaethau gofal oedolion gyfrannu tuag at y gost o'i gofal cymdeithasol yn unol â'r asesiad ariannol. Nid oedd 21.7% (113) yn cytuno â hyn. Roedd y gweddill wedi nodi nad oeddynt yn gwybod os yn cytuno ai peidio neu heb ymateb o gwbl.
- Y gwasanaeth y mae'r ymatebwyr gyda'r mwyaf o gyswllt gydag o, yw'r gwasanaeth 'Gofal Cartref' sef 60.2% (313). Gyda 'Teleofal', 16% (83) a 'Gwasanaethau Cefnogi Pobl' 10.2% (53) yn dilyn.
- O'r 500 a nododd eu bod yn derbyn gwasanaethau, roedd 28.2% (141) yn

nodi nad oedd Cyngor Gwynedd yn codi tâl arnynt, gyda 62.8% (314) yn nodi eu bod eisoes yn cyfrannu at gost y gwasanaethau maent yn derbyn.
- O'r 500 a nododd eu bod yn derbyn gwasanaethau, roedd 13% (65) yn nodi y byddent yn ystyried dod a'r gwasanaeth i ben os byddai gorfodaeth i gyfrannu'n ariannol amdano. Nododd 54.6% (273) na fyddent yn dod â'u gwasanaeth i ben a'u bod yn fodlon cyfrannu'n ariannol.
- O'r ymatebion a dderbyniwyd roedd 64.0% (333) yn nodi eu bod yn deall pam fod y Cyngor yn cynnig argymhellion fydd yn golygu y bydd pobl yn cyfrannu'r hyn gallent ei fforddio talu tuag at eu gwasanaethau gofal. Nododd 18.7% (97) nad oeddent yn cytuno a doedd 14.4% (75) ddim yn gwybod un ffordd neu'r llall.
- Dim ond 12.9% (67) nododd eu bod yn cytuno gyda'r cynnig i godi llog ar defnyddwyr gwasanaeth oedd yn dewis ymrwymo i Gytundebau Taliadau Gohiriedig. Nododd 46.2% (240) nad oeddent yn cytuno, tra roedd 31.9% (166) yn nodi nad oeddent yn gwybod un ffordd neu'r llall.
- Dim ond 20.8% (108) nododd eu bod yn cytuno gyda'r cynnig i godi ffioedd gweinyddol ar ddefnyddwyr gwasanaeth oedd yn dewis ymrwymo i Gytundebau Taliadau Gohiriedig. Nododd 42.9% (223) nad oeddent yn cytuno, tra roedd 29.0% (151) yn nodi nad oeddent yn gwybod un ffordd neu'r llall.
- O'r ymatebion a dderbyniwyd nododd 37.3% (194) nad oeddent yn siŵ r os byddai'r newidiadau arfaethedig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt. Nododd 45.2% (235) eu bod yn meddwl y byddai'r newidiadau yn effeithio rhyw gymaint arnynt, tra nododd 13.7% (71) nad oeddent yn credu y byddai'r newidiadau yn eu heffeithio o gwbl.

Roedd y 2 gwestiwn olaf o'r holiadur yn gofyn am sylwadau pellach ynghyd ag awgrymiadau gan y defnyddiwr gwasanaeth am ffyrdd eraill y gall yr Adran wneud arbedion ariannol os nad oeddent yn cytuno gyda'r argymhellion arfaethedig.

Y prif themâu a gododd o'r awgrymiadau oedd:

- Lleihau nifer/cyflogau rheolwyr y Cyngor.
- Lleihau nifer staff gweinyddol/gwella prosesau gweinyddol.
- Lleihau costau aelodau sirol.

Y prif themâu a gododd o'r cynnig i wneud sylwadau pellach:

- Wedi talu trethi/cynilo trwy bywyd a ddim yn gytûn gyda'r argymhellion.
- Yn newidiadau ddim yn hollol glir o ran effaith personol arnynt.
- Methu dygymod heb y lefel yma o ofal, ond poeni am wynebu costau uwch.

**7) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL**

Gall y dystiolaeth fod yn seiliedig ar ddata lleol, rhanbarthol neu genedlaethol er enghraifft gallai fod yn adroddiad cenedlaethol, data ar ddefnydd y gwasanaeth neu ystadegau cydraddoldeb rhanbarthol.

**Deddf:**

Mae'r Cyngor yn gweithredu o fewn y canllawiau sydd wedi eu gosod yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r Cyngor ymarfer eu disgresiwn i godi tâl am wasanaethau gofal. Pan mae awdurododau lleol yn penderfynu codi tâl mae'n rhaid iddynt wneud hynny yn unol â'r rheoliadau a chod ymarfer a nodir yn y Ddeddf.

**Rheoliadau:**

Y rheoliadau mewn perthynas ag asesu ariannol a chodi tâl yw:

- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety) (Cymru) 2015.
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015.
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Ariannol) (Cymru) 2015.
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Gohiriedig) (Cymru) 2015.
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Adolygu Penderfyniadau a Dyfarniadau Codi Ffi) (Cymru) 2015.

**Cod Ymarfer:**

Y cod ymarfer mewn perthynas ag asesiad ariannol a chodi tâl yw:

- Rhan 4 & % Cod Ymarfer (Asesiadau Ariannol a Chodi Tâl)

**Defnyddwyr Gwasanaeth:**

- Oddeutu 620 o ddefnyddwyr gwasanaethau preswyl a nyrsio gyda canran uchel o rhain yn bobl hyn a phobl ag anableddau dysgu a salwch iechyd meddwl yn ganran is.

- Oddeutu 2,200 o ddefnyddwyr gwasanaethau di-breswyl. Pobl hyn a phobl anabl yw'r canran uchaf o'r defnyddwyr gwasanaeth di-breswyl.

**Ymgynghoriaeth:**

Yn dilyn cyfnod o ymgynghori, mae adroddiad wedi ei baratoi gan y Tîm Ymchwil a Dadansoddeg sydd yn dadansoddi canlyniad yr ymgynghoriad. (Gweler Rhif 6 uchod am grynodeb).

**8) BYLCHAU MEWN TYSTIOLAETH**
Nodwch unrhyw fylchau mewn tystiolaeth ac esboniwch sut yr ydych yn bwriadu eu llenwi

Rydym wedi ystyried y posibilrwydd efallai nad oedd yn bosib i bawb a dderbyniodd yr holiadur fod wedi gallu ei gwblhau. Yn anffodus, gan fod cymaint o ddefnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau gofal, nid oedd yn bosib darganfod oes oedd unigolion yn debygol o gael anawsterau ac os oedd angen cymorth arnynt Nid yw'r Cyngor yn dal gwybodaeth o'r math yma am ddefnyddwyr gwasanaeth unigol. Rhoddwyd rhif ffôn cyswllt yn y llythyr er mwyn i bobl gysylltu os oeddynt angen cymorth.

O edrych ar y dadansoddiad o'r ymgynghoriad, mae wedi dod i'r amlwg bod nifer o bobl yn ansicr sut y byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith ar eu sefyllfa unigol hwy. Nid oedd yn bosib gwneud dadansoddiad unigol ar gyfer bob defnyddiwr oherwydd bod sefyllfa pawb yn wahanol ac mae bob asesiad ariannol yn unigryw i sefyllfa'r defnyddiwr gwasanaeth unigol. Byddai wedi golygu gwneud asesiad ariannol unigol ar gyfer bob un o'r defnyddiwr gwasanaeth a ysgrifennwyd atynt fel rhan o'r broses ymgynghori ond nid oedd hyn yn ymarferol.

**9) PERTHNASEDD AC EFFAITH**
Rhaid dangos beth yw perthnasedd y polisi/ cynllun / arfer i'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol ac i bob un o'r grwpiau cydraddoldeb (nodweddion gwarchodedig). Dylid nodi'n glir beth fydd yn effaith wir neu debygol. Efallai na fydd perthnasedd nag effaith i bob un o'r dyletswyddau na'r nodweddion.

**9a)**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | Perthnasedd | Yr effaith wirioneddol neu debygol |
|---|---|---|
| **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Dim | Gan fod y Cyngor yn gweithredu yn unol â Deddfwriaeth sydd yn caniatáu i'r Cyngor ddefnyddio ei ddisgresiwn i godi ffioedd am wasanaethau gofal, nid yw'n achosi camwahaniaethu |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Dim | Dim yn berthnasol |
| **Meithrin perthnasau da** | Dim | Dim yn berthnasol |

**9b)**

| Nodweddion | Perthnasedd | Yr effaith wirioneddol neu debygol |
|---|---|---|
| **Hil** | Dim | Dim yn berthnasol i'r nodwedd yma.<br><br>Bodlon darparu mewn ieithoedd gwahanol. |
| **Anabledd** | Negyddol | Bydd y Polisi newydd yn cael effaith ar bobl anabl. Mae'r argymhellion yn cynnwys newidiadau yn y ffordd mae'r Cyngor yn codi ffioedd ar rheiny sydd yn gallu fforddio i dalu am eu gwasanaethau gofal. Cafodd yn agos i 3,000 o ddefnyddwyr gwasanaeth y cyfle i fod yn rhan o'r ymgynghoriad a chynnig sylwadau ar yr argymhellion arfaethedig. Derbyniwyd ymateb gan 520. O'r ymatebion a dderbyniwyd nododd 37.3% (194) nad oeddent yn siwr os byddai'r newidiadau arfaethedig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt. Nododd 45.2% (235) eu bod yn meddwl y byddai'r newidiadau yn effeithio rhyw gymaint arnynt, tra nododd 13.7% (71) nad oeddent yn credu y byddai'r newidiadau yn eu heffeithio o gwbl. |
| **Rhyw** | Dim | Dim yn berthnasol i'r nodwedd yma. |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | Dim yn berthnasol i'r nodwedd yma. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | Dim yn berthnasol i'r nodwedd yma. |
| **Crefydd neu gred** | Dim | Dim yn berthnasol i'r nodwedd yma. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Dim | Dim effaith, bydd popeth ar gael yn ddwyieithog. |
| **Oedran** | Negyddol | Bydd y newidiadau yn cael effaith ar defnyddwyr gwasanaeth o bob oedran, ond mae y canran uchaf o ddefnyddwyr yn bobol hyn. Os bydd y Cyngor yn penderfynu mabwysiadu'r argymhellion arfaethedig fel rhan o'u polisi, bydd pob defnyddiwr gwasanaeth yn cael eu hasesu er mwyn pennu os yw'r gallu ganddynt i gyfrannu tuag at |

| | | |
|---|---|---|
| | | eu gwasanaethau gofal. Er yn negyddol, rhaid pwysleisio mae dim ond y rheiny sydd yn gallu fforddio i dalu bydd yn gorfod cyfrannu neu yn gweld cynnydd yn eu cyfraniad tuag at y gost o'u gofal. Nodir bod uchafswm cyfraniad wythnosol yn cael ei osod gan Lywodraeth Cymru. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | Dim effaith. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Dim effaith |

## 10) MYND I'R AFAEL A'R EFFAITH

| | |
|---|---|
| **a)** | **Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb (sef crynodeb o'r uchod)**<br><br>Mae'r argymhellion sydd wedi eu cyflwyno yn mynd i alluogi'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i gynyddu incwm unai drwy ffynonellau nad oedd yn bosib yn y gorffennol neu lle roeddynt yn dewis peidio. Drwy fabwysiadu'r Polisi Codi Tâl newydd bydd Cyngor Gwynedd yn sicrhau bod pobl yn cyfrannu'n ariannol yr hyn gallent fforddio dalu tuag at eu gofal hyd yr uchafswm wythnosol a osodwyd gan Llywodraeth Cymru. Pobl anabl a phobl hyn yw mwyafrif y defnyddwyr gwasanaeth gofal ac felly rhain yw'r grwpiau sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y newidiadau a gynigir. |
| **b)** | **Pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma?**<br><br>Mae'r canllawiau a osodir gan y Llywodraeth yn cynnwys yr elfennau lle mae disgresiwn o'r uchafswm cyfraniad wythnosol yn ceisio gwneud y drefn mor deg ag sydd bosib a sicrhau nad yw yn cael effaith andwyol sylweddol ar unrhyw unigolyn neu grwp. Gallai'r Cyngor ddewis peidio a defnyddio'r disgresiwn i godi/cynyddu cyfraniadau ond, byddai hynny yn debygol o arwain at doriadau mewn rhai gwasanaethau gofal llinell flaen. Gallai hynny gael effaith ar allu'r Cyngor i ddarparu rhai gwasanaethau ac felly y bod yn fwy andwyol i rhai defnyddiwr gwasanaeth. |
| **c)** | **A oes angen ail-ystyried y cynllun?**<br><br>Mae'r cynigion wedi ei seilio ar y disgreswin a ganiateir i'r Cyngor yn y Ddeddfwriaeth newydd. Nid oes angen ail ystyried y cynllun. |

## 11) TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU

Pa gamau ydych chi am gymryd i adolygu'r polisi / cynllun / arfer unwaith mae'n cael ei fabwysiadu? Er bod yr asesiad uchod yn adnabod yr effaith posib, rhaid cofio na fydd yr effaith llawn yn cael ei weld tan mae'r polisi ayb yn cael ei weithredu.

| |
|---|
| Bydd asesiad effaith pellach yn cael ei gynnal os y bydd cynigion i addasu'r polisi yn y dyfodol. |

## 12) PENDERFYNU

| |
|---|
| Cyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad ar 17 Ionawr 2017 |

# Adroddiad Effaith Darluniadol Argymhellion Newidiadau i'r Polisi Codi Tâl ar Ddefnyddwyr Gwasanaeth

Yn dilyn y drafodaeth yn y Tîm Arweinyddiaeth (26 Gorffennaf 2016) gwnaed gwaith i baratoi esiamplau o effaith y newidiadau arfaethedig ar wahanol fath o unigolion sydd yn derbyn pecynnau gofal dibreswyl ar hyn o bryd.

I baratoi y darlun yma, fe'i seilwyd ar ddata wythnos benodol o'n systemau rheolaethol. Darganfuwyd bod 1,494 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn derbyn pecynnau gofal dibreswyl yr wythnos honno ac fod 654 o rheini yn mynd i gael eu heffeithio gan y newidiadau yr ydym yn argymell i'r Polisi Codi Tâl. Er hyn, ni fydd unrhyw berson sydd yn derbyn gwasanaeth dibreswyl yn talu mwy na'r uchafswm tâl wythnosol o £60 sydd wedi ei osod gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r prif newidiadau arfaethedig i'r Polisi Codi Tâl yn effeithio ar yr elfennau canlynol:

1. **Lwfans Gweini / Elfen Gofal Lwfans Byw i'r Anabl**
2. **Pensiwn Credyd Cynilio**
3. **Isafswm Incwm**
4. **Ffioedd Unffurf**

**1.** Mae rhai o'r budd-daliadau mae defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn yn cael eu diystyru'n llwyr neu'n rhannol yn eu hasesiad ariannol ar gyfer codi tâl am wasanaethau dibreswyl ar hyn o bryd. Gyda'r **Lwfans Gweini/Elfen Gofal Lwfans Byw i'r Anabl** - yn y polisi presennol mae'r gwahaniaeth rhwng y raddfa ganol a'r raddfa uwch (£27.20) yn cael ei ddiystyru yn yr asesiadau ariannol. Rydym yn argymell i beidio â'i ddiystyru fel rhan o'r cynllun newydd gan mae gwir bwrpas y budd-dal yma yw i brynu gofal.

Mae Mrs F yn bensiynwraig ac yn derbyn pecyn gofal cartref:

| **Asesiad Presennol** | | **Asesiad newydd yn dilyn mabwysiadu'r argymhellion** | |
|---|---|---|---|
| Incwm wythnosol Mrs F | £299.75 | Incwm wythnosol Mrs F | £299.55 |
| Cyfanswm yr incwm sydd yn cael ei ystyried yn yr asesiad ariannol (£27.20 yn cael ei ddiystyru) | £272.55 | Cyfanswm yr Incwm sydd yn cael ei ystyried yn yr asesiad ariannol (peidio â diystyru'r £27.20) | £299.55 |
| Cyfanswm tâl wythnosol Mrs F tuag at ei phecyn gofal | £46.93 | Cyfanswm tâl wythnosol Mrs F tuag at ei phecyn gofal | £60.00 |

Gwahaniaeth o £13.07 yn ei chyfraniad wythnosol tuag at ei phecyn gofal.

Mae Ms B mewn oed gwaith ac yn derbyn pecyn gofal cartref.

| **Asesiad Presennol** | | **Asesiad newydd yn dilyn mabwysiadu'r argymhellion** | |
|---|---|---|---|
| Incwm wythnosol Ms B | £269.20 | Incwm wythnosol Ms B | £269.20 |
| Cyfanswm yr incwm sydd yn cael ei ystyried yn yr asesiad ariannol (£27.20 yn cael ei ddiystyru) | £242.00 | Cyfanswm yr Incwm sydd yn cael ei ystyried yn yr asesiad ariannol (peidio â diystyru'r £27.20) | £269.20 |
| Cyfanswm tâl wythnosol Ms B tuag at ei phecyn gofal | £16.38 | Cyfanswm tâl wythnosol Ms B tuag at ei phecyn gofal – | £43.58 |

Gwahaniaeth o £27.20 yn ei chyfraniad wythnosol.

**2.** Mae'r elfen **Pensiwn Credyd Cynilio (Savings Pension Credit)** yn cael ei ddiystyru'n llawn mewn asesiadau dibreswyl ar hyn o bryd. Rydym yn argymell i gysoni'r drefn bresennol ar gyfer yr elfen dibreswyl gydag asesiadau gofal preswyl a diystyru £5.75 yn unig i unigolion a £8.60 fesul cwpl.

Mae Mrs O yn bensiynwraig ac yn derbyn pecyn gofal cartref.

| **Asesiad Presennol** | | **Asesiad newydd yn dilyn mabwysiadu'r argymhellion** | |
|---|---|---|---|
| Incwm wythnosol Mrs O | £285.62 | Incwm wythnosol Mrs O | £285.62 |
| Cyfanswm yr incwm sydd yn cael ei ystyried yn yr asesiad ariannol (£13.07 Credyd pensiwn cynilo yn cael ei ddiystyru) | £272.55 | Cyfanswm yr Incwm sydd yn cael ei ystyried yn yr asesiad ariannol (diystyru £5.75 yn unig) | £279.87 |
| Cyfanswm tâl wythnosol Mrs O tuag at ei phecyn gofal | £46.93 | Cyfanswm tâl wythnosol Mrs O tuag at ei phecyn gofal | £54.25 |

Gwahaniaeth o £7.32 yn ei chyfraniad wythnosol tuag at ei phecyn gofal

Isod ceir enghraifft sut y gallai Defnyddiwr Gwasanaeth gael ei effeithio wrth beidio â diystyru'r gwahaniaeth rhwng y raddfa ganol a'r raddfa uwch o Lwfans Gweini/Elfen Gofal Lwfans Byw i'r Anabl yn ogystal â pheidio â diystyru'r Pensiwn Credyd Cynilo

Mae Mrs D yn bensiynwraig ac yn derbyn pecyn gofal cartref

| **Asesiad Presennol** | | **Asesiad newydd yn dilyn mabwysiadu'r argymhellion** | |
|---|---|---|---|
| Incwm wythnosol Mrs D | £312.69 | Incwm wythnosol Mrs D | £312.69 |
| Cyfanswm yr Incwm sydd yn cael ei ystyried yn yr asesiad ariannol (£27.20 Lwfans Gweini a £13.07 Credyd Pensiwn Cynilo yn cael ei ddiystyru) | £272.42 | Cyfanswm yr Incwm sydd yn cael ei ystyried yn yr asesiad ariannol (Peidio â diystyru'r £27.20 a diystyru £5.75 o'r Credyd Pensiwn yn unig) | £306.94 |
| Cyfanswm tâl wythnosol Mrs D tuag at ei phecyn gofal | £46.80 | Cyfanswm tâl wythnosol Mrs D tuag at ei phecyn gofal | £60.00 |

Gwahaniaeth o £13.20 yn ei chyfraniad wythnosol tuag at ei phecyn gofal

**3.** Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddiystyru swm penodol o incwm y defnyddiwr gwasanaeth cyn gellir godi tâl am wasanaeth. Mae'r fformiwla ar gyfer cyfrifo'r **'Isafswm Incwm'** yn cael ei osod gan llywodraeth Cymru, a mae wedi'i seilio ar hawl y defnyddiwr gwasanaeth i Gymhorthdal Incwm. Mae Polisi presennol y Cyngor yn caniatau i ddefnyddwyr gwasanaeth sydd o dan oed pensiwn elwa ar isafswm incwm uwch sydd wedi ei osod i ddefnyddwyr gwasanaeth oed pensiwn. Mae'r newidiadau arfaethedig yn argymell rhoi terfyn ar y drefn yma a chyfriro'r isafswm incwm ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth o dan oed pensiwn yn unol a'r gofynion a bennir gan Llywodraeth Cymru, sef ei seilio ar eu hawl gwirioneddol i Gymhorthdal Incwm. Bydd hyn yn golygu bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael cadw llai o'u hincwm cyn y byddwn yn gofyn iddynt dalu am eu gofal.

Mae Mr N yn mewn oed gwaith ac yn derbyn pecyn gofal cartref.

| **Asesiad Presennol** | | **Asesiad newydd yn mabwysiadu'r argymhellion** | |
|---|---|---|---|
| Incwm wythnosol Mr N | £269.20 | Incwm wythnosol Mr N | £269.20 |
| Cyfanswm yr incwm sydd yn cael ei ystyried yn yr asesiad ariannol (£27.20 yn cael ei ddiystyru) | £242.00 | Cyfanswm yr Incwm sydd yn cael ei ystyried yn yr asesiad ariannol (£27.20 yn cael ei ddiystyru) | £242.00 |
| Cyfanswm tâl wythnosol Mr N tuag at ei becyn gofal - gydag isafswm Incwm presennol o £225.62 | £16.38 | Cyfanswm tâl wythnosol Mr N tuag at ei phecyn gofal - gydag isafswm Incwm newydd o £181.32 | £60.00 |

Gwahaniaeth o £43.62 yn ei gyfraniad wythnosol tuag at ei becyn gofal.

Isod ceir enghraifft sut y gallai defnyddiwr gwasanaeth gael ei effeithio gyda gostwng yr isafswm incwm a pheidio â diystyru'r elfen gofal o Lwfans Byw i'r Anabl:

Mae Miss P o oed gwaith ac yn derbyn pecyn gofal cartref.

| **Asesiad Presennol** | | **Asesiad newydd yn mabwysiadu'r argymhellion** | |
|---|---|---|---|
| Incwm wythnosol Miss P | £194.35 | Incwm wythnosol Miss P | £194.35 |
| Cyfanswm yr incwm sydd yn cael ei ystyried yn yr asesiad ariannol (£27.20 yn cael ei ddiystyru) | £167.15 | Cyfanswm yr Incwm sydd yn cael ei ystyried yn yr asesiad ariannol (peidio â diystyru'r £27.20) | £194.35 |
| Cyfanswm tâl wythnosol Miss P tuag at ei phecyn gofal - gydag isafswm Incwm presennol o £225.62 | £0.00 | Cyfanswm tâl wythnosol Miss P tuag at ei phecyn gofal - gydag isafswm Incwm newydd o £181.32 | £13.03 |

Gwahaniaeth of £13.03 yn ei chyfraniad wythnosol tuag at ei phecyn gofal.

**4. Ffioedd Unffurf** – Mae ffioedd unffurf yn cael eu caniatau gan y Ddeddf ar gyfer gofal a chefnogaeth lefel isel a chost isel. Mae hefyd yn cael ei ganiatau fel modd i godi tâl am wasanaethau a chefnogaeth ataliol. Yn y polisi presennol mae defnyddwyr gwasanaeth categori 1 a 2 yn cael eu heithrio rhag talu am wasanaethau Teleofal. Yn yr newidiadau arfaethedig rydym yn argymell i gysoni'r drefn a chodi'r tâl wythnosol ar bob defnyddiwr gwasanaeth sydd yn derbyn y gwasanaeth Teleofal. Yn ystod yr wythnos y gwnaed dadansoddiad ohoni, darganfuwyd bod 732 o ddefnyddwyr gwasanaeth categori 1 a 2 wedi eu heithro rhag talu am y gwasanaeth yma.

Dylid hefyd nodi bod yr Adran yn adolygu y ffi wythnosol ar gyfer gwasanaethau Teleofal ar hyn o bryd. Ar sail y wybodaeth gyfredol, mae'n debyg y bydd y ffi yn codi i rhwng £3.80 a £4.00 yr wythnos o Ebrill 2017 ymlaen.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
17 IONAWR 2017

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Dafydd Meurig

**Pwnc:** Newid Llwybr Dewisol Gwelliant Ffordd/Mynediad Llanbedr

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd Wyn Williams – Pennaeth Adran Rheoleiddio

---

**Y penderfyniad a geisir**

Peidio gwarchod y llwybr gwreiddiol ar gyfer ffordd osgoi Llanbedr a chefnogi'r cynllun ffordd mynediad newydd yn yr ardal.

---

**Barn yr aelod lleol**

Wedi bod mewn trafodaeth gyda Aelodau o Gyngor Cymuned Llanbedr ynglŷn ar mater ac maent eisiau i mi nodi nid oedd posib cefnogi peidio gwarchod y llwybr gwreiddiol ar gyfer ffordd osgoi Llanbedr tan fyddai sicrwydd bydd y cynllun newydd arfaethedig wedi cael caniatâd cynllunio.

Unwaith fydd caniatâd cynllunio wedi cael ei dderbyn bydd modd ail gysidro rhyddhau'r hen gynllun.

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Ers blynyddoedd maith bellach, mae llwybr ar gyfer ffordd osgoi i bentref Llanbedr wedi cael ei warchod rhag mathau eraill o ddatblygiad. Gwarchodwyd y llwybr gwreiddiol gan gyn Cynghorau Sir yn eu Cynlluniau Datblygu ac, yn fwy diweddar, trwy gynllun Fframwaith Gwynedd.

1.2 Rheswm dros warchod y llwybr yn wreiddiol oedd er mwyn cydymffurfio a chanllawiau ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu ar ôl yr Ail Ryfel Byd, a'r angen i adnabod lle byddai 'n bosib adeiladu ffyrdd osgoi er mwyn hwyluso datblygu'r economi leol. Erbyn heddiw, gan fod newidiadau sylweddol wedi bod yn safonau adeiladu priffyrdd, mae addasrwydd y llwybr presennol ar gyfer creu ffordd newydd yn amheus.

1.3 Yn 2012 daeth Awyrborth Llanbedr, sydd bellach yn masnachu fel Canolfan Awyrofod Eryri, yn rhan o Ardal Fenter Eryri. Yn gynnar iawn, adnabuwyd mai un o'r rhwystrau ar gyfer datblygu'r Ardal Fenter oedd y cysylltiadau trafnidiaeth. Yn bennaf, oherwydd bod cerbydau trwm yn cael hi'n anodd neu, ar rhai adegau, yn amhosib troi oddi ar y ffordd fawr ym mhentref Llanbedr.

1.4 Er bod llwybr ar gyfer ffordd osgoi eisoes wedi ei sefydlu a byddai'n gallu goresgyn rhai o'r problemau mynediad, y gred oedd bod angen ail edrych ar y cynlluniau gyda'r nod penodol o wella cysylltiadau trafnidiaeth i'r awyrborth. Mae gwaith sylweddol wedi ei wneud i ystyried gwahanol opsiynau i gwrdd ar angen, yn ogystal â nifer o sesiynau ymgynghori gyda'r gymuned.

1.5 Cafodd y gwaith o ystyried y gwahanol opsiynau ei gynnal trwy ddefnyddio proses arfarnu sy'n cael ei adnabod fel WelTAG. Yn syml, set o ganllawiau ar gyfer gwerthuso a chynllunio cynlluniau Trafnidiaeth yw WelTAG. Datblygwyd y canllawiau gan Lywodraeth Cymru, gyda'r bwriad eu bod yn cael eu defnyddio ar gyfer pob strategaeth trafnidiaeth a chynllun sy'n cael ei hyrwyddo, neu sy'n gofyn am arian gan Lywodraeth Cymru. Mae'r adroddiadau WelTAG yn ddogfennau cefndir ffurfiol i'r adroddiad yma, ac maent ar gael i'w harchwilio os oes angen.

1.6 Canlyniad y gwaith yma oedd argymell ffordd mynediad newydd yn yr ardal fel sy'n cael ei arddangos yn atodlen B. Nodir bod y ffordd yma hefyd yn creu ffordd osgoi i'r pentref.

**Crynodeb o'r hanes – llinell amser**

1.7 Gwarchodwyd y hen lwybr, sydd tua 1 milltir o hyd, yn 1953. Tra bod y mwyafrif o'r llwybr yn croesi tir amaethyddol, mae tua thraean yn rhedeg drwy ben gogleddol y pentref.

1.8 Yn 1971 prynwyd tir yn ardal Llanbedr. Mae rhan helaeth o'r tir wedi ei werthu ond cadwyd gafael ar lain o dir gan adnabod y bwriad i greu ffordd osgoi newydd yn yr ardal.

1.9 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus i'r llwybr yn 1992 er mwyn penderfynu ai'r llwybr a warchodwyd oedd y gorau o dan yr amgylchiadau ar y pryd. Beth bynnag, oherwydd bod ad-drefnu llywodraeth leol ar y gorwel, ni wnaethpwyd dim gyda'r canlyniad.

1.10 Yn 2006, penderfynwyd cadw llinell gwarchodaeth Llanbedr gyda bwriad i ail asesu'r angen i'w chadw i'r dyfodol.

1.11 Yn 2012 sefydlodd Llywodraeth Cymru Ardaloedd Menter. Bwriad yr Ardaloedd Menter yw creu'r amodau gorau posibl i fusnesau ffynnu, gyda phob ardal yn canolbwyntio ar sectorau penodol. Fel rhan o Ardal Fenter Eryri adnabuwyd dau safle sef Safle Trawsfynydd a Chanolfan Awyrofod Eryri.

1.12 Mae Canolfan Awyrofod Eryri wedi'i leoli ar benrhyn arfordirol. Mae gan y safle hwn awyrofod ar wahân sy'n unigryw ym Mhrydain. Mae ganddo dri llwybr glanio, ardal Cynnal a Chadw, Atgyweirio ac archwilio a System Cerbydau Awyr a Reolir o Bell, a pharc busnes sy'n ymrwymedig i Dechnoleg Ymchwil a Datblygu a defnyddiau diwydiannol. Mae'r safle hefyd yn un o chwe lleoliad o ddewis ar gyfer Porth Gofod gyntaf y DU.

1.13 Yn 2014 comisiynwyd adroddiad WelTAG i sefydlu'r amcanion ac i edrych ar wahanol opsiynau i wella'r is adeiladaeth a mynediad i Ganolfan Awyrofod Eryri. Fe ymgynghorwyd gyda'r cymunedau lleol fel rhan o'r gwaith yma.

## 2 AMCANION AC OPSIYNAU

2.1 Cwblhawyd yr astudiaeth WelTAG i ymchwilio i mewn i welliannau mynediad drafnidiaeth posib ar gyfer rhan o Ardal Fenter Eryri sef Canolfan Awyrofod Eryri.

2.2 Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau trafnidiaeth yn yr ardal sefydlwyd yr astudiaeth yr Amcanion Cynllunio Trafnidiaeth (ACT) canlynol;

- Lleihau tagfeydd traffig ar gyffordd Ffordd Mochras / A496
- Lleihau effaith negyddol traffig ar gymuned Llanbedr
- Gwella cysylltedd cludiant i ac o Ganolfan Awyrofod Eryri
- Gwella effeithlonrwydd a dibynadwyedd bob cludiant i ac o Ganolfan Awyrofod Eryri
- Gwella diogelwch ar gyfer yr holl deithwyr yn Llanbedr ac ar hyd Ffordd Mochras
- Gwella mynediad i gerbydau trwm i ac o Ganolfan Awyrofod Eryri
- Gwella cyfleoedd teithio ar gyfer cerddwyr a beicwyr yn Llanbedr ac ar hyd Ffordd Mochras
- Lleihau effaith gwelliannau trafnidiaeth ar nodweddion amgylcheddol a threftadaeth leol
- Creu is adeiladaeth sy'n gallu gwrthsefyll effeithiau lleol o newid yn yr hinsawdd, yn enwedig cynnydd mewn digwyddiadau o lifogydd yn y dyfodol.

2.3 Mae'r atebion a nodwyd yn ystod y cam Cynllunio o WelTAG wedi eu rhoi at ei gilydd i gynhyrchu opsiynau sydd wedi cael eu hymgynghori arnynt a'u gwerthuso yn fwy manwl fel rhan o'r broses Arfarnu WelTAG. Roedd cyfraniad y cyhoedd wedi ei gynnwys ar wahanol gamau o'r broses WelTAG, megis nodi'r problemau trafnidiaeth leol a chyfyngiadau ac arfarnu opsiynau.

2.4 Mae'r opsiynau canlynol, sy'n cael eu manylu ymhellach yn Atodlen C, wedi eu gwerthuso yn erbyn yr ACT a'r Ardaloedd Effaith Cymru o economi, amgylchedd a chymdeithas, yn ogystal â derbynioldeb y cyhoedd a rhanddeiliaid, fforddiadwyedd ariannol a dichonoldeb technegol a gweithredol:

**Opsiwn 1:** Darparu dwy ffordd gyswllt newydd sy'n cysylltu Ffordd Mochras i'r gogledd y A496 ac i'r de o Lanbedr.

**Opsiwn 2:** Ffordd Osgoi i'r gorllewin o Lanbedr (rhwng yr A496 a'r rheilffordd), gyda'r rhan o'r Ffordd Mochras yn agored i bob traffig rhwng ei gyffordd a'r A496 a chyffordd y ffordd osgoi newydd.

**Opsiwn 3:** Ffordd Osgoi Llanbedr sy'n dilyn y llwybr ffordd osgoi flaenorol a gyhoeddwyd yn 1992.

**Opsiwn 4:** Ffordd Osgoi Llanbedr o'r A496 o'r ochr ddeheuol i Lanbedr yna dilyn y llwybr y rheilffordd a'r trac i'r gogledd o Ffordd Mochras.

**Opsiwn 5:** Cyfleusterau parcio gwell a llinellau melyn dwbl yn Llanbedr (a fyddai'n cael eu rhoi ar waith ar y cyd â dewisiadau 1 - 4), a;

**Opsiwn 6:** Gwneud dim a pharhau i gynnal y sefyllfa bresennol.

**Canlyniadau'r Arfarniad WelTAG**

- **Tydi Opsiynau 1, 3, 4 a 6** ddim yn cael eu hargymell ar gyfer unrhyw asesiad pellach o ganlyniad i'r anfanteision sylweddol sy'n gysylltiedig â hwy.
- **Opsiwn 2** yn cael ei ystyried i fod y llwybr gorau posibl sydd hefyd yn cynnig y cyfraniad mwyaf at gyflawni'r ACT tra'n osgoi'r anfanteision sy'n gysylltiedig â Dewisiadau 1, 3 a 4; Dylai felly gael ei ymchwilio ymhellach gyda golwg ar ddiffinio aliniad llwybr optimaidd.
- Dylai **Opsiwn 5** gael eu hystyried yn fwy manwl, ar y cyd ag Opsiwn 2.
- Unwaith y bydd defnydd yr awyrborth yn cael ei gadarnhau, dylid cwblhau asesiad o effeithiau posibl (cadarnhaol a negyddol) ar economi leol Llanbedr a'r ardal gyfagos.

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Dileu hen linell gwarchodaeth bresennol ar gyfer ffordd osgoi Llanbedr

4.2 Cymeradwyo'r Cynllun newydd fel ffordd ddewisol ar gyfer ffordd mynediad i'r awyrborth a ffordd osgoi i Lanbedr

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
*"Mae'n amlwg o'r adroddiad bod yr hanes o ran y mater hwn yn hir a chymhleth. Fodd bynnag, mae'r argymhelliad yn yr adroddiad yn cynnig ffordd ymlaen y gellir ei gymeradwyo."*


**Y Swyddog Monitro:**
*Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb*

**Y Pennaeth Cyllid:**
*Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol ar yr opsiynau, ond nodaf bydd angen buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwireddu'r cynllun gwelliant ffordd yn Llanbedr.*


**Atodiadau**

**Atodlen A**– Llwybr ar gyfer ffordd osgoi sy'n cael ei warchod ar hyn o bryd
**Atodlen B -** Cynllun ffordd mynediad newydd Llanbedr
**Atodlen C -** Opsiynau sydd wedi eu hasesu yn yr adroddiad WelTAG


**Atodlen A/ Schedule A** – Llwybr ar gyfer ffordd osgoi sy'n cael ei warchod ar hyn o bryd / *Existing route for Llanbedr bypass*




**Atodlen B / Schedule B** Cynllun ffordd mynediad newydd Llanbedr
*Plan for a new Access Road in Llanbedr Access*




**Atodlen/ Schedule C –** Opsiynau sydd wedi eu hasesu yn yr adroddiad WelTAG
*Options assessed in the WelTAG report*





*Map 1; Opsiwn 1 / Option 1*




Map 2; Opsiwn 2 a 5 / *Option 2 and 5*




Map 3; Opsiwn 3 / *Option 3*




Map 4: Opsiwn 4 / *Opsiwn 4*

**ADRODDIAD I'R CABINET**
17 Ionawr, 2017

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd John Wynn Jones

**Pwnc:** Darpariaeth Toiledau Cyhoeddus yng Ngwynedd

**Swyddog cyswllt:** Gwyn Morris Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol

---

**Y penderfyniad a geisir**

I. I gyflawni'r toriad o £244,000 yn y gwasanaeth drwy wireddu'r Cynllun Partneriaethu gyda Chynghorau Cymuned a Thref er mwyn cadw'r mwyafrif o doiledau cyhoeddus presennol y Sir yn agored i'r dyfodol.

II. Awdurdodi'r Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol i gytundebu gyda'r Cynghorau Cymuned a Thref sydd wedi datgan diddordeb mewn partneriaethu.

---

**Cyflwyniad**

Yn dilyn ymarferiad Her Gwynedd, bu i'r Cyngor yn ei gyfarfod 3 Mawrth, 2016 argymell gwneud toriad oedd yn golygu 'cau 50 allan o 73 o doiledau cyhoeddus yn y Sir'. Mae'n debygol y byddai hyn yn cael ei wireddu ar sail gwerthusiad o 'bwysigrwydd' y toiledau ddatblygwyd gan Weithgor y Pwyllgor Amgylchedd yn 2008/09.

Yn ei gyfarfod 7 Mehefin, 2016 bu i'r Cabinet dderbyn argymhelliad y Pwyllgor Craffu Cymunedau, i addasu'r penderfyniad i wneud toriad o £244,000 yn y gwasanaethau drwy yn gyntaf ymgeisio i sefydlu partneriaethau gyda chymunedau lleol er mwyn osgoi cau'r cyfleusterau tra'n cyflawni'r un swm o doriad.

Mae'r Adran berthnasol wedi ymgysylltu â'r Cynghorau Cymuned a Thref i bwrpas sefydlu os oes cefnogaeth i bartneriaethu ac mae diweddariad ar ffurf tabl i'w gael yn atodol i'r Adroddiad hwn.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Mae'r Cynllun Partneriaethu yn cynnig y posibiliad o gadw llawer iawn mwy o doiledau'n agored i'r dyfodol o'i gymharu gyda'r hyn rhagwelwyd gyda'r cynllun toriadau blaenorol.

Mewn gwireddu'r Cynllun Partneriaethu rhagwelir gallu cadw o leiaf 52 o doiledau yn agored drwy gefnogaeth a chydweithrediad Cynghorau Cymuned a Thref. Mae hyn yn bosib er y toriad yn y gyllideb berthnasol gan y Cyngor ar ei gyfer.

Mae manteision eraill i'r cymunedau a'r Cyngor mewn gwireddu'r opsiwn hwn, sef y posibiliad o ddatblygu trefniadaeth amgen ar gyfer cadw'r ddarpariaeth i'r dyfodol gydag o leiaf 35 toiled a photensial i'r gymuned gymeryd mwy o gyfrifoldeb am eu cynnal i'r dyfodol (5 o fewn y flwyddyn gyntaf o wireddu'r Cynllun).

**Ystyriaethau perthnasol**

O dan y Cynllun Partneriaethu mae hyd at 21 toiled dan fygythiad i gau.

Dylid nodi bod dau o'r toiledau hyn ger traethau Baner Las, ac mae posibiliad y bydd eu cau yn medru arwain at golli'r statws hwn.

Dylid hefyd nodi bod o leiaf 4 toiled arall dan fygythiad i gau mewn lleoliadau o bwysigrwydd i ymwelwyr. Yn y lleoliadau hyn awgrymir bydd angen ceisio partneriaethu gyda sefydliadau eraill er mwyn cadw'r ddarpariaeth i'r dyfodol, neu geisio darpariaeth amgen yn y lleoliad.

Mae'r tabl atodol yn nodi lle mae darpariaeth amgen ar gael, drwy'r Cynllun Grant Toiledau Cymunedol, yn y lleoliadau hynny lle mae toiled/au dan fygythiad o gau. Mae hefyd yn nodi ychwaneg o ddarpariaeth amgen posib pe byddai'r Cyngor yn penderfynu cyfrannu at ymestyn y Cynllun Grant.

Asesiad Cydraddoldeb

Cyn gwneud penderfyniad, mae gan bob unigolyn yn y sector gyhoeddus ddyletswydd i ystyried effaith debygol y penderfyniad ar bobl sydd â nodweddion sy'n cael eu gwarchod gan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb (Deddf Cydraddoldeb 2010). Wrth gyflwyno'r arbediad yma i'r Cabinet a'r Cyngor ym mis Mawrth paratowyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb oedd yn adnabod effeithiau posib y cynllun gwreiddiol a gymerwyd i ystyriaeth wrth ddod i benderfyniad ar lefel y toriad ariannol.

Mae'r asesiad cydraddoldeb yma wedi ei adolygu mewn ystyriaeth o oblygiadau gwireddu'r Cynllun Partneriaethu (gweler yr atodiad i'r Adroddiad hwn). Bwriad y Cynllun hwn yw rhoi cyfle i Gynghorau Cymuned gynnal cyfleusterau yn eu hardal. Mae hyn eto yn gyfrwng i fireinio effaith y toriad ar y ddarpariaeth gyhoeddus. Hyd yn hyn, ymddengys bod y Cynllun yn parhau i gyfarch a mireinio effaith y toriad o safbwynt cydraddoldeb. Bydd yr asesiad yn cael ei gadw dan adolygiad fel mae'r Cynllun yn cael ei ddatblygu.

Bil Iechyd Cyhoeddus

Cyflwynwyd y ddeddfwriaeth drafft hwn i'r Senedd ar 7 Tachwedd, 2016. Dyma'r cam cyntaf (sef yr egwyddorion cyffredinol) o bedwar cam sydd ei angen cyn iddo ddod yn ddeddfwriaeth. O safbwynt toiledau cyhoeddus, pwrpas y ddeddfwriaeth yw i wneud yn siŵr bod pob awdurdod lleol yn gwneud asesiad o anghenion ei gymunedau o ran y ddarpariaeth, ac yn cymeryd trosolwg strategol a thryloyw o sut mae dinasyddion yn medru cael mynediad at doiledau yn y Sir. Yn amlwg, mewn ymgynghori a cheisio partneriaethu gyda chymunedau y Sir, ac mewn ceisio sicrhau darpariaeth lle mae'r angen yn strategol, y byddai gwireddu'r Cynllun Partneriaethu hwn yn debygol o gwrdd â gofynion perthnasol y ddeddfwriaeth arfaethedig hwn.

**Camau nesaf ac amserlen**

Ar dderbyn cymeradwyaeth y Cabinet i wireddu'r Cynllun Partneriaethu er mwyn cyflawni'r toriad o £244,000 rhagwelir:

i. bydd yr Adran yn cadarnhau gyda'r Cynghorau Cymuned a Thref hynny sy'n cyfrannu at bartneriaethu bod y toiledau perthnasol yn aros yn agored, a gan ddiolch iddynt am sicrhau hyn.

ii. bod yr Adran yn ceisio sefydliadau eraill i rannu cyfrifoldeb am y toiledau o bwysigrwydd yn y Sir a lle nad yw'r Cyngor Cymuned neu Thref wedi ymateb i'r cais.

iii. bod yr Adran i barhau i gynnal trafodaethau gyda'r gymuned ac eraill o ran dyfodol y toiledau eraill hynny sydd dan fygythiad i gau, gan dderbyn bydd yn rhaid cau y toiledau hynny lle nad oes partneriaethu yn bosib.

iv. bod yr Aelod Cabinet yn darparu adroddiad pellach ar y cynnydd yn y Cynllun i'r Cabinet mis Mehefin, 2017.

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Mae'n ymddangos bod y cynllun amgen hwn yn gwireddu'r arbediad y mae'n rhaid ei wireddu o ran strategaeth ariannol y Cyngor tra, gyda chydweithrediad a chymorth y Cynghorau Cymuned perthnasol yn llwyddo i warchod cyfran sylweddol o doiledau'r sir. Yn amlwg, mae rhai sefyllfaoedd yn parhau yn aneglur ond rwy'n cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad ac yn ddiolchgar i'r cynghorau cymuned sydd wedi ymateb yn gadarnhaol am hynny.

**Y Swyddog Monitro:**

Mae nifer o ystyriaethau ar waith wrth ddatblygu'r cynllun yma. Cloriannir y rhain mewn modd priodol yn yr adroddiad wrth argymell y camau nesaf i ddatblygu gwireddu'r cynllun.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Rwy'n croesawu'r cynllun amgen o bartneriaethu gyda Chynghorau Cymuned a Thref. Byddai hyn yn golygu cadw'r ddarpariaeth yn agored a gweithredol, yn ogystal â chynnal cyflogaeth gweithwyr sy'n glanhau. Diau na fydd pob Cymuned a Thref yn manteisio ar y cyfle i gadw pob cyfleuster yn agored; deallaf fod y Cynghorau Cymuned a Thref hynny sydd am fod yn rhan o'r Cynllun bellach wedi addasu eu praeseptau ar gyfer 2017/18 fel bo'r angen. Mae'r cynllun yn cynnig ffordd arall o wireddu'r arbedion o £244k penderfynwyd arno eisoes fel rhan o arbedion 'Her Gwynedd' a strategaeth ariannol 2016/17 - 2017/18.

**ATODIAD / APPENDIX 1**

| | Tref neu Bentref / Town or Village | Lleoliad / Location | Partneriaethu Hir Dymor/Long Term Partnership | Darpariaeth Amgen (Cynllun Grant)/Alternative Provision (Grant Scheme) | Darpariaeth Amgen (Rhestr Aros Cynllun Grant)/Alternative Provision (Grant Scheme Waiting List) | Sylwadau / Comments |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ardal ARFON Area** | | | | | |
| 1 | Bangor | Glanrafon | ✓ | | | |
| 2 | Bangor | Tanyfynwent | ✓ | | | |
| 3 | Bangor | Y Pier | ✓ | | | |
| 4 | Bethesda ** | Stryd Fawr | ✓ | | | |
| 5 | Caernarfon | Allt y Castell | ✓ | | | |
| 6 | Caernarfon* | Empire | ✓ | | | |
| 7 | Caernarfon* | Penllyn | ✓ | | | |
| 8 | Dinas Dinlle (Llandwrog) | Marine | ✓ | | | |
| 9 | Llanberis | Ger y Llyn | | | | Cyngor Cymuned Llanberis heb gadarnhau / Llanberis Community Council has not confirmed |
| 10 | Llanberis | Maes Padarn | | | The Heights | Cyngor Cymuned Llanberis heb gadarnhau / Llanberis Community Council has not confirmed |
| 11 | Llanberis | Y Glyn | | | | Cyngor Cymuned Llanberis heb gadarnhau / Llanberis Community Council has not confirmed |
| 12 | Penygroes (Llanllyfni) | Heol y Dwr | | | Garej Povey | Cyngor Cymuned am drefnu darparieth amgen yn hen Garej Povey / The Community Council will be arranging an alternative provision in the old Povey Garage |
| | **Ardal DWYFOR Area** | | | | | |
| 13 | Aberdaron | Traeth | | Gwesty Ty Newydd | | Yn trafod gyda'r Grwp Twristiaeth. (Mae toiled arall yn Aberdaron gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol) / In discussion with the Tourism Group. (Another toilet is provided in Aberdaron by the National Trust) |
| 14 | Aberdesach (Clynnog) | | | | | Cyngor Cymuned Clynnog heb gadarnhau / Clynnog Community Council has not confirmed |
| 15 | Clynnog | | | Garej Clynnog | | Cyngor Cymuned Clynnog heb gadarnhau / Clynnog Community Council has not confirmed |
| 16 | Abersoch (Llanengan) | Ger y bont | ✓ | | | |
| 17 | Abersoch (Llanengan) | Golff | ✓ | | | |
| 18 | Abersoch (Llanengan) | Machroes | ✓ | | | |
| 19 | Mynytho (Llanengan) | | ✓ | | | |
| 20 | Beddgelert | | | | | Yn trafod ymhellach gyda'r Cyngor Cymuned ond tebygol o gau / Further discussions with the Community Council, but likely to close |
| 21 | Criccieth | Esplanade | | | | |
| 22 | Criccieth | Maes Parcio | | | | |
| 23 | Criccieth | Marine | | | | |
| 24 | Llanbedrog | Traeth | | | | |
| 25 | Llanystumdwy | | | | | Penderfyniad i beidio cyfrannu / Decision not to contribute |
| 26 | Llithfaen (Pistyll) | | | | | Penderfyniad i beidio cyfrannu / Decision not to contribute |
| 27 | Morfa Bychan (Porthmadog) | Traeth | | | | Cyngor Tref Porthmadog ddim am gadarnhau / Porthmadog Town Council will not confirm |
| 28 | Morfa Bychan (Porthmadog) | Gwydryn | | | | Cyngor Tref Porthmadog ddim am gadarnhau / Porthmadog Town Council will not confirm |
| 29 | Borth y Gest (Porthmadog) | Maes Parcio | | | | Cyngor Tref Porthmadog ddim am gadarnhau / Porthmadog Town Council will not confirm |
| 30 | Tremadog (Porthmadog) | Stryd Fawr | | | | Cyngor Tref Porthmadog ddim am gadarnhau / Porthmadog Town Council will not confirm |
| 31 | Porthmadog* | Y Parc | | Rheilffordd Ffestiniog | | Cyngor Tref Porthmadog ddim am gadarnhau / Porthmadog Town Council will not confirm |
| 32 | Morfa Nefyn (Nefyn) | Cae Coch | ✓ | | | |
| 33 | Morfa Nefyn (Nefyn) | Traeth | ✓ | | | |
| 34 | Nefyn | Cefn Twr | ✓ | | | |
| 35 | Nefyn | Lon Gam | ✓ | | | |
| 36 | Pwllheli | South Beach | | | | |
| 37 | Pwllheli | Stryd Penlan | | | | |
| 38 | Pwllheli | West End | | | | |
| 39 | Pwllheli* | Y Maes | | | Glasfryn, Pwllheli | |
| 40 | Sarn Meillteyrn (Botwnnog) | | | Glyn y Weddw Arms, Llanbedrog | Neuadd Goffa Botwnnog | Cyngor Cymuned Botwnnog am drefnu darpariaeth amgen (Neuadd Goffa) / Botwnnog Community Council will be arranging an alternative provision (Neuadd Goffa) |
| 41 | Trefor (Llanelhaeran) | Traeth | | | | Penderfyniad i beidio cyfrannu / Decision not to contribute |
| 42 | Tudweiliog | | | Gwesty'r Lion a Towyn, Tudweiliog | | Penderfyniad i beidio cyfrannu / Decision not to contribute |
| | **Ardal MEIRIONNYDD Area** | | | | | |
| 43 | Aberdyfi | Neuadd Dyfi | ✓ | | Clwb Bowlio Aberdyfi | Cyngor Cymuned Aberdyfi eisiau cymeryd y toiledau / Aberdyfi Community Council want to takeover the toilets |
| 44 | Aberdyfi | Y Cei | ✓ | | | Cyngor Cymuned Aberdyfi eisiau cymeryd y toiledau / Aberdyfi Community Council want to takeover the toilets |
| 45 | Abergynolwyn (Llanfihangel) | | ✓ | | | |
| 46 | Abermaw | Llys Cambrian | ✓ | | Pieces for Places | |
| 47 | Abermaw | Promenad y Gogledd | ✓ | | | |
| 48 | Abermaw | Y Cei | ✓ | | | |
| 49 | Bala | Plase | ✓ | Caffi Jan's, | Gwesty Plas Coch | Partneriaeth Penllyn yn ystyried cymeryd y toiledau / Penllyn Partnership are considering the takeover of the toilets |
| 50 | Bala ** | Y Grin | ✓ | | Caffi Badell Aur | Partneriaeth Penllyn yn ystyried cymeryd y toiledau / Penllyn Partnership are considering the takeover of the toilets |
| 51 | Blaenau Ffestiniog ** | Diffwys | ✓ | | | |
| 52 | Bryncrug | | | | | |
| 53 | Corris Isaf ** | | | | | |
| 54 | Dinas Mawddwy ** | | ✓ | | | |
| 55 | Dolgellau* ** | Maes Parcio'r Marian | | Royal Ship Hotel, Dolgellau a Gwesty George III, Penmaenpwl | Eglwys Santes Fair, Dolgellau a Cross Foxes, Brithdir | Cyngor Tref Dolgellau heb gadarnhau / Dolgellau Town Council has not confirmed |
| 56 | Dyffryn Ardurdwy | | | Caffi Neuadd Bentref | | Cyngor Cymuned wedi trefnu darpariaeth amgen (Neuadd Bentref) / The Community Council will be arranging an alternative provision (Village Hall) |
| 57 | Talybont (Dyffryn Ardurdwy) | Pentre | ✓ | | | |
| 58 | Fairbourne (Arthog) | Ffordd yr Orsaf | | | | |
| 59 | Fairbourne (Arthog) | Penrhyn Drive South | | | | |
| 60 | Ganllwyd ** | | | | | |
| 61 | Harlech | Bron y Graig | ✓ | | | |
| 62 | Harlech | Castell | ✓ | | | |
| 63 | Harlech | Min y Don | ✓ | | | |
| 64 | Harlech | Queen's | ✓ | | | |
| 65 | Llanbedr | | ✓ | | | |
| 66 | Llandanwg (Llanfair) | | ✓ | | | |
| 67 | Llwyngwril (Llangelynin) | | | | | |
| 68 | Maentwrog ** | Newydd | | | | |
| 69 | Pennal | | ✓ | | | |
| 70 | Penrhyndeudraeth ** | Maes Parcio | ✓ | | | |
| 71 | Trawsfynydd** | | | | | |
| 72 | Tywyn | Maes Adloniant | | Pebbles Tea Rooms | | Cyngor Tref Tywyn yn cyfrannu ar gyfer 1 toiled / Tywyn Town Council are contributing towards 1 toilet |
| 73 | Tywyn | Sinema | | | | Cyngor Tref Tywyn yn cyfrannu ar gyfer 1 toiled / Tywyn Town Council are contributing towards 1 toilet |

**Mae'r cymunedau sydd wedi amlygu yn felyn wedi cytuno i gyfrannu ac yn aros yn agored / Communities that have agreed to contribute and will remain open**

**Mae'r toiledau mewn pinc o dan fygythiad i gau / Toilets under threat of being closed**

**Mae'r toiledau mewn glas i'w trosglwyddo o fewn blwyddyn / Toilets to be transferred within the year**

*** Toiled lle codi'r ffi / Toilets where a fee is charged**

**** Cyfraniad tuag at gostau gan Asiantaeth Cefnffyrdd / Trunk Road Agency contribution towards running costs**

**Atodiad 2**

**ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB UNEDAU CYFLEUSTERAU CYHOEDDUS**

Os am gymorth gyda llenwi'r templed yma, cysylltwch â Delyth G Williams, DelythGadlysWilliams@gwynedd.gov.uk, est. 2708

## 1) AWDUR (ON) YR ASESIAD

Gwyn Morris Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol

## 2) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD

6ed Gorffennaf 2015

## 3) FERSIWN A/NEU DDYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD

Disgwylir y bydd mwy nag un fersiwn o'r Asesiad. Dylid nodi'r gwahanol fersiynau er mwyn sicrhau cywirdeb.

2

## 4) PWRPAS YR UNED A MANYLION Y CYNNIG

Nodwch yn fyr bwrpas yr uned a manylion y cynnig dan sylw

Mae'r uned yn cynnal, rheoli a glanhau 73 o doiledau cyhoeddus ar draws y Sir, a chyfrifoldeb am reoli Cynllun Grant Toiledau Cyhoeddus ar gyfer 35 o fusnesau ar draws y Sir.

Mae'n bosib torri'r gyllideb gyfan gan nad oes gofyn statudol, ar hyn o bryd, i gynnal cyfleusterau cyhoeddus.

Byddai hyn yn golygu:

- Cau pob un o'r 73 toiled cyhoeddus ar draws y Sir gan ddiswyddo 39 o lanhawyr toiledau sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd;
- Effaith ar drigolion ac ymwelwyr o beidio cael cyfleusterau hwylus.

## 5) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD

Mae Cyngor Pobl Hŷn o'r farn y byddai torri'r gwasanaeth Toiledau Cyhoeddus yn cael effaith arnynt ac yn ei nodi fel blaenoriaeth. Mae yn wasanaeth hanfodol iddynt wrth fynd allan. Byddai diffyg toiledau cyhoeddus yn gallu effeithio ar annibyniaeth pobl hyn.

“adnodd pwysig iawn i bobl hŷn sydd ddim yn hoff o fynd i leoliadau preifat. Pobl hŷn yn fwy tebygol o gael materion iechyd sy’n gwneud toiledau yn bwysicach a dydy toiledau mewn tafarndai ddim o’r glanaf yn aml”

“Public toilets – basic human needs.  Needs to be free. Safety comes first – toilets we all need them”

Mae'r Grŵp Cynnal Gofalwyr Pwllheli o'r farn y byddai torri'r gwasanaeth Toiledau Cyhoeddus yn cael effaith a'r bobl anabl. Gwelir y gwasanaeth yma yn un hanfodol ar eu cyfer pan eu bod yn mynd allan.

Defnyddwyr CILDe Gwynedd (pobl anabl) yn nodi toiledau fel blaenoriaeth ond yn dweud eu bod yn fodlon talu amdano.

Rhai o ddisgyblion Ysgol Botwnnog hefyd yn dweud fod toiledau cyhoeddus yn bwysig:

- “Toiledau cyhoeddus, rhywbeth pwysig yn phob man ble fuasai twristiaid yn defnyddio’r tŷ bach? Angen prynu rhywbeth i ddefnyddio llawer o doiledau e.e. weatherspoons.”

Ar yr holiadur dywedodd pobl dros 50:

“Public toilets. Disproportionately affects the elderly, many of whom are prescribed diuretics, which already makes going out of the house difficult. Many elderly people have become in increasingly housebound due to lack of existing provision.  Any more would make them unable to go out at all.””

“...Also I use Gwynedd's public toilets in every town I visit so please don't close them!..........”

Dywedodd person anabl:

“Hello, I`m disabled and unable to drive so bus cuts affect my ability to travel also I use the public disabled toilets a lot, So cuts in these services will have marked impact on my quality of life “.

Nododd pobl eraill

“Closing any toilets would seriously affect people with diabetes who need to urinate at a distressing frequency throughout the day.  With no available toilet - where would they be supposed to 'pee' - in the street ? !!!   Toilet closures would be criminal!”

“With young children, I make regular use of the leisure centres, parks and library's. Families with young children are also dependant on public toilets.”

**6) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL**

Cynnwys unrhyw dystiolaeth perthnasol am gydraddoldeb, e.e. a fydd y newid yn effeithio un carfan o bobl yn fwy na'r lleill (e.e. pobl hŷn, merched, ayb?). Sut ydych chi'n gwybod hynny? Gall y dystiolaeth fod yn lleol, rhanbarthol neu genedlaethol e.e. adroddiad gan y Cynulliad, ymgysylltiad gyda grŵp penodol o bobl lleol, data am ddiolchiadau neu gwynion a.y.b.

Papur Gwyn Iechyd y Cyhoedd – Llywodraeth Cymru Hydref 2014 (Bwriadu creu deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn statudol i Cynghoraru Lleol gael strategaeth ar gyfer darparu toiledau cyhoeddus

Papur "Help the Aged": Ddim Unlle i fynd: Darpariaeth Cyfleusterau Cyhoeddus ym Mhrydain (Mai 2007) yn amlygu y gost cymdeithasol i bobl hyn ar y lleihad mewn cyfleusterau cyhoeddus:

12% o pobl hyn (1.2 miliwn) yn teimlo yn gaeth i'w cartref, mae 13% o pobl hyn (1.26 miliwn) ddim yn mynd allan mwy nag unwaith yr wythnos ac o gwmpas 100,000 byth yn mynd allan.

Mae ei thystiolaeth yn awgrymu bod y diffyg mewn cyfleusterau cyhoeddus yn ffactor cyfrannol sylweddol i'r unigedd o bobl hyn, gyda mwy na hanner o bobl hyn yn teimlo bod diffyg cyfleusterau cyhoeddus lleol yn nadu iddynt fynd allan mor aml a dymunent.

Ty'r Cyffredin Pwyllgor Dethol – Darpariaeth Cyfleusterau Cyhoeddus, Adroddiad deuddeg sesiwn 2007-08

Adran y Gymuned a Llywodraeth Leol: Gwella Mynediad y Cyhoedd i Gyfleusterau Cyhoeddus o Ansawdd – Canllaw Strategol

**7) PERTHNASEDD AC EFFAITH**

Rhaid dangos yw perthnasedd y cynnig i'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol ac i bob un o'r nodweddion gwarchodedig (grwpiau cydraddoldeb). Dylid nodi'n glir beth fydd yn effaith wir neu debygol. Efallai na fydd perthnasedd nag effaith i bob un o'r dyletswyddau na'r nodweddion , ond os canfyddir perthnasedd a/ neu effaith mewn unrhyw un neu fwy o gategorïau, yna bydd gofyn bwrw ymlaen gyda'r Asesiad

**7a)**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **Perthnasedd** A ydi'r toriad yn cael effaith ar y dyletswyddau isod? | **Yr effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | nac ydi | |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | ydi | Bydd rhai carfannau'n ei chael yn anodd i fynd allan ac felly'n profi problemau cael mynediad at wasanaethau, cymdeithasu ayb. |
| **Meithrin perthnasau da** | ydi | Gallai methu mynd allan effeithio ar gymdeithasu sy'n groes i'r dyletswydd i ffeithrin perthnasau da. |

**7b)**

| **Nodweddion** | **Perthnasedd** A ydi'r toriad yn cael effaith ar y nodweddion isod? | **Yr effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Hil** | nac ydi | Dim effaith gwahaniaethol. |
| **Anabledd** | Ydi | Effaith debygol – Anabledd<br>Mae elusennau a mudiadau sy'n cynrychioli pobl anabl o'r farn bod toriadau i gyfleusterau cyhoeddus yn cael effaith niweidiol iawn o safbwynt y byddent yn cael eu rhwystro neu'n ofnus o fentro o'i cartrefi oherwydd diffyg cyfleusterau ar gael yn y gymuned. Gall rhai anhwylderau neu amhariadau wneud yr effaith yn waeth. |
| **Rhyw** | nac ydi | Dim effaith gwahaniaethol. |
| **Ailbennu rhywedd** | nac ydi | Dim effaith gwahaniaethol. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | nac ydi | Dim effaith gwahaniaethol. |
| **Crefydd neu gred** | perthnasedd | Mewn nhermau cyffredinol ni fydd fwy o effaith ar y grwpiau yma na'r cyhoedd yn gyffredinol; ond gyda rhai crefydd buasai defnyddio cyfleusterau amgen preifat yn gyfyngedig wrth ddefnyddio rhai sefydliadau (e.e. tafarnau) gall fod yn erbyn rhai crefydd neu gred. |
| **Yr iaith Gymraeg** | nac ydi | Dim effaith gwahaniaethol. |

| | | |
|---|---|---|
| **Oedran** | Ydi | Effaith Debygol - Pobol Hyn<br>Mae elusennau a mudiadau sy’n cynrychioli pobl hyn o’r farn bod toriadau i gyfleusterau cyhoeddus yn cael effaith niweidiol iawn o safbwynt y byddent yn cael eu rhwystro neu’n ofnus o fentro o’i cartrefi oherwydd diffyg cyfleusterau ar gael yn y gymuned. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Ydi | Effaith debygol – Plant<br><br>Mae rhieni a gwarcheidwad o fabanod a blant ifanc angen gallu defnyddio cyfleusterau addas mewn cyfleusterau cyhoeddus merched a dynion pan yn ymweld a mannau cyhoeddus ac yn aml ar fyr rhybudd.   Y gall rhieni gyda fabanod a phlant ifanc, fod yn amharod i ddefnyddio cyfleusterau mewn tafarnau, sydd yn cyfyngu y dewis o gyfleusterau iddynt. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | nac ydi | Dim effaith gwahaniaethol. |

**8) MYND I’R AFAEL A’R EFFAITH**

| | |
|---|---|
| **a)** | **Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb**<br>Crynodeb o’r uchod<br><br>Mae’r lleihad mewn cyfleusterau yn cael effaith ar bawb. Ond nid yw’r cynnig yn targedu grwpiau penodol, ond gall rhai grwpiau cael ei effeithio yn fwy nag eraill oherwydd y toriad. Y gall y lleihad mewn cyfleusterau cyhoeddus gael effaith gaeth ar barodrwydd grwpiau penodol sef pobl hyn, plant a pobl anabl i gael mynediad at fannau cyhoeddus, cymdeithasu ac i siopa yn lleol. Mae hyn yn gallu arwain tuag at unigedd ac effaith niweidiol ar les unigolion. |
| **b)** | **Pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella’r effeithiau yma?**<br><br>Cadw elfen o’r gyllideb ar gyfer ol-ofalaeth yr adeiladau ac i ddatblygu trefn o ariannu busnesau lleol i gynnig defnydd o’u cyfleusterau ar gyfer y cyhoedd, tebyg i’r Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus Lleol ariannir yn bresennol gan Lywodraeth Cymru. Bydd yn rhaid ystyried anghenion y gwahanol nodweddion wrth wneud hyn.<br><br>Bydd angen i unrhyw ddarpariaeth ystyried yr angen am doiledau hygyrch a mannau newid. |
| **c)** | **A oes angen ail-ystyried y cynllun?**<br><br>Mae’r toriad arfaethedig hwn yn rhan o Gyfundrefn Toriadau’r Cyngor. Bydd yr holl wybodaeth, gan gynnwys barn o’r ymgysylltiad a’r asesiad effaith cydraddoldeb yma, yn cael eu hystyried gan y Cabinet a’r Cyngor Llawn wrth wneud penderfyniad ar yr hyn sydd i’w dorri. |

**ADRODDIAD I'R CABINET**
17 IONAWR 2017

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Dafydd Meurig

**Pwnc:** Troedffordd Ffordd Coetmor Bethesda

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd Wyn Williams – Pennaeth Adran Rheoleiddio [dros dro]

---

## Y penderfyniad a geisir

I gyfalafu £120,000 o danwariant yr Adran Rheoleiddio ar gyfer cyfraniad at welliant diogelwch drwy ddarparu troedffordd rhwng Plan Ffrancon a Ffordd Hen Barc ar hyd Ffordd Coetmor, Bethesda.

---

### Barn yr aelod lleol

' Yr wyf yn croesawu'r cynnig hwn yn fawr iawn oherwydd fy mod wedi bod yn ceisio cael troedffordd ar y ffordd hon rhwng Plas Ffrancon a Hen Barc ers nifer o flynyddoedd. Y mae'r ffordd yn hynod o brysur, yn arwain o Fethesda i Garneddi a Rachub ac yn ffordd bwsiau hefyd. Y mae llawer o gerddwyr yn ei defnyddio, gan fod Canolfan Hamdden Plas Ffrancon a Chlwb Criced a Bowlio Bethesda arni. Yn ddiweddar mae'r Cylch Meithrin a Dechrau'n deg wedi lleoli ym Mhlas Ffrancon, gan ychwanegu at ddefnydd y ffordd. Yn ogystal, mae Ysgol Dyffryn Ogwen ac Ysgol Gynradd Llanllechid bob ochr iddi, ac mae nifer helaeth o ddisgyblion yr ysgolion hyn yn ei defnyddio bob bore a phrynhawn. Nid oes troedffordd ar y ffordd, ac mae cerddwyr a cherbydau yn rhannu'r un gofod. Dros y blynyddoedd mae'r traffig ar y ffordd hon wedi cynyddu'n sylweddol. Byddai creu troedffordd arni yn gyfraniad mawr i ddiogelwch y rhan hon o'r ardal. Mawr obeithiaf y gellir gwireddu'r cynllun '

---

### CEFNDIR

1.1 Darparwyd adroddid dichonoldeb ar gyfer creu troedffordd newydd rhwng Plas Ffrancon a Ffordd Hen Barc ar hyd Ffordd Coetmor ym mis Gorffennaf 2011. Mae copi o'r adroddiad wedi ei atodi yn Atodiad 1.

1.2 Ers darparu'r adroddiad mae cyswllt wedi ei wneud gyda'r tir feddianwyr, a chytundeb mewn egwyddor wedi ei gyrraedd.

1.3 Cyflwynwyd bid am arian cyfalaf am £255,000 i wireddu'r cynllun i Lywodraeth Cymru dan thema 'Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau' ym mis Hydref 2011. Yn anffodus, nid oedd y bid hwnnw yn llwyddiannus. O'r adborth a dderbyniwyd credir bod y cynllun yn rhy gostus i'w gefnogi.

1.4 Mae'r aelod lleol yn ddiweddar wedi atgoffa'r Adran o'r angen cynyddol am ddarpariaeth troedffordd yn y lleoliad yma, ac yn adrodd bod pryderon yn y gymuned a bod diffyg darpariaeth hefyd yn rhwystro sawl rhag cerdded i'r ysgol a chanolfan hamdden.

**Y CYNLLUN A'I ARIANNU**

2.1 Mae'r cynllun yn gosod darpariaeth troedffordd newydd ar ran o rwydwaith ffyrdd ym Methesda sydd gyda llawer o ddefnydd gan gerddwyr, yn enwedig disgyblon yn cerdded i Ysgol Dyffryn Ogwen a sawl sydd yn cerdded i ganolfan hamdden Plas Ffrancon yn ogystal â phobl sydd yn cerdded i'r clwb criced a lawnt bowlio ger Ffordd Coetmor. Nid oes darpariaeth troedffordd o gwbl rhwng Plas Ffrancon a Ffordd Hen Barc ar hyn o bryd, ac fe fyddai darpariaeth o'r fath yn welliant diogelwch sylweddol yn ogystal â bod yn adnodd gwerthfawr dros ben i'r gymuned.

2.2 Mae creu troedffordd ar Ffordd Coetmor yn un rhan o strategaeth ehangach i ehangu a gwella llwybrau cerdded a beicio yn ardal Bethesda. Yn y flwyddyn ariannol hon mae'r Adran wedi llwyddo denu arian tuag at wella'r cyswllt beicio a cherdded ar Lon Las Ogwen rhwng Tregarth a Bethesda. Fe fyddai creu troedffordd ar hyd Ffordd Coetmor yn gwella cysylltiadau rhwng Rachub a Bethesda gyda buddion amlwg i gerddwyr i'r Ysgolion lleol, y ganolfan hamdden a'r gymuned yn lletach

2.3 Mae gweithdy diweddar wedi ei gynnal gyda'r Cyngor Cymuned lle adnabuwyd rhwydwaith o droedffyrdd angen eu darparu i gynnig dewis teithio llesol i'r gymuned. O'r holl gynlluniau cytunwyd mai creu troedffordd newydd ar hyd Ffordd Coetmor oedd y flaenoriaeth oherwydd y rhesymau canlynol:

- Cyswllt diogel rhwng Ysgol Gynradd Llanllechid ac Ysgol Dyffryn Ogwen
- Cyswllt diogel rhwng yr ysgolion a chanolfan hamdden Plas Ffrancon, cae bowlio a chae criced Llanllechid
- Adnodd diogel i alluogi'r gymuned letach i gael mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau lleol a chryfhau'r cyswllt rhwng Bethesda a Rachub.

2.4 Gyda'r cyflwyniad o'r ddeddf Teithio Lesol 2013 yn ôl yn 2015, mae dyletswydd statudol a'r bob awdurdod lleol i ddarparu llwybrau teithio llesol. Mae ardal Bethesda wedi ei gynnwys o fewn y rhestr o brif ardaloedd anheddiad sy'n blaenoriaethu'r ardaloedd sy'n gymwysedig a chynlluniau Teithio Llesol. Bydd y cynllun hwn nid yn unig yn cynnig darpariaeth sy'n cysylltu cyfleusterau hamdden ac addysgol gyda gweddill y gymuned ond hefyd yn cyfrannu at ein dyletswydd statudol o dan y Ddeddf Teithio Llesol 2013.

2.5 Mae rywfaint o waith pellach wedi ei wneud yn ddiweddar ar amcan bris i'r cynllun a chredir bod angen £280,000 i wireddu'r cynllun erbyn hyn wrth ystyried costau tiroedd, dyluniad yn ogystal ag adeiladu'r gwelliant.

2.6 Mae'r cynllun hwn yn llawer mwy aeddfed na chynlluniau eraill o'r fath yn y Sir. Credir bod y cynllun yn cyrraedd y meini prawf angenrheidiol i ddenu grant gan Lywodraeth Cymru, ond wrth gwrs fe fydd cyfraniad ariannol iach gan y Cyngor yn cryfhau'r cais am arian. Mae'r Llywodraeth yn gofyn am gyfraniad o leiaf 10% gan Awdurdodau Lleol tuag at eu bidiau cyfalaf. Fel rheol mae'r Adran yn cynnig cyfraniad staff yr Adran fel cyfraniad, ond ar gynlluniau mwy costus debyg bod angen fwy o berswâd ar y sawl sy'n asesu'r bidiau. Fel y gwelwyd gyda bid cyfalaf a gyflwynwyd am Lon Las Ogwen, mae cynnig cyfraniad cyfalaf mwy sylweddol yn gallu dwyn ffrwyth, yma derbyniwyd cyfalaf o £280,000 pan gynigwyd £200,000 o gyfalaf y Cyngor fel cyfraniad.

2.7 Dyma mewn effaith sydd dan sylw yma, bod yr Adran yn cael yr hawl i gyfalafu £120,000 o danwariant yr Adran fel modd o gryfhau ein bid am arian pellach gan y Llywodraeth i wireddu'r cynllun. Disgwylir bydd bid am yr arian yn cael ei gyflwyno gan yr Adran yn ystod mis Chwefror 2017.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
"Deallaf gan yr adran bod ardal Bethesda ymysg yr ardaloedd sydd i gael blaenoriaeth ar gyfer cynlluniau teithio llesol a bod yr adnoddau ar gyfer gwireddu hwn yn ei le. Dim byd pellach i'w ychwanegu."

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid:**
Cadarnhaf fod gan yr Adran Rheoleiddio danwariant / cronfeydd wrth gefn digonol i'w gynnig fel arian cyfatebol er mwyn cryfhau'r cais am arian gan Lywodraeth Cymru. Credaf fod hwn yn gyfle da i ddenu grant i ariannu cynllun sy'n amlwg wedi bod yn ddymuniad llawer o drigolion yr ardal ers rhai blynyddoedd. Rhagwelir bydd y cynllun yn lleddfu pryderon drwy welliant diogelwch sylweddol. Os yn llwyddiannus, bydd cyfraniad o £120k gan y Cyngor yn creu ased gwerth £280k sydd i'w groesawu.

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1:** Adroddiad Dichonoldeb

**Lôn Coetmor**
**Cyswllt Troedffordd**

## Adroddiad Dichonoleb



Dyddiad: Gorffennaf 2011

## CYNNWYS


| | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 1.0 | Cyflwyniad | 3 |
| 2.0 | Cyflwr Presennol | 3 |
| 3.0 | Cyfyngiadau ac Ystyriaethau | 4 |
| 4.0 | Safonau Dylunio | 5 |
| 5.0 | Cynigion | 5 |
| 6.0 | Casgliadau ac Argymhellion | 6 |
| 7.0 | Ymchwiliadau Pellach | 7 |

**Atodiad A:** Cynllun y Llinellau Mesur
Darlun rhif GA-LCFL/CH

**Atodiad B:** Cynllun o'r Bwriad
Darlun rhif GA-LCFL/PRO

**Atodiad C:** Darluniau Manwl Safonol
Darlun rhif GA-LCFL/CS

**Atodiad D:** Ffotograffau o Gyflwr Presennol y Safle

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Yn dilyn cais gan y Cyngor Cymuned ynglŷn â'i bryderon am faterion diogelwch ffordd wrth gerdded rhwng stad Maes Coetmor, Canolfan Chwaraeon Plas Ffrancon tuag at ardal yr Hen Barc ger pentref Rachub, cytunwyd i gynnal ymchwiliad i weld os fyddai'n bosib adeiladu troedffordd.

1.2 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu dyluniad dechreuol i ehangiad y droedffordd a'r costau ar gyfer gweithredu'r cynllun.

1.3 Stad Penrhyn sy'n berchen y tir ble lleolir y droedffordd arfaethedig ac maent wedi cytuno mewn egwyddor i roi'r stribyn 2.0 metr o led sydd ei angen, yn rhad ac am ddim gyda'r amod fod wal derfyn gerrig newydd yn cael ei hail-sefydlu fel rhan o derfyn newydd y ffordd.

## 2.0 Cyflwr Presennol

2.1 Lleolir y safle ar ffordd ddi-ddosbarth a adwaenir fel Ffordd Newydd Coetmor ym mhentref Bethesda.

2.2 Mae hyd yr ardal dan sylw yn ymestyn o'r droedffordd bresennol ger pen gogleddol maes parcio Canolfan Chwaraeon Plas Ffrancon i'r gyffordd gyda ffordd dosbarth III a adwaenir fel yr Hen Barc, ac mewn coridor 10 metr bob ochr i'r briffordd.

2.3 Mae'r aliniad fertigol yn parhau yn gyson ar hyd rhan y briffordd ar uchder o 185 metr (+/1 1.0m) uwchben ODN (Datwm Ordnans Newlyn). Er hynny, mae gwahaniaeth yn y lefelau o tua 1.0 metr rhwng y briffordd a'r cae a leolir rhwng CH 300.00 a CH 390.00. Mae'r aliniad llorweddol hefyd yn parhau yn gyson ar hyd safle'r arolwg gyda'r briffordd yn rhedeg mewn llinell syth.

2.4 Mae dau gwlfert ar ffurf pibell yn bodoli ar safle'r arolwg, wedi eu lleoli yn CH 5.00 a CH 250.00 gyda diamedr o 400mm a hyd o tua 6 metr, sydd yn rhedeg o dan y briffordd ac a ddefnyddir i ddibenion dyfrhau.

2.5 Ar safle'r arolwg mae Ffordd Newydd Coetmor yn gwasanaethu cyfanswm o naw eiddo sef:

- Andy`s Tyre Service – CH 5.00 , ochr gogledd gorllewinol y briffordd
- Clwb Criced a Bowlio Bethesda - CH 270.00, ochr gogledd gorllewinol y briffordd
- Park Villa – (yr un fynedfa a'r Clwb Criced)
- Crud yr Awel – (yr un fynedfa a'r Clwb Criced)
- Crosswinds – (yr un fynedfa a'r Clwb Criced)
- Bronydd – CH 330.00, ochr de dwyreiniol y briffordd
- Bodafio – CH 340.00, ochr de dwyreiniol y briffordd
- Tyddyn Uchaf – CH 400.00, ochr gogledd gorllewinol y briffordd

Yn ogystal, mae mynedfa amaethyddol yn CH 10.00.

2.6 Mae hyd y briffordd yn ardal yr astudiaeth yn dod o dan gyfyngiad 30 mya y Pentref. Dangosodd yr arolwg cyflymder a gynhaliwyd yn 2005 fod y 85% o gerbydau yn trafaelio ar gyflymder o 29.69 mya neu lai. Mae nodweddion tawelu traffig yn bodoli yn CH42.00 a CH 140.00 ar ffurf clustogau arafu.

2.7 Defnyddir y tir sydd o safon amaethyddol yng nghefn terfyn y briffordd, ble mae bwriad y droedffordd yn ymestyn iddo, i bori gyda thriniaethau terfynau o waliau cerrig ar hap heb fortar ynghyd â ffens i atal da byw. Mae eu cyflwr yn wael ac mae angen eu cynnal a'u cadw.

2.8 Mae deg Onnen gyffredin o faint canolig (fraximus excelsior) yn tyfu ar hyd llwybr y droedffordd rhwng CH20.00 a CH 315.00 ar ochr de dwyreiniol y briffordd.

## 3.0 Cyfyngiadau ac Ystyriaethau

3.1 Efallai y bydd angen caniatâd Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer unrhyw strwythur mewn neu ger unrhyw gyrsiau dŵr dan Ddeddf Draenio Tir 1991

3.2 Efallai y bydd angen caniatâd cynllunio dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

3.3 Dengys ffynonellau lleol fod cais cynllunio ar fin cael ei gyflwyno ar gyfer y tir a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Andy's Tyre Service. Os yw'n cael ei ganiatáu gallai hyn fraenaru'r tir i geisiadau yn y dyfodol i weddill y tir mewn-lenwi ar hyd y briffordd,

3.3 (parhad) ble gellid gosod amodau i wella'r briffordd dan adran 278 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

3.4 Mae Stad Penrhyn wedi cytuno mewn egwyddor i roi'r stribyn 2 metr o led ar hyd safle'r arolwg ble fo hyn yn gymwys. Er hynny, byddai angen 2 metr ychwanegol o led ar sail dros dro i roi lle i'r gwaith adeiladu a gellid gwneud hyn dan gytundeb perchennog y tir a byddai angen i'r contractwr gywiro unrhyw niwed i'r tir gan atal y safle rhag da byw yn ystod y cyfnod adeiladu.

## 4.0 Safonau Dylunio

4.1 Bydd unrhyw ddyluniad troedffordd arfaethedig yn ceisio cadw lled gweithio o 1.5 metr ar hyd y cyfan o safle'r arolwg, sy'n cydymffurfio gydag egwyddorion anghenion Cerddwyr fel a bennir ym Mhennod 5 o'r Llawlyfr i Strydoedd a Phennod 6 paragraff 6.2 o NCT (Nodyn Cyngor Technegol: Trafnidiaeth). Er hynny, ble mae cyfyngiadau ffisegol yn bodoli byddai lled gwaith gostyngol hefyd yn cael ei weithredu.

4.2 Bydd yr holl droedffyrdd arfaethedig a'r safonau dylunio pafin yn cydymffurfio gyda D.M.R.B. (Design Manual for Roads and Bridges) Cyfrol 7, Rhan 2 ac unrhyw arwyddion ffyrdd a marciau ffyrdd yn cydymffurfio gyda'r safonau fel y pennwyd yn y T.S.R.G.D (Traffic Signs Regulations and General Directions) 2002

4.3 Bydd unrhyw ddyluniadau cwlfert arfaethedig yn cydymffurfio gyda'r safonau fel a nodir yn D.M.R.B. (Design Manual for Roads and Bridges) Cyfrol 4, Adran 2 rhan 7

4.4 I ddibenion yr adroddiad hwn mae rhai mesuriadau a gwybodaeth wedi dod o ddata GIS

## 5.0 Bwriad

5.1 Rhaid nodi nad yw'r holl opsiynau a gynigiwyd yn cynnwys darpariaethau i adleoli unrhyw wasanaethau cyfleustodau, costau cyfreithiol nac unrhyw waith addasu posib.

5.2 *Bwriad* – O CH 0.00 i CH 315.00, tynnu'r wal gerrig bresennol ar ochr de orllewinol y briffordd a datblygu stribyn lled 2 fetr o dir o derfyn y briffordd i'r tir amaethyddol, adeiladu troedffordd lled 1.5 metr a wal gerrig sych ar hap 0.5 metr o led a 1.5 metr o uchder. Yn CH 315.00 adeiladu darn 2 metr o led sy'n ymestyn allan ac yn tapro i'r droedffordd newydd a'r llain ym mynedfa Bronydd, bydd hyn yn lleihau lled y gerbydlon i 3.1 metr ac yn creu system flaenoriaeth gan ddal i gynnal darpariaeth troedffordd. Byddai man croesi yn cael ei gosod ar ben gogleddol y darn sy'n ymestyn allan. Bydd y man croesi yn cysylltu â darpariaeth troedffordd lled 1.5 metr gaiff ei adeiladu o CH 325.00 i CH 390.00 drwy dynnu'r wal gerrig bresennol, adeiladu strwythur atgyfnerthu h.y. basgedi caergawell (1 metr o uchder a 1.5 metr o led) i wrthweithio'r gwahaniaeth yn lefelau'r briffordd a'r tir amaethyddol sy'n gorwedd yn gyfochrog. Bydd wal gerrig ar hap (0.5 o led a 1.5 metr o uchder) hefyd yn cael ei hadeiladu yn gyfochrog â'r droedffordd newydd. Byddai adeiladwaith y droedffordd newydd yn peidio yn CH 390.00 ble byddai marciau'r ffordd yn cael eu gosod i amlygu rhaniad cerbydau a cherddwyr o CH 390.00 i CH 410.00

**Amcangyfrif y gost Adeiladu: £250,000.00** ***(heb gynnwys unrhyw gostau ychwanegol fel y nodwyd ym mharagraff 5.1)***

## 6.0 Casgliadau ac Argymhellion

6.1 Bydd y bwriad yn darparu troedffordd ddigonol o safon uchel ar y llinell a ddymunir i'r defnyddwyr gan roi llwybr diogel ar hyd Ffordd Newydd Coetmor.

6.2 Bydd y bwriad yn achosi newid i osodiad presennol y briffordd o ran lled y gerbydlon rhwng CH 315.00 a CH 325.00 oherwydd adeiladwaith y system flaenoriaeth; ac felly gellid tybio y bydd gan y cynigion effaith sylweddol ar ei gyflymder *tile* 85%.

6.3 Byddai'r bwriad angen cymryd tir o stad sydd mewn eiddo preifat sef tua 760 m² o dir. Mae'r stad dan sylw yn eiddo i Stad Penrhyn ac maent wedi cytuno mewn egwyddor i roi stribyn 2 metr o led ar hyd safle'r arolwg ble fo hyn yn gymwys, bydd hyn yn gostwng cost gyffredinol posib y cynllun yn arw.

6.4 Byddai'r rhan gyda marciau ffordd rhwng CH 390.00 a CH 410.00 yn ceisio tynnu sylw gyrwyr i symudiadau cerddwyr gan barhau i gadw lled y briffordd pan nad oes cerddwyr yn bresennol. Er nad yw'r ateb yma'n un delfrydol o safbwynt diogelwch ffordd, dyma yw'r unig opsiwn posib sydd ar gael oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd

gan leoliad eiddo Tyddyn Uchaf a lled bresennol y briffordd.

## 7.0 Ymchwiliadau Pellach

7.1 Byddai angen trafodaethau gyda'r perchnogion tir perthnasol i weithredu'r cynllun.

7.2 Byddai'n ddoeth derbyn canllawiau gan yr Awdurdod Cynllunio; i ymchwilio os fyddai angen caniatâd cynllunio ar gyfer y droedffordd neu os fyddai modd awdurdodi'r bwriad drwy'r llwybr Datblygiad a Ganiateir.

.

7.3 Byddai angen caniatâd gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer y cwlfertau dan Ddeddf Draenio Tir 1991.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cabinet Cyngor Gwynedd** |
| **DYDDIAD** | **17 Ionawr 2017** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas** |
| **SWYDDOG** | **Arwyn Thomas** |
| **TEITL YR EITEM** | **Adolygu darpariaeth addysg cynradd dalgylch Bangor** |

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw gofyn am yr hawl i gychwyn trafodaethau lleol yn unol a'r adroddiad ynglyn ag adolygu darpariaeth addysg gynradd ym Mangor.

**Barn yr Aelodau Lleol:**

Sylwadau'r Aelodau i ddilyn.

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn cymeradwyaeth ar gyfer 6 prosiect o fewn Band A Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif. Disgwylir bydd pob un yn cael eu cwblhau ar amser. Mae'r Llywodraeth yn ogystal wedi hysbysu Awdurdodau Lleol ynglŷn â'u capasiti i gyflawni prosiectau ychwanegol oddi mewn Band A (h.y. cyn diwedd Mawrth 2019).

1.2 Mae'r Adran Addysg wedi adnabod Bangor fel dalgylch sydd angen sylw brys oherwydd nifer o ffactorau yn ymwneud â phryderon am addysg gynradd yn yr ardal ers rhai blynyddoedd.

1.3 Yn Rhagfyr 2014 derbyniwyd llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru yn gofyn am fanylion (amlinellol) cryno a chost prosiectau strategol yn ein hardal oedd angen eu cwblhau o fewn amserlen Band B ar gyfer Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif. Bydd cyfnod Band B yn rhedeg rhwng 2019-24. Adnabuwyd dalgylch Bangor fel dalgylch a fyddai'n derbyn ystyriaeth pryd y byddai'r Awdurdod yn paratoi ceisiadau i'r dyfodol.

1.4 Mae sefyllfa ysgolion Bangor, yn arbennig yr ysgolion cynradd yn ardaloedd Penrhosgarnedd a Choed Mawr, wedi newid yn ddiweddar ac wedi codi pryder yn lleol ac yn yr Adran Addysg.

1.5 Mae 2 ysgol gynradd yn ardal Penrhosgarnedd dros gapasiti. Ym mis Medi 2016, roedd Ysgol Y Faenol 20 dros gapasiti ac Ysgol Y Garnedd 106 dros gapasiti.

1.6 Mae datblygiad tai newydd yn Goetre Uchaf, Penrhosgarnedd yn golygu bydd 245 o anheddau yn cael eu hadeiladu gydag amcangyfrif y bydd dros 90 o blant oed cynradd a 70 oed uwchradd yn byw ynddynt.

1.7 Yn sgil yr heriau a restrwyd uchod, mae'r Adran Addysg o'r farn fod angen cychwyn trafod dyfodol darpariaeth addysg gynradd ym Mangor yn fuan gan fyddai oedi tan gyfnod Band B (2019-24) yn gallu arwain at sefyllfa argyfyngus mewn rhai o ysgolion y dalgylch.

## 2. RHESYMAU DROS YSTYRIED Y PENDERFYNIAD

### 2.1 Cynnydd ym mhoblogaeth disgyblion a niferoedd presennol mewn ysgolion

2.1.1 Mae datblygiad tai newydd yn Goetre Uchaf, Penrhosgarnedd yn golygu bydd 245 o anheddau yn cael eu hadeiladu gydag amcangyfrif y bydd o dros 90 o blant oed cynradd a 70 oed uwchradd yn byw ynddynt.

2.1.2 Y ddwy ysgol gynradd agosaf i Goetre Uchaf ydi Ysgol Y Faenol ac Ysgol Y Garnedd. Gan fod amcangyfrif y bydd y datblygiad tai yn golygu dros 90 o blant oed cynradd ychwanegol yn yr ardal, bydd mwy o bwysau ar gynhwysedd y 2 ysgol leol i dderbyn plant. Mae'r dwy ysgol yn barod yn sylweddol dros gapasiti, gyda Ysgol Y Faenol 20 ac Ysgol Y Garnedd 106 dros gapasiti.

2.1.3 Mae digon o gapasiti yn y 2 ysgol uwchradd ar gyfer unrhyw blant ychwanegol fydd yn byw yn y tai newydd.

2.1.4 Mae'r datblygwr wedi ymrwymo i gyfrannu £1,115,387 tuag at ddatblygu darpariaeth gynradd ychwanegol yn yr ardal fel ymateb i'r cynnydd yn yr angen am lefydd oherwydd y tai ychwanegol. Bydd angen i unrhyw ddarpariaeth gynradd newydd ymateb i'r angen am y llefydd ychwanegol yma.

2.1.5 Mae dwy ysgol gynradd gyda niferoedd isel o ddisgyblion, sef Ysgol Coed Mawr (25) ac Ysgol Glanadda (50).

2.1.6 Mae pryderon na fydd capasiti o 210 (heb feithrin) yn ddigonol ar gyfer Ysgol Glancegin.

2.1.7 Mae'r tabl isod yn dangos capasiti pob ysgol gynradd a niferoedd disgyblion yn Medi 2016.

| | **Niferoedd Medi 2016** | **Capasiti** | **% llefydd gweigion** |
|---|---|---|---|
| Ysgol y Garnedd | 316 | 210 | 0% |
| Ysgol y Faenol | 206 | 186 | 0% |
| Ysgol Cae Top | 210 | 210 | 0% |
| Ysgol Babanod Coed Mawr | 25 | 56 | 55% |
| Ysgol Glanadda | 50 | 81 | 38% |
| Ysgol Hirael | 138 | 186 | 26% |
| Ysgol Llandygai | 133 | 157 | 15% |
| Ysgol Ein Harglwyddes | 120 | 113 | 0% |
| Ysgol Glancegin | 204 | 210* | 3% |

*capasiti o Medi 2017 ymlaen

### 2.2 Niferoedd disgyblion a llefydd gweigion (uwchradd)

2.2.1 Fel y gwelir o'r tabl isod roedd 1,213 o ddisgyblion yn mynychu Ysgol Friars a 465 yn mynychu Ysgol Tryfan yn Medi 2016.

| | **Niferoedd Medi 2016** | **Capasiti** | **% llefydd gweigion** |
|---|---|---|---|
| Ysgol Friars | 1,213 | 1,328 | 9% |
| Ysgol Tryfan | 465 | 628 | 26% |

2.2.2 Dros y 5 mlynedd diwethaf, ar gyfartaledd, trosglwyddwyd 63% o ddisgyblion holl ysgolion cynradd Bangor i Ysgol Friars gyda 34% yn trosglwyddo i Ysgol Tryfan.

2.2.3 Yn ogystal dros y 5 mlynedd diwethaf, ar gyfartaledd, roedd dros 80% o ddisgyblion ysgolion Glanadda, Y Faenol, Cae Top ac Ein Harglwyddes yn trosglwyddo i Ysgol Friars tra bod dros 80% o ddisgyblion Ysgol Y Garnedd yn trosglwyddo i Ysgol Tryfan. O'r 3 ysgol arall roedd rhwng 54-66% yn trosglwyddo i Ysgol Friars.

**2.3 Cyflwr**

Ar y cyfan, mae cyflwr ysgolion dalgylch Bangor yn weddol ac wedi eu categoreiddio yn A neu B. Serch hynny mae arolygiad diweddar o gyflwr ac addasrwydd Ysgol Y Garnedd gan gwmni 'Faithful & Gould' ar ran Llywodraeth Cymru, yn datgan fod angen gwaith gwella sylweddol er mwyn codi safon cyflwr yr ysgol hwnnw o C- i B.

**2.4 Safonau addysg**

2.4.1 Mae recriwtio i swydd Pennaeth yn ysgolion Coed Mawr a Glanadda wedi profi'n eithriadol o heriol ac mae hynny wedi creu ansefydlogrwydd dros nifer o flynyddoedd. Ar hyn o bryd mae trefniant rhan amser, dros dro mewn lle hyd ddiwedd y flwyddyn academaidd hon.

2.4.2 Mae Ysgol Coed Mawr wedi ei gategoreiddio'n oren ac Ysgol Glanadda yn goch yng nghategoreiddio perfformiad gan Lywodraeth Cymru am 2015. Yn ychwanegol, derbyniodd Ysgol Glanadda 'anfoddhaol' am ei rhagolygon gwella'r ysgol yn dilyn arolygiad Estyn yn 2013. Yn dilyn arolygiad dilynol yn 2014 dyfarnwyd fod:

*'Ysgol Glanadda wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Chwefror 2013. O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu Ysgol Glanadda oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.'*

2.4.3 Bu i Ysgol Babanod Coed Mawr dderbyn barnau 'digonol' yn hei arolwg Estyn yn 2015. Yn dilyn ymweliad monitro dilynol Estyn yn 2016 nodwyd bod:

*'Ysgol Babanod Coed Mawr wedi gwneud cynnydd da o ran y materion allweddol ar gyfer gweithredu yn dilyn ymweliad Estyn yn Mehefin 2016. Byddwn yn awr yn tynnu enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen iddynt gael eu monitro gan Estyn. Ni fydd mwy o ymweliadau monitro gan Estyn mewn perthynas â'r arolygiad hwn.'*

2.4.4 Roedd pob ysgol arall ym Mangor wedi derbyn 'da' neu 'digonol' yn dilyn eu harolygon Estyn diweddaraf. Mi fydd unrhyw ddatblygiad cynradd newydd yn anelu i godi safonau addysgol yn yr ardal.

**2.5 Anghenion Dysgu Ychwanegol**

2.5.1 Mae Adolygiad Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn yn nodi'r angen am ganolfannau i wella adnoddau ar gyfer plant gydag anhwylderau lleferedd, iaith a chyfathrebu a'r rhai gydag anhwylderau cyfathrebu cymdeithasol.

2.5.2 Mae Canolfannau Anhwylder Iaith yn cynnig darpariaeth sydd yn ffocysu ar anhwylderau iaith benodol, ble mae agweddau o ddealltwriaeth, mynegiant, lleferydd a chof tymor byr disgybl yn parhau i ddatblygu mewn modd problemus er gallu di-iaith addas.

2.5.3 Mae Canolfannau Cyfathrebu Cymdeithasol yn ddarpariaeth sydd yn ffocysu ar anawsterau gyda defnydd cymdeithasol o iaith, sgiliau rhyngweithio a chyfathrebu, anghenion

ymddygiadol sydd yn deillio o anawsterau cyfathrebu cymdeithasol a dealltwriaeth sefyllfaoedd cymdeithasol. Mae'r ddarpariaeth yn addas ar gyfer plant sydd ag anghenion o'r math yma (h.y. nid o reidrwydd a diagnosis o Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth).

## 3. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

### 3.1 Cais am arian Llywodraeth Cymru

3.1.1 Fel rhan o Band A Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif mae'r Cyngor eisoes wedi sicrhau cyfraniad o £2,555,000 gan Lywodraeth Cymru tuag at adeiladu ysgol newydd ar gyfer 240 (yn cynnwys 30 lle meithrin) o ddisgyblion ym Maesgeirchen yn lle'r Ysgol Glancegin presennol. Rhagwelir bydd y gwaith adeiladu wedi ei gwblhau ar gyfer tymor yr Hydref 2017.

3.1.2 Cyflwynwyd cais ym mis Medi am £12,730,000 gan ofyn am gyfraniad o £6,365,000 gan y Llywodraeth. Cymeradwywyd y cais hwn mewn egwyddor ym mis Hydref 2016. Bydd cyfraniad Cyngor Gwynedd wedi ei gwrdd trwy gyfraniad £1,115,387 gan gwmni Redrow (datblygiad Goetre Uchaf), £4,500,000 o arian Cynllun Rheoli Asedau, ac unrhyw dderbyniadau o werthu safleoedd hyd at £749,613.

3.1.3 Bydd angen cyflwyno achos fusnes (model busnes 5 achos) llwyddiannus er mwyn sicrhau cyfraniad Llywodraeth Cymru.

### 3.2 Amserlen gwario cyfraniad Llywodraeth Cymru

Gwyddom fod nifer sylweddol o opsiynnau posib ar gyfer dyfodol addysg plant ym Mangor a bydd yr opsiwn ffafriedig yn dod i'r amlwg wrth i'r drafodaeth fynd rhagddi. Gwyddom hefyd fod yn rhaid cwblhau gwario arian grant Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif y Llywodraeth erbyn Mawrth 2019. Golyga hyn fod angen gwario £6,365,000 mewn ychydig dros ddwy flynedd o amser sy'n amserlen heriol iawn. Os am gyrraedd y nôd yma, does dim dewis ond cychwyn ar y gwaith yn syth, gyfochrog â'r drafodaeth ar yr opsiynnau addysgol.

Gwyddom i sicrwydd na allwn barhau yn y tymor canolig i addysgu plant yn adeilad presennol Ysgol Y Garnedd oherwydd nad yw'n ddigon o faint i ymdopi â'r niferoedd plant presennol hab son am allu cartrefu unrhyw blant ychwanegol a ddaw i fyw i'r ddinas yn sgil y datblygiadau tai arfaethedig.

Gwyddom hefyd fod angen cryn waith i ddelio gydag ambell ddosbarth is-safonol ar safle Ysgol Y Faenol yn ogystal â'r angen i wella diogelwch y fynedfa bresennol i'r safle.

Nid yw'r drafodaeth ar opsiynnau addysgol yn debygol o effeithio ar y ddau ofyn uchod ac felly gallwn gychwyn ar y gwaith dylunio yn syth heb fod yn rhagfarnu ar ganlyniad y trafodaethau yn lleol. Mae pa bynnag fodel neu opsiynnau a ddaw i'r amlwg yn debygol iawn o orfod cynnwys adeiladau ysgol ar gyfer plant sydd ar hyn o bryd yn safleoedd Ysgol Y Garnedd ac Ysgol Y Faenol ac felly, er mwyn lleihau'r risg o golli'r arian grant, bydd rhaid symud ymlaen yn ddi oed gyda'r gwaith dylunio ar gyfer y ddwy safle yma.

**3.3 Strategaethau Addysg**

Mae Cyngor Gwynedd wedi creu 2 ddogfen strategol yn y blynyddoedd diweddar yn amlinellu cyfeiriad strategol ar gyfer addysg yn y sir. Byddwn yn defnyddio'r strategaethau hyn yn ogystal â'r materion sydd wedi eu hadnabod yn lleol fel sail ein trafodaethau.

3.3.1 Strategaeth '*Addysg Gynradd 'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'* sydd yn gosod gweledigaeth, amcanion ac egwyddorion clir ar gyfer y gwaith o adolygu trefniadaeth ysgolion y sir. Prif amcanion y strategaeth yw i:

- Gynnig y profiadau a'r cyfleoedd gorau posibl i blant y sir drwy sicrhau dosbarthiadau o faint addas ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel yn ein hysgolion;
- Anelu i hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg fel cyfrwng addysgol a chymdeithasol wrth roi cynigion newydd yn eu lle ar gyfer addysg gynradd y Sir;
- Ymateb i anghenion a chyfleon yn y gyfundrefn addysg gynradd bresennol drwy fod yn rhagweithiol a chreadigol, gan weithio ar y cyd gydag eraill tuag at gynllun hir dymor fydd yn gynaliadwy ac ymarferol;
- Gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael – yn ddynol, technolegol, ariannol – fel bod plant yn cael y budd mwyaf o wariant y sir ar addysg;
- Creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant ac athrawon y sir drwy wella cyfleusterau ac adeiladau;
- Datblygu ein hysgolion i fod yn sefydliadau sy'n ganolbwynt i weithgareddau cymunedol.

3.3.2 '*Rhaglen Strategol - Tuag at 2025*' sy'n creu sylfaen strategol i osod cyfeiriad i ddatblygiadau ym maes addysg a hyfforddiant yng Ngwynedd. Prif amcanion y strategaeth yma yw i:

- Gynnig y profiadau dysgu gorau posibl - a hynny i holl ddysgwyr y sir, gan sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang, yn ogystal â'r cwricwlwm allgyrsiol, sy'n eu hysgogi i ddysgu a deall ac yn arwain at wella safonau, gan wneud y defnydd gorau posibl o Dechnoleg Gwybodaeth;
- Hyrwyddo a chefnogi iechyd corfforol a lles emosiynol plant a phobl ifanc - gan sicrhau bod y prif sefydliadau addysg a hyfforddiant yn y sir yn chwaraewyr allweddol wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau integredig i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd;
- Paratoi pobl ifanc ar gyfer y byd gwaith, gan wneud yn sicr eu bod yn cael eu harfogi efo'r mathau cywir o sgiliau ar gyfer cyflogaeth, yn enwedig o fewn yr economi leol;
- Creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant, pobl ifanc ac athrawon y sir, a hynny yn bennaf drwy wella cyfleusterau ac adeiladau, a sicrhau bod ysgolion wedi'u cyflunio i ymateb i'r newid yn arferion prosesau addysgu a dysgu cyfoes, yn enwedig wrth ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth;
- Datblygu sefydliadau addysgol o'r math cywir (cynradd ac uwchradd) i fod yn rhai sy'n ganolbwynt i wasanaethau cyhoeddus a chymunedol lle'n briodol - a chyfoethogi profiadau i blant a phobl ifanc wrth iddynt ddod yn rhan o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i'r gymuned ehangach;
- Cryfhau'r Iaith Gymraeg - fel cyfrwng addysgol a chymdeithasol - a galluogi plant a phobl ifanc gael mynediad at addysg a hyfforddiant dwyieithog.

**3.4 Datblygiadau i'r dyfodol**

3.4.1 Ers i gais cynllunio Pen y Ffridd, Bangor gael ei wrthod gan Bwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd mae'r datblygwr wedi apelio yn erbyn y penderfyniad ac mae Llywodraeth Cymru yn ystyried yr apêl. Os fydd y penderfyniad yn cael ei wrthdroi yna bydd angen darganfod lle ychwanegol ar gyfer rhyw 146 o blant oed cynradd a 113 uwchradd.

3.4.2 Mae digon o le yn y 2 ysgol uwchradd ar gyfer plant ychwanegol ond bydd angen edrych ar ddarganfod lle i unrhyw blant oed cynradd yn ysgolion cyfagos i'r datblygiad. Er mwyn gwneud hyn bydd angen ystyried y mater wrth drafod anghenion yr ardal i'r dyfodol.

3.4.3 Mae'r datblygwr wedi ymrwymo i gyfraniad o £907,018 tuag at ddatblygu darpariaeth gynradd ychwanegol yn yr ardal os bydd y datblygiad yn mynd yn ei flaen.

**4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

4.1 Os bydd y Cabinet yn caniatáu i'r Aelod Cabinet symud ymlaen i gychwyn trafodaethau lleol ar adolygu darpariaeth addysg gynradd ym Mangor, y cam nesaf fydd sefydlu Pwyllgor Adolygu Dalgylch (PAD) i adnabod a thrafod opsiynau gan gytuno ar opsiwn ffafredig fydd yn ymateb i anghenion addysg ar gyfer yr ardal i'r dyfodol.

4.2 O ganlyniad i'r trafodaethau lleol, creu a chyflwyno cam cyntaf achos fusnes (SOC) i Lywodraeth Cymru er mwyn cael eu cymeradwyaeth nhw i'r achos strategol dros newid a'r opsiwn ffafredig fyddwn yn argymell i ymgynghori arno. Os yn llwyddiannus, bydd hyn yn caniatáu inni symud ymlaen i'r cam nesaf o greu achos fusnes terfynol, yn dilyn ymgynghori, er mwyn sicrhau cyfraniad £6,365,000 gan Lywodraeth Cymru.

4.3 Yn dilyn cynnal trafodaethau lleol, dychwelyd i'r Cabinet i ofyn caniatâd i symud ymlaen gan gynnwys caniatad i gynnal unrhyw broses statudol, yn unol â chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013, yn ôl yr angen.

**Rhaglen waith**

| **Dyddiad** | **Gwaith** |
|---|---|
| Chwefror – Mai 2017 | **Cynnal cyfres o gyfarfodydd Panel Adolygu Dalgylch.** Pwrpas y cyfarfodydd hyn fydd i - gytuno cylch gorchwyl, strategaeth ac amcanion, gwybodaeth ysgolion, proses, cyfathrebu, trafod opsiynau, gwerthuso opsiynau, asesiad ardrawiad, cytuno opsiwn ffafredig |
| Mawrth - Mai 2017 | **Paratoi a chyflwyno Cais SOC (cais amlinell strategol)** |
| Gorffennaf 2017 | **Cabinet -** Adrodd yn ôl i'r Cabinet, yn dilyn adborth lleol, i ofyn caniatâd i symud ymlaen gan gynnwys caniatad i gynnal unrhyw broses statudol, yn unol â chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013, yn ôl yr angen. |

**5. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Prif Weithredwr:**

Mae'r achos dros adolygu'r ddarpariaeth yn amlwg iawn gyda materion fel niferoedd yn awr ac i'r dyfodol a safonau addysg yn teilyngu'r sylw pennaf. Dechrau proses yw hyn, wrth gwrs, ac

mae ffordd bell i fynd eto cyn bod unrhyw beth yn medru cael ei wireddu ond mae'n bwysig cychwyn trafodaethau lleol mor fuan a phosib.

**Y Swyddog Monitro:**
Nodi'r mae cychwyn ar broses o drafodaethau lleol sydd ger bron, ac felly nid oes sylw penodol o ochr priodoldeb. Fodd bynnag dylid nodi fod trefn statudol i'w ddilyn wrth i'r broses ddatblygu.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwy'n croesawu'r ymdrech i gynllunio ymlaen llaw er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth addysg ym Mangor, gan ragweld datblygiadau yn y dyfodol.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 17 Ionawr 2017 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad y Dirprwy Arweinydd |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Dirprwy Arweinydd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r Timau Rheoli perthnasol (oedd hefyd ar gyfer y cylch yma fel arbrawf yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Craffu) a'r Tîm Arweinyddiaeth.

1.3 Yn gyffredinol rwy'n hapus gyda chynnydd prosiectau'r Cynllun Strategol a'r mesurau perfformiad yr wyf yn gyfrifol amdanynt.



**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

## 2 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad

## 3 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

3.1 Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

## 4. PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL

### *Y Gymraeg*

**4.1. I1 Cymunedau yn hyrwyddo'r Gymraeg - Hyrwyddo'r Gymraeg drwy gefnogi a grymuso pedair cymuned gan gynorthwyo trigolion i gynnal asesiad o sefyllfa'r Gymraeg yn y gymuned er mwyn cryfhau statws a defnydd yr iaith.**

**Cynnydd y Prosiect**

4.1.1 Mae'r prosiect yn dal i fynd yn ei flaen o fewn cymunedau Bangor, Dolgellau a Phorthmadog Pwllheli a cheir crynodeb o'r prif weithgareddau isod. Fe'ch atgoffir fod y rhaglen waith ar gyfer y prosiect wedi ei chyd gytuno gyda Llywodraeth Cymru sy'n cyllido'r gwaith trwy Hunaniaith.

**4.1.2 Bangor**

- Cynhaliwyd lansiad swyddogol Popdy a'r Fenter gydag Alun Davies AC ac oddeutu 40 o westeion yn bresennol ar 14 Hydref 2016. Yn ogystal, cynhaliwyd Diwrnod Agored llwyddiannus ar 15 Hydref 2016 i gyd-fynd â Diwrnod Shwmae/ Su'mae gydag arlwy amrywiol i blant ac oedolion.
- Ar 12 Hydref 2016, cynhaliwyd gweithdy i ddarparwyr gofal iechyd cychwynnol Bangor (Meddygfeydd, Deintyddfeydd, Fferyllfeydd ac Optegfeydd). Y bwriad oedd i gymell mwy o ddarparwyr i gynllunio a darparu gwasanaethau i gleifion yn y Gymraeg a bydd y rhai sydd â diddordeb datblygu eu darpariaeth ymhellach yn cael eu cynnwys o dan brosiect Cymreigio busnesau Bangor.
- Mae 5 o sesiynau wedi eu cynnal efo 45 o ddisgyblion Chweched isaf Ysgol Tryfan gyda'r nod o gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg trwy'r Ysgol.

**4.1.3 Dolgellau**

- Mae Mudiad Adloniant Dolgellau wedi ethol 6 aelod newydd er mwyn sicrhau parhad y gweithgareddau a chyn y Nadolig bwriedir cynnal Disgo ar gyfer pobl ifanc o dan 18 a Bingo Nadolig ar gyfer y gymuned gyfan.
- Er mwyn dathlu diwrnod Shwmae Sumae fe gynhaliwyd Taith Dyws a Noson Cawl a Chân a fynychwyd gan 46 o bobl.
- Mae *lanyards* dysgwyr ac arwyddion Agor/Cau wedi eu rhannu i fusnesau lleol. Yn ogystal mae rhywfaint o waith cynllunio wedi ei wneud i edrych i hyrwyddo Dolgellau fel cyrchfan rhamantus yn ystod cyfnod Santes Dwynwen a Sant Ffolant ddiwedd Ionawr/dechrau Chwefror.

**4.1.4 Porthmadog/Pwllheli**

- Cynhaliwyd sesiwn ymwybyddiaeth iaith gydag aelodau HIP (Hwyl Ieuenctid Capel y Porth) ar 30 Medi 2016.
- Mae cyswllt wedi ei wneud gydag aelodau Clwb Pêl Droed Pwllheli a threfniadau wedi eu gwneud i gynnal gig Cymraeg ar y 2 Rhagfyr ym mwyty Pontoon, Pwllheli gan dargedu cynulleidfa na fyddai'n arfer mynychu digwyddiadau cymunedol Cymraeg.

- Bydd cystadleuaeth ffenest siop yn cael ei chynnal ar gyfer nodi Dydd Santes Dwynwen gyda grŵp Caru Port.

4.2 **I2 - Y Gymraeg a'r gwasanaethau cyhoeddus – Cynorthwyo sefydliadau cyhoeddus i gynyddu a gwella eu darpariaeth o wasanaethau dwyieithog i drigolion Gwynedd fel eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn naturiol. Drwy gydweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol bydd modd gosod safonau cyson ac eglur, a gweithredu ar y cyd ar gynlluniau fydd yn gwella profiad y defnyddiwr.**

**Cynnydd y Prosiect**

4.2.1 Cyflwynwyd diweddariad ar y prosiect i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ym mis Medi a derbyniwyd rhywfaint o arweiniad cychwynnol ar lefel yr uchelgais ar gyfer y prosiect.

4.2.2 Cynhaliwyd cyfarfod gydag Uwch Swyddogion o'r gwahanol sefydliadau ar y 21 o Hydref lle cytunwyd y byddai pob corff yn darparu papur cryno iawn yn asesu eu sefydliad yn erbyn y dyhead o gael y cyswllt cyntaf i unrhyw ddinesydd trwy gyfrwng y Gymraeg gan adrodd yn ôl erbyn diwedd Tachwedd.

4.2.3 Gofynnwyd hefyd i'r swyddogion hyn i ddiweddaru eu cynrychiolwyr ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol o'r gwaith fel eu bod yn gallu cynnal trafodaeth o fewn y Bwrdd am lefel yr uchelgais ar gyfer y prosiect.

4.3 **I3 Pobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol - Sefydlu gwaelodlin a mesur cynnydd yn nefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gyda phobl ifanc.**

**Cynnydd y Prosiect**

4.3.1 Mae'r cynllun gweithredu drafft wedi'i llunio ar gyfer y prosiect, ac yn cael ei drafod gydag amryw rhanddeiliad yn cynnwys Penaethiaid, Cyd-gysylltwyr Iaith ac Aelodau o Weithgor Siarter Iaith. Rwyf yn awr yn aelod o Weithgor y Siarter Iaith ac wedi mynychu dau gyfarfod.

4.3.2 Mae 70% o'r Ysgolion Cynradd wedi cyrraedd y safon aur a 30% wedi cyrraedd yr arian. Bydd y Cyd-gysylltwyr iaith yn rhannu arferion da ac yn cyfeirio at Ysgolion llwyddiannus. Mae 10 Ysgol lefel arian wedi eu targedu ac wedi derbyn gwybodaeth ynghylch y gweithgareddau a'r syniadau sydd wedi bod yn effeithiol wrth ateb gofynion y wobr aur a'r gobaith yw y bydd canran uchel o'r ysgolion hyn yn derbyn achrediad y wobr aur ar ddiwedd y flwyddyn addysgol.

4.3.3 Yn yr Uwchradd byddwn yn casglu gwybodaeth ynghylch y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymysg disgyblion Blynyddoedd 7 ac 8 o hyn tan ddechrau'r flwyddyn.

4.4 **I4 Awdit o sefyllfa'r Gymraeg yng Nghyngor Gwynedd -**
**Byddwn yn:**

i) **Ystyried llwyddiant y Cyngor i normaleiddio'r Gymraeg drwy ei adrannau a'r gwasanaethau a ddarperir i drigolion y sir.**
ii) **Cyflawni gwaith ymchwil er mwyn canfod a chadarnhau i ba raddau y mae'r Cyngor yn mynd gam ymhellach ac yn llwyddo i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg drwy gyfrwng y gwasanaethau rydym yn eu darparu i drigolion y sir.**

**Cynnydd y Prosiect**

4.4.1 Rwyf wedi cwrdd â Phenaethiaid yr Adrannau blaenoriaeth (Ymgynghoriaeth Gwynedd, Economi a Chymuned, ac Oedolion, Iechyd a Llesiant) ac mae

camau gweithredu cychwynnol wedi eu cytuno. Rhagwelir y bydd camau gweithredu pendant gyda deilliannau yn eu lle erbyn y Nadolig a byddaf yn eich diweddaru ohonynt yn fy adroddiad nesaf.

4.4.2 O safbwynt ymyraethau mwy cyffredinol ar draws y Cyngor, mae'r e-fodiwl ymwybyddiaeth iaith bellach yn cael ei dreialu, yn barod ar gyfer ei lansio, a bydd yn cael ei ddefnyddio gyda staff yr Adrannau blaenoriaeth fel paratoad allweddol i'r sesiynau wyneb yn wyneb.

4.4.3 Mae trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r Rheolwr sy'n gyfrifol am Siopau Gwynedd a Galw Gwynedd ynghylch y posibilrwydd o hyrwyddo'r ffaith fod y Gymraeg yn iaith weithredol o fewn y Cyngor ac er mwyn sefydlu trefn lle cyferchir ac y dechreuir pob sgwrs gyda chwsmeriaid y n y Gymraeg. Rwy'n aros am ddadansoddiad bras o'r sefyllfa bresennol a'r cyfleon sy'n bodoli a byddaf yn eich diweddaru yn yr adroddiad nesaf.

***Cyngor Effeithiol ac Effeithlon***

4.5 **C3 Ymgysylltu - Pwrpas y prosiect hwn yw gwella ymgysylltu ar draws y Cyngor.**

**Erbyn diwedd Mawrth 2017, bydd y prosiect yma wedi sicrhau bod Strategaeth Ymgysylltu yn cael ei gweithredu ac yn cynnwys cyfres o weithgareddau i wella ymgysylltu ar draws y Cyngor.**

4.5.1 Fel yr ydych yn ymwybodol mae'r gwaith i ddiweddaru'r "log ymgysylltu" wedi digwydd yn ystod yr wythnosau diwethaf ac mae 85 o brosiectau lefel uchel wedi eu hadnabod fydd angen cefnogaeth yr Uned Gyfathrebu. Cyflwynwyd copi o'r log hyn i'r Grŵp Ymgysylltu Corfforaethol ar y 28ain o Fedi ac i'r Tim Arweinyddiaeth ar y 18 Hydref. Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i'r gwaith ymgysylltu ar y prosiectau hyn yn ystod y cyfarfodydd herio perfformiad o hyn ymlaen.

4.5.2 Fel y nodais yn yr adroddiad diwethaf cynhaliwyd **Arolwg Cyhoeddus** a'r **Arolwg Panel Trigolion** yn ystod Haf 2016. Derbyniwyd 1,114 o ymatebion i'r Arolwg Cyhoeddus tra derbyniwyd 520 o ymatebion i'r Arolwg Panel Trigolion sy'n ddirywiad o'r 701 a ymatebodd yn Hydref 2015.

4.5.3 Mae'n bosibl bod y Panel Trigolion yn dod i ddiwedd ei oes yn ei ffurf bresennol ac o ganlyniad mae bwriad i adolygu'r ffyrdd y mae'n gweithredu yn fuan yn 2017.

4.5.4 Bydd y canlyniadau manwl y ddau arolwg yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Ymgysylltu Corfforaethol ym mis Rhagfyr a byddaf yn ein diweddaru o'r canfyddiadau yn yr adroddiad nesaf.

4.6 **C4 Gweithredu cyfundrefn berfformiad - Pwrpas y prosiect hwn fydd datblygu a gweithredu cyfundrefn berfformiad newydd. Bydd y gyfundrefn yn sicrhau fod timau gwasanaeth yn mesur yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd, a defnyddir y mesurau hynny i wella perfformiad.**

**Bydd y drefn adrodd ar hynny yn ychwanegu gwerth drwy ddal gwasanaethau yn atebol.**

4.6.1 Cynhaliwyd peilot o'r Hyfforddiant Modiwl Perfformiad ar yr 2il o Dachwedd gyda'r adborth cyffredinol yn dda er bod angen gwneud rhywfaint o addasiadau. Yn dilyn cwblhau'r addasiadau bydd yr hyfforddiant yn cael ei

gynnig i swyddogion gan anelu i wella eu dealltwriaeth o'r trefniadau newydd a'u harfogi a'r sgiliau i allu dadansoddi a herio perfformiad eu gwasanaethau.

**5 PERFFORMIAD**

5.2 Ceir adroddiad llawn ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio yn ***Atodiad 1.*** Mae gennyf gyfrifoldeb am feysydd gwaith 7 o Unedau o fewn **Adran Cefnogaeth Gorfforaethol** ynghyd a'r **Gwasanaeth Cyfreithiol**. Yn dilyn herio perfformiad **Uned Partneriaeth Gwynedd a Môn** a **Cyfathrebu ac Ymgysylltu** rwy'n hapus gyda pherfformiad y mesurau.

5.3 Mae'r **Uned Gyfieithu** yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth cyfieithu i'r Gymraeg a'r Saesneg ar bapur ac ar lafar i staff, aelodau a thrigolion. Er mwyn sefydlu lefelau bodlonrwydd mae trefn newydd wedi ei sefydlu lle bydd holiadur yn cael ei gylchredeg hefo gwaith sydd wedi ei gyfieithu er mwyn casglu barn cwsmeriaid. Byddwn yn adrodd ar y mesur hwn o'r cyfarfod nesaf.

5.4 Pwrpas yr **Uned Ymchwil a Dadansoddeg** yw datblygu gallu'r Cyngor a chyrff eraill i ddefnyddio gwybodaeth a thystiolaeth er mwyn gwneud y penderfyniadau gorau i bobl Gwynedd. Yn y cyfnod dan sylw fod 12 o ymatebwyr wedi nodi fod y cymorth wedi eu helpu i gael budd i bobl Gwynedd.

5.5 Rwyf hefyd yn awyddus i amlygu'r "gwerth" y mae'r Uned yn ei gyflawni i'r Cyngor a phobl Gwynedd. Enghraifft ddiweddar o hyn yw'r gwaith a wnaed gan yr Uned ar gostau darparu gwasanaethau cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig. O ganlyniad i'r gwaith fe addaswyd y fformiwla gyllido ar gyfer y Cyngor sy'n gyfwerth a chynnydd o **£1.3m** dros 2 flynedd ar gyfer 2017/18 a 2018/19.

5.6 Yn y cyfarfod herio perfformiad rwyf wedi gofyn i'r **Tîm Prosiectau** ystyried sut y gellir rhoi gwerth ar gyfer y mesur bodlonrwydd **(CD05).** Rwyf hefyd wedi gofyn am ddadansoddiad o unrhyw sylwadau a dderbyniwyd a sut y bwriedir ymateb iddynt ar gyfer adroddiadau i'r dyfodol.

5.7 Er bod rhywfaint o wybodaeth wedi ei gasglu ar gyfer mesurau'r **Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad (CG26 a CG27)** a chamau wedi eu cymryd mewn ymateb i'r sylwadau sydd wedi eu derbyn mae angen gwneud gwaith pellach i gadarnhau sut y byddwn yn adrodd ar y mesur.

5.8 Gwelir bod perfformiad y mesur **Canran o holiadur bodlonrwydd gan swyddogion cleient sydd yn sgorio'r gwasanaeth yn ardderchog neu yn dda** gan y **Gwasanaeth Cyfreithiol** yn parhau i fod yn 100% fel y cyfnod diwethaf. Mae nifer o sylwadau wedi eu derbyn gan gwsmeriaid ar gyfer gwella'r gwasanaeth ac mae camau gweithredu wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn ymateb iddynt.

5.9 Yn ogystal, rwyf wedi gofyn i'r Gwasanaeth edrych eto ar ffyrdd addas o fesur safon y gwasanaeth ar gyfer y meysydd Cofrestru Etholiadol ac Etholiadau gan ddefnyddio safonau'r Comisiwn Etholiadau.

**6 SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION**

6.1 Mae'r Adran **Cefnogaeth Gorfforaethol** wedi gwireddu'r oll o gynlluniau effeithlonrwydd a thoriadau 2016/17, ac yn gwneud cynnydd derbyniol iawn tuag at wireddu cynlluniau'r ddwy flwyddyn ganlynol.

## 7 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

7.1 Dim i'w nodi.

## 8 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

8.1 **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Prif Weithredwr:**

Mae'r adroddiad yn un clir a chryno. Yn amlwg, mae rhai o'r prosiectau yn gweithredu mewn meysydd lle mae newid ymddygiad a diwylliant yn ganolog a weithiau mae'n anodd gweld canlyniadau mor fuan ag y byddem yn dymuno. Mae un neu ddau bethau eraill werth eu nodi. Yn gyntaf, o ran y mesurau perfformiad, rwy'n dyst yn y cyfarfodydd monitro perfformiad i waith manwl iawn o ran sicrhau ein bod yn mesur y pethau iawn. Mae'n dda hefyd gweld adran wedi gwireddu'r cyfan o'u arbedion a'u toriadau mewn da bryd.

**ii. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**iii. Y Pennaeth Cyllid:**

Cadarnhaf gywirdeb rhan 6 o'r adrioddiad, sydd yn sefyllfa i'w groesawu o ran arbedion, fel adroddwyd i'r Cyngor llawn 8 Rhagfyr.

8.2 **Barn yr Aelod Lleol:**

8.2.1 Ddim yn fater lleol.

8.3 **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

8.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1 –** Mesurau Perfformiad

# Atodiad 1

## Mesurau Cefnogaeth Gorfforaethol

| Mesur- diffiniad | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | Cyfeiriad Uchelgais | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Uned Gyfieithu** | | | | | |
| 1. Barn defnyddwyr ar ansawdd gwaith ysgrifenedig | - | 100% | - | Cynnal | Newydd |
| 2. Barn defnyddwyr ar ansawdd gwaith cyfieithu ar y pryd | - | 100% | - | Cynnal | Newydd |
| **Ymchwil a Dadansoddeg** | | | | | |
| 1. Nifer cwsmeriaid sy'n nodi fod y cymorth wedi eu helpu i gael budd i bobl Gwynedd | - | - | - | - | 12 Do |
| **Uned Partneriaeth Gwynedd a Môn** | | | | | |
| 1. % o'r partneriaid sydd yn gytûn fod elfennau gweinyddol y partneriaethau o ansawdd ac yn amserol<br>Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br>Partneriaeth Diogelwch Cymunedol<br>Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc | <br>-<br>-<br>- | <br>-<br>100%<br>100% | <br>-<br>-<br>- | - | 100% |
| 2. % o'r partneriaid sydd yn gytûn fod y cyfarfodydd a'r gwaith partneriaeth yn cyflawni yn effeithiol ar gyfer pobl Gwynedd a Môn | - | - | - | - | Newydd |
| **Cyfathrebu ac Ymgysylltu** | | | | | |
| 1. Bodlonrwydd adrannau gyda chefnogaeth yr Uned i'w helpu i ymgysylltu gyda phobl Gwynedd | - | - | - | - | 9.6 (Blwyddyn) |
| **Sylwadau**<br>1. Allan o 10 ymateb rhwng Medi a Tachwedd roedd y sgôr cyfartalog yn 10. | | | | | |
| **Tîm Prosiectau** | | | | | |
| **CG05** Bodlonrwydd Cwsmer – Bwrdd Prosiect, Arweinydd Prosiect, Uwch Gyflenwyr, Uwch Ddefnyddiwr | - | - | - | Gosod gwaelodlin | Newydd |
| **Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad** | | | | | |
| **CG26** Pobl Gwynedd yn fodlon gyda'r wybodaeth sydd ar gael iddynt am be mae'r Cyngor yn ei wneud ac am ei wneud yn y dyfodol | - | - | - | Gwelliant | - |
| **CG27** Ydi'r wybodaeth yn eich helpu chi i wybod sut/beth mae'r Cyngor yn ei wneud? | - | - | - | Gosod gwaelodlin | - |

## Mesurau Gwasanaeth Cyfreithiol

| Mesur- diffiniad | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. Canran o holiadur bodlonrwydd gan sywddogion cleient sydd yn sgorio'r gwasanaeth yn ardderchog neu yn dda. | 98% | 98% | 100% | Cynnal | 100% |

Eitem 13

# BLAENRAGLEN WAITH

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet** | **Eitemau i'w trafod** | **Aelod Cabinet** |
|---|---|---|
| **Chwarter 4 2016/17 –**<br>**1 Ionawr 2016 – 31 Mawrth 2017** | | |
| **14 Chwefror 2017** | Strategaeth Ariannol Ddrafft 2017/18 – 2019/20 | Peredur Jenkins |
| | Prynu Tir yn Ardal Llanrug | Gareth Thomas |
| | Cynllun y Cyngor | Dyfed Edwards |
| | Cyllideb Refeniw 2016/17 – Adolygiad 3ydd chwarter | Peredur Jenkins |
| | Rhaglen Gyfalaf 2016/17 – Adolygiad 3ydd chwarter | Peredur Jenkins |
| | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd | John Wynn Jones |
| | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio | Dafydd Meurig |
| **7 Mawrth 2017** | Datganiad am Sefyllfa'r Farchnad – Cartrefi Gofal Gogledd Cymru | W Gareth Roberts |
| | Asesiad o anghenion poblogaeth Gogledd Cymru | W Gareth Roberts a Mair Rowlands |
| | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Economi a Chymuned | Mandy Williams-Davies |
| | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer, Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb | Ioan Thomas |

| Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet | Eitemau i'w trafod | Aelod Cabinet |
|---|---|---|
| | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden | Mair Rowlands |
| | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Addysg | Gareth Thomas |
| **28 Mawrth 2017** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Oedolion a Iechyd | W Gareth Roberts |
| | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Adnoddau | Peredur Jenkins |
| | Adroddiad Perfformiad Dirprwy Arweinydd | Dyfrig Siencyn |
| **Chwarter 4 2016/17 –**<br>**Ond dyddiad heb ei bennu** | | |
| | Cyflwyniad gan Ffion Johnstone | Gareth Thomas |
| | Adolygu Strategaeth Ffordd Gwynedd | Peredur Jenkins |
| | Prynu Tir yn ardal Llanrug | Gareth Thomas |
| | Trosglwyddo Balansau Ysgolion sy'n Cau | Gareth Thomas |
| **Chwarter 1 2017/18 –**<br>**1 Ebrill 2017 – 30 Mehefin 2017**<br>**Ond dyddiad heb ei bennu** | | |
| | Ail Gomisiynu darpariaeth Gofal Cartref | W Gareth Roberts |
| | Blaenoriaethu Siwrneiau Bws Cludiant Cyhoeddus | Dafydd Meurig |
| | Ail Fodelu Gwasanaethau Ieuenctid | Mair Rowlands |
| | Adroddiad Perfformiad y Cyngor | Dyfrig Siencyn |

| Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet | Eitemau i'w trafod | Aelod Cabinet |
|---|---|---|
| | Cyfrifon Terfynol 2016/17 – Alldro Refeniw | Peredur Jenkins |
| | Rhaglen Gyfalaf 2016/17 – Adolygiad diwedd y flwyddyn (31 Mawrth 2017) | Peredur Jenkins |